Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu · Police
DYFED
POWYS

# 2026/7-2030/31 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Yn cynnwys:
A. Cynnig Praesept
B. Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn
C. Strategaeth

## Cynnwys


1. Crynodeb a Chynnig Praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
2. Cyd-destun Sefydliadol a Gweithredol
3. Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannu a Phraesept yr Heddlu
4. Sylfaen y Dreth Gyngor
5. Tirwedd Economaidd
6. Setliad Ariannu'r Heddlu 2026/27 a'r Cyd-destun Cenedlaethol
7. Capio’r Dreth Gyngor/Refferendwm – Cymru yn erbyn Lloegr
8. Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannol 2025/26
9. Cynllun Gweithlu
10. Proses y Gyllideb a Gofyniad Cyllideb 2026/27
11. Cyllideb Tymor Canolig a Rhagolygon
12. Cynllun Arbedion / Lleihau Costau yn y Dyfodol ac Adolygiad yr Heddlu
13. Cynllun Buddsoddi Cyfalaf
14. Effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn
15. Crynodeb Ariannol Tymor Canolig
16. Adran 25 a Risg Cyllidebol
17. Ymgynghoriad Cyhoeddus a Barn
18. Casgliad


### Atodiadau


A. Cyllideb 2026/27 – 2030/31

B. Adran 25 Adroddiad y Prif Swyddogion Cyllid

C. Asesiad Risg o Gyllidebau Materol

D. Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

E. Cronfeydd wrth gefn 2025/26 – 2030/31

F. Strategaeth Gyfalaf

G. Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – 2034/35

## 1 Crynodeb a Chynnig Praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

1.1 Rwy'n falch o barhau i wasanaethu fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) yn ystod fy nhrydydd cyfnod yn y swydd. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda chymunedau ar draws yr ardal ddaearyddol eang ac amrywiol a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae datblygu a chynnal cydberthnasau cryf â thrigolion, partneriaid a rhanddeiliaid yn parhau i fod yn ganolog i'm rôl ac yn sail i'm dull o blismona a diogelwch cymunedol. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws pedair ardal yr awdurdod unedol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rwy'n hyderus y bydd cynnal a chryfhau'r trefniadau cydweithredol hyn yn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau i'n cymunedau ymhellach, yn enwedig yn wyneb galw a chymhlethdod cynyddol.

1.2 Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gan y cyhoedd lais cryf wrth lunio gwasanaethau plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhan annatod o'n cymunedau, ac mae'r berthynas unigryw hon o'r pwys mwyaf. Rhaid i'r cyhoedd aros wrth wraidd popeth a wnawn a phob penderfyniad a wneir.

1.3 Mae darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ein gweithredoedd a'n penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn parhau i fod yn hanfodol. Drwy barhau i harneisio technoleg, data a mewnwelediad i lunio'r broses o ddarparu gwasanaethau, rwy'n hyderus y gellir cyflawni gwelliannau pellach wrth wella diogelwch, sicrwydd a hyder cymunedau ar draws ardal yr heddlu.

1.4 Mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yn parhau i gael ei nodi yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029. Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn parhau i fod wrth wraidd yr holl benderfyniadau a wneir a'r broses o ddyrannu adnoddau, ac fe'u cefnogir a'u hategir gan flaenoriaethau gweithredol y Prif Gwnstabl ar gyfer yr heddlu.

1.5 Mae asesiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn parhau i lywio ein dull o wella. Er bod yr arolygiad wedi cydnabod nifer o feysydd perfformiad cadarnhaol, nododd hefyd agweddau ar gyflawniad gweithredol yr oedd angen eu datblygu ymhellach. Rwy'n sicr bod cynnydd cynaliadwy wedi'i wneud ers yr arolygiad, ac y bydd pwyslais a buddsoddiad parhaus yn cefnogi gwelliant pellach yn ystod 2026/27 a thu hwnt. Mae fy nghynnig praesept wedi'i gynllunio i alluogi'r Prif Gwnstabl i barhau i wneud buddsoddiadau â blaenoriaeth mewn meysydd darparu gwasanaethau hanfodol.

1.6 Bydd fy swyddfa'n parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, ochr yn ochr â chyflawni ystod gynyddol o gyfrifoldebau statudol, gan gynnwys gwell swyddogaethau craffu, sicrwydd a phrofiad y cyhoedd. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn parhau i brofi lefelau uchel a chymhleth o alw, sydd wedi'u cymhlethu gan y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Er gwaethaf y pwysau ariannol parhaus, rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi gwasanaethau hanfodol ar gyfer dioddefwyr ac unigolion bregus a byddaf yn gweithio i sicrhau bod darpariaeth rheng flaen yn cael ei diogelu pan fo modd.

1.7 Un o fy nghyfrifoldebau statudol allweddol fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw pennu'r praesept plismona bob blwyddyn. Mae'r praesept yn cynrychioli cyfran y dreth gyngor leol a godir i gefnogi gwasanaethau plismona. Wrth benderfynu ar y praesept ar gyfer 2026/27, rwyf wedi ystyried yn ofalus amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys gofyniad am adnoddau'r Prif Gwnstabl, cynaliadwyedd y cronfeydd arian wrth gefn, adborth gan y cyhoedd, fforddiadwyedd, a'r angen i fuddsoddi'n barhaus yng ngallu'r gweithlu, ystadau, seilwaith digidol a gwydnwch gweithredol.

1.8 Mae'r trefniadau statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn datgan:

- Rhaid i mi hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu o'm praesept arfaethedig erbyn 1 Chwefror.
- Rhaid i'r panel adolygu'r praesept arfaethedig erbyn 8 Chwefror.
- Os bydd y panel yn rhoi feto ar y praesept arfaethedig, rhaid i mi hysbysu'r panel o'm praesept diwygiedig erbyn 15 Chwefror. Rhaid i'r panel adolygu'r praesept diwygiedig erbyn 22 Chwefror. Rhaid i mi osod praesept erbyn 1 Mawrth.

1.9 Mae'r Prif Gwnstabl yn parhau i adrodd ar berfformiad ariannol yn rheolaidd drwy'r Bwrdd Plismona. Mae rheoli ariannol a chynllunio ariannol tymor canolig yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Cyllid Strategol a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig. Mae fy Mhrif Swyddog Cyllid yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Tîm Cyllid Corfforaethol er mwyn sicrhau llywodraethu a sicrwydd ariannol cryf.

1.10 Mae trafodaethau manwl wedi digwydd drwy gydol 2025/26 mewn perthynas â pherfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn a datblygiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r trafodaethau hyn wedi cael eu cynnal drwy strwythurau llywodraethu ffurfiol a thrwy gyfres o gyfarfodydd praesept a chynllunio tymor canolig pwrpasol yr oeddwn i, y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid a'm Prif Swyddog Cyllid oll yn bresennol ynddynt.

1.11 Cynhaliwyd seminar cyllid hefyd gydag aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru i roi trosolwg o'r amgylchedd gweithredol, pwysau o ran galw, a'r heriau ariannol sy'n

wynebu'r heddlu. Rhoddodd y sesiwn hon gyd-destun gwerthfawr ynghylch y gofyniad am adnoddau ar gyfer 2026/27 a'r tymor canolig, gan gynnwys rhagdybiaethau ynghylch y gyllideb, pwysau, cyd-destun ariannu, arbedion, arbedion effeithlonrwydd ac anghenion buddsoddi. Ystyriodd y seminar hefyd amodau economaidd ehangach a'u heffaith ar gyllid y sector cyhoeddus.

1.12 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol heriol sydd wedi'i lunio gan ostyngiadau hirdymor yn y cyllid a geir gan Lywodraeth y DU, costau cynyddol, a galw cynyddol a newidiol am wasanaethau plismona. Mae'r pwysau hyn yn cael eu gwaethygu gan ansicrwydd economaidd ehangach, gan gynnwys pwysau chwyddiant, heriau yn y farchnad lafur ac ansefydlogrwydd parhaus ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

1.13 Gwnaed cynnydd sylweddol o ran gwneud arbedion a gwella effeithlonrwydd drwy Raglen Adolygu'r Heddlu. Mae'r rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar arloesedd, ailgynllunio gwasanaethau ac arferion gorau, gyda mentrau diweddar wedi'u hanelu at ryddhau capasiti rheng flaen, gwella profiad dioddefwyr a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio lle mae eu hangen fwyaf.

1.14 Wrth i ni symud i mewn i 2026/27, mae'r pwyslais yn parhau i fod ar gynnal cynaliadwyedd ariannol, gan sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa dda i ddiwallu'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol, cyflawni yn unol â blaenoriaethau strategol, a pharhau i wella canlyniadau i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

1.15 Cyhoeddwyd y setliad dros dro ar gyfer 2026/27 gan Sarah Jones, y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Throseddu, ar 18 Rhagfyr 2025. Ar lefel yr heddlu, mae'r setliad terfynol cyffredinol ar gyfer 2026/27 wedi'i fanylu yn y tabl isod:

**Tabl 1: Setliad grant 2026/27**

| Cyllid grant | Setliad gwreiddiol 25/26 (£m) | Cyllid dyfarniad cyflog ychwanegol 25/26 | Setliad diwygiedig 25/26 | Setliad dros dro 26/27 (£m) | Newid o'r gwreiddiol 25/26 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant craidd | 66.9 | 0.9 | 67.8 | 72.1 | 4.3 | 0.1 |
| **Cyfanswm y grant craidd** | **66.9** | **0.9** | **67.8** | **72.1** | **4.3** | **0.1** |
| Grant cynhaliaeth swyddogion/ uwchraddiad gweithredol | 2.5 | 0.00 | 2.5 | 0.0 | -2.5 | -1.0 |
| Grant recriwtio ychwanegol | 0.5 | 0.00 | 0.5 | 0.0 | -0.5 | -1.0 |
| Grant pensiwn | 3.7 | 0.00 | 3.7 | 3.7 | 0.00 | 0.0 |
| Yswiriant Gwladol | 2.1 | 0.00 | 2.1 | 2.2 | 0.00 | 0.0 |
| Grant Gwarant Plismona Bro | 1.4 | 0.00 | 1.4 | 2.6 | 1.2 | 0.8 |
| **Cyfanswm y grantiau uniongyrchol** | **10.3** | **0.00** | **10.3** | **8.5** | **-1.8** | -0.2 |
| **Cyfanswm cyllid y llywodraeth** | **77.2** | **0.9** | **78.1** | **80.6** | **2.5** | **3.2%** |

1.16 Roedd y setliad hwn yn cynnwys cynnydd o ran y grant Gwarant Plismona Bro wedi'i neilltuo sy'n disodli'r grant cynnal swyddogion. Mae'r targed ar gyfer nifer cyffredinol y swyddogion wedi'i ddileu a'i ddisodli â tharged Plismona Bro yn 2026–27.

1.17 Yn gyffredinol, mae'r cyhoeddiad setliad yn cynrychioli cynnydd o 3.2%.

1.18 Cadarnhaodd y cyhoeddiad o setliad grant yr heddlu hyblygrwydd praesept ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn Lloegr ar gyfer cynnydd o £15 fesul eiddo Band D, heb ysgogi'r angen am refferendwm lleol. Nid yw hyn yn berthnasol yng Nghymru ac mae adran 7 yn darparu rhagor o wybodaeth.

1.19 Mae trefniadau ariannu'r heddlu yn gymhleth. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod amrywiaeth o wahaniaethau ac anghydraddoldebau rhwng Cymru a Lloegr a rhwng heddluoedd unigol, sy'n golygu y gall setliadau craidd, grantiau a phenderfyniadau praesept gael effaith wahanol iawn.

1.20 Mae'r ffaith y cafwyd gwared ar y grant cyfalaf yn 2012/13 yn golygu bod rhaid talu costau cefnogi buddsoddiad seilwaith cyfalaf hanfodol mewn Ystadau, Fflyd, a Thechnoleg Gwybodaeth (prosiectau lleol a chenedlaethol) yn lleol. Mae'r angen am fuddsoddiad parhaus yn sylweddol

gan fod hyn yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau plismona ac i alluogi gwell cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, yn ogystal â gwneud cynnydd yn erbyn targedau lleihau carbon cenedlaethol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cynnwys trywydd sylweddol o gynnydd mewn cyfraniadau refeniw i gyfalaf dros y pum mlynedd nesaf, ynghyd â thybiaethau mewn perthynas â benthyca darbodus a chostau refeniw canlyniadol ariannu. Yn y pen draw, rhoddodd y ddau bwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb refeniw.

1.21 Byddaf yn parhau i adolygu fy strategaeth cronfeydd wrth gefn i ailflaenoriaethu fel y bo’n briodol, gan gynnal pwyslais ar reoli ariannol darbodus, gwydnwch a chynaliadwyedd.

1.22 Ar ôl craffu helaeth gan y Panel Heddlu a Throseddu, cefais fy nghefnogi'n unfrydol y llynedd i bennu praesept treth gyngor ar gyfer 2025/26 yn Nyfed-Powys o £380.68 ar gyfer eiddo Band D arferol, sef yr isaf yng Nghymru unwaith eto.

1.23 Ar bob cam o’r gyfres o gyfarfodydd y Praesept a CATC, ac yn wir drwy fy nghraffu a’m hadolygiad o’r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, rwy’n cwestiynu’n feirniadol ac yn herio agweddau ar y gofyniad cyllideb refeniw a’r strwythur cyflawni sefydliadol er mwyn sicrhau fy hun o’r gofynion, y cynnydd a’r cyflawni yn y pen draw. Ymgymerais hefyd â chyfres o sesiynau herio a chraffu yn adolygu'n benodol y Strategaethau Ystadau, TGCh a Fflyd a rhaglen gyfalaf y dyfodol.

1.24 Er mwyn llywio fy ystyriaethau ar gyfer 2026/27 ac i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd, ymgynghorais â’r cyhoedd i gael eu barn ar lefel y cynnydd ym Mhraesept yr heddlu. Roedd yn braf gweld cynnydd yn nifer yr ymatebwyr ers 2025/26.

1.25 Rhoddwyd cyfle i’r ymatebwyr hefyd i rannu sylwadau. Y prif themâu oedd plismona gweladwy, diogelwch ar y ffyrdd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Codwyd pryderon ynghylch effaith yr argyfwng costau byw a fforddiadwyedd cynnydd pellach. Rwyf wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus yn fy ystyriaethau ar gyfer 2026/27, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sydd ohoni. Amlinellir canlyniadau’r ymgynghoriad hwn yn adran 17 o’r adroddiad hwn. Bydd fy nhîm yn gwneud gwaith pellach mewn perthynas â’r amrywiaeth o sylwadau a, lle bo’n briodol, bydd y rhain yn rhan o’m trafodaethau parhaus â’r Prif Gwnstabl.

1.26 Rwy'n ymwybodol iawn o'r pwysau y mae’r argyfwng costau byw yn parhau i'w roi ar ein cymunedau. Mae cydbwysedd bregus rhwng sicrhau gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol, gwasanaeth sydd yn weladwy a hygyrch, sydd yn mynd i'r afael â gofyniad am wasanaethau gweithredol er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, a sicrhau gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr a rheolaeth ariannol gadarn hefyd. Ar ôl ymgymryd â phroses gynhwysfawr, rwy'n hyderus bod y CATC hwn yn gadarn, ond nid yw hyn

yn tanamcangyfrif y penderfyniadau anodd, nac yn wir yn lliniaru'r heriau a'r ansicrwydd ariannol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

1.27 **Felly, cyflwynaf fy nghynnig praesept i'w graffu gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a fydd yn codi'r praesept eiddo cyfartalog ym mand D £2.25 y mis neu £26.95 y flwyddyn i £387.63, sef cynnydd o 7.47%. Bydd y cynnydd hwn yn codi cyfanswm praesept o £93.033 miliwn. Bydd hyn yn darparu cyfanswm o £165.1 miliwn o gyllid, sy'n cynrychioli cynnydd o £8.8 miliwn ar y cyllid diwygiedig ar gyfer 2025/26.**

1.28 Mae'r dirwedd weithredol ac ariannol yn parhau i fod yn anrhagweladwy ac yn heriol. Bydd y lefel hon o gyllid yn galluogi'r heddlu i ganolbwyntio ar gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029 a gwella gwasanaethau ledled ardal Dyfed-Powys.

1.29 Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau Panel Heddlu a Throseddu i graffu ar fy nghynnig praesept a darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r cyd-destun gweithredol ac ariannol, sy'n sail i'r gofynion am adnoddau a'r rhagdybiaethau ar gyfer 2026/27 a thu hwnt.

## 2 Cyd-destun Sefydliadol a Gweithredol

2.1 Yn ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu ddaearyddol fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau i ni.

2.2 Mae'r boblogaeth breswyl o 518,062 wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad ac ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

2.3 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol ac mae ganddo unedau rheoli sylfaenol lleol cydffiniol. Y tu hwnt i'r pedair sir, mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn cydweithio ar sail Cymru gyfan o ran cyfrifoldebau plismona mewn meysydd fel ymateb arfog a throseddau difrifol a threfnedig.

2.4 Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol yn nifer y troseddau a gofnodwyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am wasanaethau yn parhau i dyfu oherwydd cymhlethdod cynyddol ymchwiliadau, afiechyd meddwl, camfanteisio'n rhywiol ar blant a seiberdroseddu. Mae newidiadau i'r ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi'n genedlaethol wedi effeithio ar

lefelau'r troseddau a gofnodwyd ac yn cyfrif am rai o'r gostyngiadau.

**Tabl 2: Trosedd a gofnodwyd**

| | Year | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Crime Category | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
| Total Recorded Crime (excluding Fraud) | 26473 | 29154 | 32586 | 31796 | 40433 | 45042 | 38780 | 37558 | 36285 |
| Arson & Criminal Damage | 4186 | 4177 | 4170 | 3777 | 4345 | 4771 | 4077 | 3971 | 4018 |
| Burglary | 1749 | 1553 | 1631 | 1386 | 1292 | 1284 | 1228 | 1542 | 1437 |
| Drug Offences | 1772 | 1900 | 2099 | 2105 | 1746 | 2087 | 1775 | 1716 | 1747 |
| Miscellaneous Crime Against Society | 651 | 736 | 920 | 842 | 841 | 894 | 770 | 918 | 1053 |
| Possession of Weapons | 152 | 189 | 245 | 281 | 222 | 300 | 281 | 384 | 437 |
| Public Order Offences | 1175 | 1779 | 2267 | 3170 | 5655 | 6099 | 4709 | 3939 | 3577 |
| Robbery | 42 | 69 | 69 | 55 | 47 | 83 | 74 | 107 | 95 |
| Sexual Offences | 1230 | 1428 | 1450 | 1248 | 1559 | 1734 | 1563 | 1616 | 1980 |
| Theft | 5197 | 5387 | 4795 | 3655 | 3910 | 4827 | 4887 | 4662 | 4252 |
| Vehicle Offences | 940 | 957 | 967 | 723 | 650 | 707 | 580 | 709 | 718 |
| Violence Against the Person | 9379 | 10979 | 13973 | 14554 | 20166 | 22256 | 18836 | 17994 | 16971 |

*Am ragor o wybodaeth am droseddau a gofnodwyd, ewch i dablau data agored troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu a gyhoeddwyd ar wefan GOV.UK.*

2.5 Mae'r gwasanaeth yn parhau i esblygu'n gyflym i alluogi ei ymateb i risgiau newydd, bygythiadau newydd, a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio.

2.6 Mae plismona bro yn parhau i fod wrth wraidd y ddarpariaeth weithredol a bydd y cyllid ychwanegol sy'n dod i law o'r grant Gwarant Plismona Bro yn cynyddu nifer y swyddogion o fewn cymunedau ymhellach. Mae timau plismona ac atal bro yn ymdrechu i ddeall a mynd i'r afael â phryderon ein cymunedau, gan weithio'n ddiflino i godi hyder y cyhoedd. Byddant yn parhau i ddatblygu a meithrin cydberthnasau i ategu cymunedau a galluogi dull plismona a arweinir gan y gymuned. Drwy gydweithio'n agos â chymunedau, partneriaid a sefydliadau'r trydydd sector, byddant yn integreiddio ymdrechion ymgysylltu â'r gymuned i fodel gweithredu Plismona Bro ac Atal Lleol drwy sicrhau bod yr holl randdeiliaid dan sylw yn canolbwyntio ar ddatrys problemau, atal ac ymyrryd yn gynnar i wella dilysrwydd a chodi hyder ymhlith cymunedau ardal Dyfed-Powys. Bydd y timau bro yn annog ymgysylltu ag unigolion a chymunedau trwy gyfleoedd gweledig ac ymgysylltu rheolaidd, gan eu helpu i nodi a blaenoriaethu materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn yr ardal leol. Mae ap negeseuo cymunedol newydd plismona bro yn ategu'r gwaith hwn.

2.7 Er mwyn cyflawni blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd, a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl Ifan Charles a benodwyd yn ddiweddar, manylir ar weledigaeth a rennir isod:

**Ffigur 1: Blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys**

**Dyfed Powys Police Vision and Priorities**

**Vision: To work together to provide a first-class service to victims and the public, being visible and accessible. To be there when victims and the public need us, acting with fairness and respect in all that we do.**




2.8 Mae’r Swyddfa Gartref a phrif swyddogion o fewn yr heddlu’n parhau i ganolbwyntio ar berfformiad yr heddlu, a chraffu arno. Mae'r gwaith hwn yn mesur y cynnydd a'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni ledled ardal Dyfed-Powys. Mae craffu ar berfformiad ar lefel yr heddlu a chyflwyno ‘dangosfyrddau perfformiad gweithredol’ yn rhoi data cywir, dibynadwy ac ystyrlon i swyddogion, goruchwylwyr a rheolwyr. Mae hyn nid yn unig yn cynorthwyo ac yn cefnogi swyddogion, ond hefyd yn dangos sut mae perfformiad lleol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion ledled yr heddlu, ac yn effeithio ar y rheini.

2.9 Mae cylch cynllunio strategol a sicrwydd gwell wedi'i ddatblygu a'i weithredu, gan gydnabod pwysigrwydd a chymhlethdodau’r llu o agweddau sefydliadol sy’n rhyngweithio. Mae proses adrodd a digwyddiadau drwy gydol y cylch yn sicrhau bod gofynion strategol a blaenoriaethau'r heddlu yn cyd-fynd yn gyffredinol â llif parhaus o wybodaeth i ategu’r gwaith o ddyrannu adnoddau a’r broses o wneud penderfyniadau. Mae canlyniadau asesiadau mewnol ac allanol hefyd yn cyfrannu at y broses hon, gan ein galluogi i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy archwilio opsiynau ar draws pob maes o'n busnes a'n gweithrediadau a gosod y trywydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**Ffigur 2: Proses cynllunio a sicrwydd (S-PAC)**




2.10 Cyflwynwyd Datganiad Rheoli'r Heddlu diweddaraf ym mis Mai 2025.Mae'r heddlu wedi cael adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), gan ei ddisgrifio fel 'datganiad cryf iawn', a'i raddio'n 'rhagorol' neu'n 'dda' ym mhob maes, ond dau (asesiad perfformiad cam 2 a cham 3), a oedd yn 'ddigonol'. Bydd y datganiad nesaf yn cael ei gyflwyno erbyn mis Mai 2026. Bydd HMICFRS yn defnyddio hwn i lywio eu harolygiad o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb y lluoedd, i lywio eu harolygiadau thematig ac i ategu eu gwaith monitro o berfformiad lluoedd.

2.11 Defnyddiwyd y broses newydd a chanfyddiadau'r datganiad yn helaeth i nodi a blaenoriaethu unrhyw heriau a chyfleoedd cyllidebol fel rhan o'r broses o osod cyllideb 2026/27 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r broses gynllunio strategol a sicrwydd wedi'i chynllunio i gefnogi buddsoddiadau a phenderfyniadau'r heddlu drwy ddarparu modelau gweithredu newydd, yn ogystal â modelau sydd eisoes yn bodoli, i ddangos lle gellir cyflawni mwy o effeithlonrwydd ac mae wedi'i thanategu gan dryloywder ac atebolrwydd.

2.12 Mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r canfyddiadau yr adroddwyd amdanynt, a'r meysydd i'w gwella a amlygwyd gan arolygiad PEEL HMICFRS yn 2023–25.Mae pwyslais sylweddol a buddsoddiad cysylltiedig wedi'i gynllunio i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau wedi arwain at gymeradwyo a chau'r holl feysydd a nodwyd ar gyfer gwella, neu eu cyflawni'n fewnol yn amodol ar adolygiad pellach

yn ystod rhaglen arolygu PEEL HMICFRS 2025–27 yn yr arfaeth, a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2026.

2.13 O ran agweddau ar reolaeth ariannol, roedd yn bleser gweld bod arolygiad HMICFRS 2023–25 wedi nodi bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio data yn effeithiol i reoli a deall ei gyllid. Mae hyn yn sicrhau bod yr heddlu yn deall gwir gost ei adnoddau a lefel y cyllid sydd ar gael. Mae ganddo ddull disgybledig o ddefnyddio cyllid yn effeithiol a chefnogi'r timau rheoli ehangach i wneud arbedion. Canfuwyd hefyd bod "cynlluniau ariannol yr heddlu, gan gynnwys ei raglen fuddsoddi, yn fforddiadwy ac y byddant yn helpu'r heddlu i barhau i fodloni gofynion y dyfodol. Mae'r heddlu yn dangos rheolaeth ariannol effeithiol. Mae'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael iddo, ac mae ei gynlluniau ariannol yn uchelgeisiol ac yn gynaliadwy."

2.14 Yn 2022, cychwynnodd yr heddlu raglen newid tair blynedd (Adolygiad yr Heddlu) i fynd i'r afael â gofyniad i gyflawni arbediad o £10 miliwn dros y cyfnod hwnnw. Oherwydd effeithiolrwydd yr arbedion a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn un, fe ganolbwyntiwyd blwyddyn dau a thri ar gryfhau timau ymateb yr heddlu mewn iwnifform wrth wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sefydliadol cyffredinol a gwella lles a llesiant swyddogion ac aelodau staff yr heddlu. Ar ôl dirwyn Rhaglen Adolygu'r Heddlu i ben ddechrau 2025, mae'r gwaith hwn wedi parhau drwy ddwy raglen newydd; Rhaglen Model Gweithredu'r Heddlu a'r Rhaglen Cymysgedd Gweithlu. Mae pob rhaglen yn cynnwys sawl ffrwd gwaith y mae arweinwyr ffrydiau gwaith yn gyfrifol amdanynt, ac mae pob un ohonynt yn ceisio cyflawni'r amcanion a amlinellwyd uchod.

2.15 <u>Ffrydiau gwaith/newidiadau sydd wedi'u cwblhau</u>

- Crëwyd swydd Uwch-arolygydd Atal o fewn y sefydliad presennol i leihau'r galw.
- Gwell dealltwriaeth ymhlith staff Adnoddau Dynol o'r sefydliad a'r 'diwylliant o wneud penderfyniadau' ynghylch adnoddau.
- Parhau i fuddsoddi yng ngwasanaeth ysgolion yr heddlu o 14 cwnstabl cyfwerth ag amser llawn.
- Trwy ehangu cylch gwaith yr Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig, fe ddarparwyd yr uned yn barhaol saith diwrnod yr wythnos ledled yr heddlu o 14 Hydref 2024. Mae hyn wedi cynyddu capasiti o fewn timau ymateb yr heddlu mewn iwnifform trwy ailddyrannu llwyth gwaith i'r uned a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr cam-drin domestig yn sylweddol ar yr un pryd.
- Defnyddio algorithm brysbennu troseddau offer ymchwilio'n seiliedig ar dystiolaeth Ebit gan Ganolfan Plismona ar Sail Tystiolaeth Caergrawnt sy'n nodi troseddau nad oes modd eu datrys. Ar adeg ysgrifennu, mae pedwar algorithm wedi'u defnyddio sy'n cysylltu â throseddau ymosod cyffredin

ac adran 4 a 4A Y Ddeddf Trefn Gyhoeddus, difrod troseddol, siop-ladrad ac aflonyddu. Mae hyn yn cynyddu capasiti drwy leihau llwyth gwaith ymchwilio mewn perthynas â throseddau nad ydynt yn droseddau y mae modd eu datrys, gan alluogi swyddogion i fynd ar drywydd ymchwiliadau eraill. Mae hefyd yn gwella amseroldeb o ran cymhwyso canlyniadau ac yn gwella profiad dioddefwyr ac yn rheoli disgwyliadau.

- Gweithredwyd patrwm rota newydd ar gyfer plismona ymatebol a'r ddalfa ar 8 Mai 2025. Mae'r newid hwn yn ceisio cyflawni nifer o welliannau gweithredol a gwelliannau o ran lles/llesiant trwy gael gwared ar batrwm dyletswyddau hen ac amhoblogaidd yn bennaf. Mae'r buddion i'r gweithlu'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) diwrnodau gorffwys ychwanegol, hyd sifftiau ac amseroedd cychwyn cyson, cyfnodau trosglwyddo gwell ac alinio adnoddau i'r galw yn well. Mae'r ffrwd waith hon hefyd wedi cynyddu nifer y goruchwylwyr (ac felly'r gymhareb) mewn meysydd â galw mawr. Mae'r newid hwn yn parhau i gael cefnogaeth lwyr gan y gweithlu.
- Dechreuodd model gweithredu newydd o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu gael ei weithredu ym mis Tachwedd 2023. Ers hynny mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn adnoddau, patrwm rota diwygiedig, a dull hollgymhwysedd (gan gynnwys cynnydd cyflog ar gyfer aelodau staff). Mae hyn yn ceisio gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd drwy leihau amseroedd aros galwadau ac ataliadau gwasanaeth wrth gynyddu nifer y dyddiau gorffwys ar gyfer aelodau'r tîm, tra'n sicrhau bod mwy o weithredwyr yn gweithio ar yr un pryd i leihau straen. Cefnogir hyn yn dda gan y gweithlu, ac mae nifer sylweddol wedi achub arno. Mae cyflwyno cam 1 o ddatrysiad arloesol rheoli cysylltiadau ym mis Tachwedd 2024 wedi gwella'r profiad i ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r tîm. Mae'r rhaglen newid sylweddol hon hefyd yn mynd i'r afael â'r her hanesyddol o ran cadw staff, ac mae eisoes yn lleihau cyfraddau absenoldeb sydd wedi bod yn uchel yn hanesyddol. O ganlyniad i hyn, mae Canolfan Gyfathrebu Heddlu Dyfed-Powys bellach ymhlith un o'r ystafelloedd rheoli sy'n perfformio orau yn y DU (o ran amseroedd ateb galwadau a rhoi'r gorau iddynt).
- Mae gweithrediad cam un a dau o 'Ofal Cywir Unigolyn Cywir' wedi cynyddu capasiti o fewn y timau ymateb drwy sicrhau bod rhai ceisiadau am wasanaeth yn cael eu hailddyrannu i'r asiantaeth fwyaf priodol. Mae'r broses o weithredu cam tri, pedwar a phump yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.
- Rhoddwyd strwythur plismona gweithredol uwch diwygiedig ar waith ar 3 Mawrth 2025. Bwriad hyn oedd gwella atebolrwydd a gwella'r broses rheoli perfformiad wrth leihau tensiynau o ran adnoddau, drwy alluogi adnoddau i lifo'n esmwythach rhwng meysydd busnes yn seiliedig ar anghenion gweithredol lleol. Mae'r newid hwn hefyd yn datblygu uwch-arweinwyr ymhellach trwy fuddsoddi mewn caffael cymwysterau rheoli rhaglen/prosiect/newid. Mae hyn yn galluogi cymhwyso'r methodolegau

hyn i ddatrys heriau sefydliadol.

- Mae cyflwyno matrics dyrannu troseddau diwygiedig ar 7 Medi 2025 yn darparu eglurder a dull cyson o ddyrannu ymchwiliadau yn gymesur â setiau sgiliau arbenigol, gofynion o ran ymchwil ac ati. Mae hyn yn sicrhau bod *'y drosedd gywir yn nwylo'r ymchwilydd cywir sy'n meddu ar y sgiliau cywir'*. Mae hyn hefyd yn atal ymchwiliadau amhriodol rhag cael eu cynnal gan weithlu sy'n gynyddol ddibrofiad.
- Gweithredwyd patrwm rota newydd a mwy o oruchwylio yn yr Adran Ymchwilio i Droseddau ac unedau ymchwilio lleol ar 16 Tachwedd 2025. Bydd y newid hwn wedi cyflawni nifer o welliannau gweithredol, a rhai o ran lles a llesiant, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) diwrnodau gorffwys ychwanegol, hyd shifftiau ac amseroedd cychwyn cyson, cyfnodau trosglwyddo gwell ac alinio gwell o ran adnoddau a galw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau cydberthnasau gwaith agosach rhwng timau ymateb yr heddlu mewn iwnifform, yr Adran Ymchwilio i Droseddau ac unedau ymchwilio lleol. Mae hefyd yn mynd i'r afael â phryderon a'r adborth a godwyd gan y gweithlu ynghylch patrymau gwaith anghyson, mynediad at gefnogaeth goruchwylio, y ffaith bod y galw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael, a dibyniaeth fawr ar weithio goramser.
- Rhoddwyd model gweithredu a newid rota ar waith ar gyfer timau'r gyd-uned ymchwilio ac unedau rheoli troseddwyr ar 4 Ionawr 2026 a gyflwynodd bedair uned reoli sylfaenol newydd ar gyfer diogelu pobl fregus. Bydd y newid hwn yn gweld model gweithredu cyson yn cael ei gyflwyno i wella diogelwch pobl fregus ledled ardal Dyfed-Powys. Mae hefyd yn gwella'r ddarpariaeth weithredol drwy gyflenwi gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos a chyflwyno hollgymhwysedd, gan alluogi'r heddlu i fod yn hyblyg o ran adnoddau i ddiwallu ac alinio adnoddau i'r galw. Bydd hefyd yn golygu na fydd angen i oruchwylwyr tîm y gyd-uned ymchwilio/uned rheoli troseddwyr sy'n gweithio yn y maes hwn ategu Adran Ymchwilio i Droseddau'r 'prif swyddfa', a thrwy hynny, gynyddu goruchwyliaeth dros faterion yn ymwneud â diogelu pobl fregus. Mae'r patrwm rota newydd yn gwella lles a llesiant drwy gynyddu nifer y dyddiau gorffwys i swyddogion ac aelodau staff yr heddlu sy'n gweithio yn y maes hwn. Yn unol ag adolygiad yr Adran Ymchwilio i Droseddau a'r Uned Ymchwilio Leol, mae hefyd yn mynd i'r afael â phryderon ac adborth a godwyd gan y gweithlu ynghylch patrymau gwaith anghyson, mynediad at gefnogaeth goruchwylio, y ffaith bod y galw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael, a dibyniaeth fawr ar weithio goramser.
- Bydd patrwm rota newydd ar gyfer y timau plismona â blaenoriaeth a'r tasglu troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cael ei weithredu ar 4 Ionawr 2026. Bydd y newid hwn yn darparu patrwm rota cyson ar gyfer y tîm plismona achosion difrifol ar draws pob uned reoli sylfaenol, gan gwella gwydnwch y timau i gefnogi ymchwiliadau adweithiol Uned Reoli Sylfaenol/Uned Ymchwilio Leol/Adran Ymchwilio i Droseddau yn well. Bydd hyn yn gwella lles a llesiant drwy leihau'r ddibyniaeth fawr ar oramser o

fewn y timau.

- Trwy gyflwyno tîm Adeiladu Ffeiliau Canolog eir ati i wella ansawdd ffeiliau achos wrth wella capasiti timau rheng flaen. Bydd hyn yn gwella capasiti o fewn timau ymateb yr heddlu mewn iwnifform ac unedau ymchwilio lleol drwy gael gwared ar adeiladu ffeiliau ar gyfer rhai mathau o droseddau. Bydd hyn yn cwtogi'r amserlenni ar gyfer cyflwyno ffeiliau, yn lleihau'r diwylliant 'anfon yn ôl', ac yn arwain at wasanaeth gwell i ddioddefwyr, tystion ac unigolion dan amheuaeth.

2.16 <u>Ffrydiau gwaith yn y cam gweithredu:</u>

- Mae adolygiad o'r dull sefydliadol o reoli adnoddau a chylch gwaith yr Uned Rheoli Adnoddau yn ceisio gwella'r broses o gynllunio'r rota, y broses a'r dyraniad o wyliau blynyddol, a'r broses o reoli adnoddau o ddydd i ddydd. Bydd y ffrwd waith hon yn dechrau gweithredu ar 1 Chwefror 2026 a bydd yn galluogi'r Uned Rheoli Adnoddau i reoli'r holl adnoddau gweithredol yn ganolog (e.e. gwyliau blynyddol byr rybudd a gwyliau blynyddol wedi'u cynllunio ymlaen llaw, gwaith cynllunio rota, ac ati). Ymhlith y buddion a fwriadwyd yw prosesau gwneud penderfyniadau tecach a mwy cyson mewn perthynas â rheoli amser o'r gwaith, cynnal lefelau adnoddau dymunol a lleihau'r ddibyniaeth ar oramser.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ryddhau 50 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn o swyddogaethau cefn swyddfa i dimau plismona ac atal bro a thimau ymateb yr heddlu mewn iwnifform trwy recriwtio 50 aelod o staff yr heddlu cyfwerth ag amser llawn (ôl-lenwi) a ariennir gan Warant Plismona Bro Llywodraeth y DU, a chynnydd ym mhraesept y Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol. Bydd hyn yn cynyddu nifer y swyddogion heddlu mewn timau rheng flaen, ac yn ailddyrannu'r gwaith o ymchwilio i droseddau dwyn ar ffurf siop-ladrad o dimau ymateb yr heddlu mewn iwnifform i dimau plismona ac atal bro, gan ryddhau capasiti. Mae hyn hefyd yn darparu llwybrau datblygu a gyrfa newydd i staff yr heddlu i swyddogaethau gweithredol traddodiadol.
- Bydd dull diwygiedig o gofnodi troseddau i wella amseroldeb safon genedlaethol cofnodi troseddau (NCRS) a chywirdeb data trosedd (CDI) yn ceisio cofnodi troseddau yn y pwynt cyswllt agosaf at y digwyddiad. Mae'n debyg y bydd hyn yn cynyddu capasiti swyddogion rheng flaen drwy ddarparu tîm o arbenigwyr pwnc i gyflawni'r swyddogaeth cofnodi troseddau. Mae'n dod yn fwyfwy tebygol y bydd angen cynnydd sylweddol mewn adnoddau ar gyfer y ffrwd waith hon er mwyn cyflawni ei hamcanion. O ganlyniad, mae'r ffrwd waith hon wedi'i gohirio dros dro nes ceir gwell dealltwriaeth o'r setliad ariannol.
- Mae ffrwd waith newydd ar fin dechrau i gydlynu data pobl sy'n bodoli eisoes yn well, sydd ar gael o fewn systemau lluosog, ac i'w gyflwyno o fewn dangosfwrdd i ddarparu mewnwelediadau strategol, tactegol a gweithredol i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn, drwy ddirprwy, yn gwella mentrau cynllunio'r gweithlu i gefnogi'r gwaith

o gynnal gallu gweithredol.


2.17 <u>Ffrydiau Ffrydiau gwaith a gwblhawyd sy’n ddarostyngedig i werthusiad:</u>

- Y newid cyntaf a weithredwyd yn ystod rhaglen Adolygiad yr Heddlu blwyddyn 2 oedd adlinio swyddogion plismona'r ffyrdd i dimau ymateb yr heddlu mewn iwnifform ar 2 Mehefin 2024. Gweithredwyd hyn er mwyn sicrhau cynnydd o 24% yn adnoddau tîm ymateb yr heddlu mewn iwnifform. Cynigiodd adolygiad ôl-weithredu ansoddol a meintiol dros 12 mis sawl newid i'w cyflawni mewn dau gam. Yng ngham 1, adliniwyd swyddogion plismona’r ffyrdd o dimau ymateb yr heddlu mewn iwnifform yn ôl i strwythur lywodraethu'r adran weithrediadau arbenigol erbyn canol mis Tachwedd 2025. Bydd cam 2 yn ystyried newidiadau eraill, gan gynnwys patrymau rota, lleoliadau canolfannau gweithredol, ac ati.

## 3 Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannu a Phraesept yr Heddlu

3.1 Mae’r heriau ariannol sy’n effeithio ar yr heddlu wedi’u dogfennu’n dda, ac mae’r graff a ganlyn yn nodi cyd-destun cyllid grant ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 (CSR2010):

**Ffigur 3: Gostyngiadau yn y Grant Canolog**





3.2 Cyflwynodd y gostyngiadau mewn termau real yn y grant heriau mawr, gyda chynnydd o ran chwyddiant yn gorfod cael ei wrthbwyso gan gynlluniau effeithlonrwydd/arbedion cynhwysfawr a gostyngiadau mewn

perthynas â'r tirwedd o newid a chymhlethdod cynyddol y galw am wasanaethau plismona. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y cynnydd yng nghyllid yr heddlu dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod i gefnogi rhaglen gynnydd yr heddlu sydd wedi dod â disgwyliadau, targedau a gofynion clir iawn ar gyfer recriwtio swyddogion heddlu.

3.3 Yn hanesyddol, cyllid llywodraeth ganolog a ddarparodd y mwyafrif helaeth o gyllid Heddlu Dyfed-Powys, ond mae’r gyfran a dderbyniwyd o grantiau craidd wedi gostwng yn sylweddol dros amser. Mae canran y cyllid sy’n cael ei dalu drwy drethi lleol wedi codi’n sylweddol dros amser. Mae'r rhaniad cyfrannol neu'r trywydd ‘gerio’ yn debygol o barhau i gynyddu, wrth i’r trethdalwr lleol ysgwyddo mwy o faich ariannu’r heddlu. Mae hefyd yn bwysig nodi eto fod y cynnydd mewn grantiau craidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod i gefnogi rhaglen gynnydd yr heddlu, y Warant Plismona Bro a chynnydd mewn pensiynau/Yswiriant Gwladol, ac nid ydynt wedi bodloni’r amrywiaeth o feichiau chwyddiant a chostau eraill.


3.4 Mae cyfran y cyllid a godir drwy'r dreth gyngor yn amrywio'n sylweddol rhwng heddluoedd yn genedlaethol. Ar gyfer 2025/26, roedd praesept y dreth gyngor yn Northumbria yn cyfrif am 19.4% o gyfanswm eu cyllid, ac yna Gorllewin Canolbarth Lloegr ar 20.5% a Glannau Mersi ar 22.8%.Ar y llaw arall, mae 54% o gyllid Surrey yn dod o braesept y dreth gyngor. Yng Nghymru mae Dyfed-Powys ar 56.3%, ac mae Gogledd Cymru ar 54%. Yn genedlaethol, mae 34.5% o gyllidebau plismona yn cael eu hariannu gan braesept y dreth gyngor leol. Mae heddluoedd Lloegr hefyd yn elwa ar rewi'r dreth gyngor/grantiau cynhaliaeth sy'n amlwg yn effeithio ar lefelau praesept hanesyddol, sy'n golygu'n gyffredinol bod eu praeseptau yn is, gan wneud cymariaethau uniongyrchol yn anodd.

**Ffigur 4: Lefelau treth gyngor Cymru ym Mand D (£)**




| Council Tax at Band D (£) | 2024/25 | 2025/26 | % |
|---|---|---|---|
| Dyfed Powys Police | 332.03 | 360.68 | 8.6% |
| Gwent Police | 349.52 | 377.31 | 8.0% |
| North Wales Police | 349.65 | 372.15 | 6.4% |
| South Wales Police | 352.67 | 378.67 | 7.4% |
| **Wales** | **347.55** | **373.55** | **7.5%** |

**Ffigur 5: Cynnydd yn y dreth gyngor ym Mand D (%)**




3.5 Mae gan drigolion yn ardal Dyfed-Powys y praesept heddlu Band D isaf yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at sefyllfa cymharol yr heddluoedd mwyaf tebyg, a'r heddluoedd eraill, yng Nghymru. Dylid nodi bod heddluoedd Lloegr hefyd yn cael grant rhewi'r dreth gyngor/grant cymorth nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr isod:

### Ffigur 6: % Cynnydd Cenedlaethol Praesept Band D




*Coch – lluoedd Cymru; *Melyn – y lluoedd mwyaf tebyg

3.6 Ers sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn 2012/13, mae'r dreth gyngor ym Mand D yn ardal Dyfed-Powys wedi cynyddu 82%, sydd tua'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr. Dangosir rhagor o fanylion am y cynnydd blynyddol yng Nghymru yn y tabl isod:

### Tabl 3: Lefelau praesept yng Nghymru ers 2014

| Year | Dyfed-Powys Band D | % Increase | Dyfed Powys | Gwent | North Wales | South Wales | Average | Dyfed Powys | Gwent | North Wales | South Wales | Average |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Precept £ | | Band D £ | | | | | % Increase | | | | |
| 2014/5 | | | £ 210.60 | £ 204.16 | £ 227.61 | £ 190.34 | £ 208.18 | | | | | |
| 2015/16 | £ 200.07 | -5% | £ 200.07 | £ 211.62 | £ 235.44 | £ 199.86 | £ 211.75 | -5.0% | 3.7% | 3.4% | 5.0% | 1.8% |
| 2016/17 | £ 200.07 | 0% | £ 200.07 | £ 220.06 | £ 240.12 | £ 207.85 | £ 217.03 | 0.0% | 4.0% | 2.0% | 4.0% | 2.5% |
| 2017/18 | £ 213.87 | 6.9% | £ 213.87 | £ 228.24 | £ 249.21 | £ 218.24 | £ 227.39 | 6.9% | 3.7% | 3.8% | 5.0% | 4.8% |
| 2018/19 | £ 224.56 | 5.0% | £ 224.56 | £ 238.84 | £ 258.12 | £ 233.52 | £ 238.76 | 5.0% | 4.6% | 3.6% | 7.0% | 5.1% |
| 2019/20 | £ 248.56 | 10.7% | £ 248.56 | £ 255.53 | £ 278.10 | £ 257.52 | £ 259.93 | 10.7% | 7.0% | 7.7% | 10.3% | 8.9% |
| 2020/21 | £ 260.56 | 4.8% | £ 260.56 | £ 272.96 | £ 290.61 | £ 272.72 | £ 274.21 | 4.8% | 6.8% | 4.5% | 5.9% | 5.5% |
| 2021/22 | £ 275.56 | 5.8% | £ 275.56 | £ 287.96 | £ 302.61 | £ 287.72 | £ 288.46 | 5.8% | 5.5% | 4.1% | 5.5% | 5.2% |
| 2022/23 | £ 290.16 | 5.3% | £ 290.16 | £ 303.80 | £ 316.80 | £ 302.11 | £ 303.22 | 5.3% | 5.5% | 4.7% | 5.0% | 5.1% |
| 2023/24 | £ 312.65 | 7.8% | £ 312.65 | £ 324.52 | £ 333.09 | £ 324.47 | £ 323.68 | 7.8% | 6.8% | 5.1% | 7.4% | 6.8% |
| 2024/25 | £ 332.03 | 6.2% | £ 332.03 | £ 349.52 | £ 349.65 | £ 352.67 | £ 345.97 | 6.2% | 7.7% | 5.0% | 8.7% | 6.9% |
| 2025/26 | £ 360.68 | 8.6% | £ 360.68 | £ 377.31 | £ 372.15 | £ 378.67 | £ 372.20 | 8.6% | 8.0% | 6.4% | 7.4% | 7.6% |

## 4 Sylfaen y dreth gyngor

4.1 Mae praesept yr heddlu, a godir drwy drethdalwyr lleol y dreth gyngor, yn cael ei ddyrannu i'r cynghorau bilio, yn seiliedig ar y sylfaeni treth

perthnasol a hysbyswyd ganddynt. Cyfrifir y sylfaen drethu ar sail nifer yr eiddo ym mhob ardal a ddyrennir i bob band eiddo gyda ffactorau ar gyfer deiliadaeth sengl, cartrefi gwag, premiymau ail gartrefi a thybiaethau ar gyfraddau casglu yng nghyd-destun ffactorau economaidd a datblygu. Mynegir y sylfaen drethu fel swm cyfatebol "Band D" fel a ganlyn:

**Tabl 4: Lefelau Sylfaen Drethu**

| Authority Area | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/7 | 26/7 |
|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 64,256.51 | 64,536.48 | 64,771.66 | 65,692.50 | 1.43% |
| Carmarthenshire | 75,071.95 | 76,460.40 | 77,243.48 | 77,238.01 | -0.01% |
| Ceredigion | 32,767.99 | 33,768.51 | 34,421.81 | 34,492.54 | 0.21% |
| Pembrokeshire | 59,851.19 | 64,261.61 | 63,013.04 | 62,581.12 | -0.67% |
| | **231,947.64** | **239,027.00** | **239,449.99** | **240,004.17** | **0.23%** |
| | 0.80% | 3.05% | 0.18% | 0.23% | |

4.2 Mae praesept yr heddlu yn cael ei ychwanegu at y symiau a gesglir gan awdurdodau unedol, ac mae'n rhan o filiau cyffredinol y dreth gyngor.

4.3 O dan y rheoliadau, rhaid i'r awdurdod bilio bennu rhestr o randaliadau ar gyfer taliadau i awdurdodau praeseptio. Y cytundeb yw y bydd yr awdurdodau unedol yn talu'r heddlu mewn 12 rhandaliad ar, neu cyn, diwrnod gwaith olaf pob mis.

4.4 Dylid nodi hefyd, wrth gyhoeddi setliad yr heddlu, bod Llywodraeth y DU yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch y newidiadau i'r sylfaen drethu, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar gyfer Cymru, rhagdybiwyd cynnydd o 0.4%.

4.5 Mae'r cynnydd gwirioneddol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2026/27 yn is, sef 0.2% y flwyddyn nesaf. Dyma'r ail flwyddyn i'r sylfaen dreth wirioneddol fod yn is na'r lefelau rhagdybiedig. Y prif reswm dros y gostyngiad yw penderfyniadau i leihau'r premiwm ar ail gartrefi. Dylid nodi bod newidiadau ym mhroffil ail gartrefi, eiddo gwag a chyfraddau casglu yn parhau i achosi ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol.

## 5 Tirwedd Economaidd a Datganiad yr Hydref 2025

5.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r dirwedd economaidd, ac mae'n seiliedig ar adroddiad ar Ddatganiad yr Hydref 2025 y canghellor.

5.2 Mae penderfyniadau'r llywodraeth yng nghyllideb yr hydref 2025 yn ceisio codi digon o incwm er mwyn sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn parhau ar sail gadarn, gan osgoi ychwanegu unrhyw bwysau chwyddiant newydd hefyd.

5.3 Cyfrifodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y byddai'r tynhau net mewn polisi cyllidol yn £11.7 biliwn (0.3% o gynnyrch domestig gros) erbyn 2029/30, sy'n llai na'r rhagolwg consensws o £25 biliwn. Fe wnaeth ostwng twf cynhyrchiant 0.3%, o 1.3% i 1.0%, ond cafodd llawer o'r dylanwad hwnnw ei wrthbwyso gan uwchraddiadau i'r rhagolygon tymor byr ar gyfer cyflogau a chwyddiant. Yn unol â hynny, barnodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y byddai'r canghellor yn cyflawni ei hamcanion, gyda £4.2 biliwn yn sbâr. Yna dewisodd y canghellor ehangu'r hyblygrwydd cyllidebol hwnnw i £21.7 biliwn, i fyny o £9.9 biliwn yn flaenorol.

5.4 Dewisodd y canghellor hefyd gynyddu gwariant net o £11.3 biliwn erbyn 2029/30. I dalu am hynny a'r cynnydd o ran hyblygrwydd cyllidebol, fe gododd drethi £26.1 biliwn yn 2029/30. Y ffactorau a gododd y mwyaf o refeniw oedd rhewi trothwyon y dreth incwm o 2028/29 (+£7.8 biliwn) a'r cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfraniadau aberthu cyflog ar y pensiwn (+£4.8 biliwn). Bydd y cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo gwerth mwy na £2.0 miliwn yn cynhyrchu £0.4 biliwn.

5.5 Mae rhai o'r codiadau treth hynny'n dechrau o 2027/28, ond ni fydd effaith y mwyaf o'r codiadau treth yn cael ei theimlo tan 2029/30 a 2030/31 (h.y. yn bennaf ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf a drefnwyd ar gyfer canol 2029).

5.6 Gan edrych ar rai o'r manylion, cododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei ragolygon twf cynnyrch domestig gros real ar gyfer 2025 o 1.0% i 1.5%. Fodd bynnag, mae barn fwy pesimistaidd Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar dwf cynhyrchiant yn golygu ei fod bellach yn disgwyl i dwf cynnyrch domestig gros real gyfartalog fod yn 1.5% o 2027 ymlaen yn hytrach na 1.7–1.8% ym mis Mawrth.

5.7 Cafodd rhywfaint o'r gostyngiad o dwf cynnyrch domestig gros real gwannach ar dwf cynnyrch domestig gros enwol ei wrthbwyso gan gynyddu diwygiad yn y ragolygon chwyddiant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sydd fel arfer yn rhoi hwb i refeniw trethi. Arweiniodd twf cyflogau mwy parhaus nag a ddisgwyliwyd yn flaenorol, ochr yn ochr â chwyddiant prisiau bwyd uwch, at benderfyniad gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i adolygu ei rhagolwg chwyddiant o ran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i 3.5% yn 2025 ac i 2.5% yn 2026, 0.2% a 0.4% yn y drefn honno yn uwch nag yn ei ragolwg ym mis Mawrth.

5.8 Mae lluosyddion cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn awgrymu y bydd unrhyw faich ar yr economi o ganlyniad i'r polisïau newydd yn fach ac na fydd yn gwrthbwyso cynnydd yng ngwariant y llywodraeth tan 2028, pan ddaw mesur i rewi'r trothwy treth incwm i rym. Mewn gwirionedd, mae'r lluosyddion yn awgrymu y gallai'r polisïau newydd (wedi'u gyrru yn eu blaen gan y cynnydd yng ngwariant y llywodraeth) ychwanegu 0.1%

at dwf cynnyrch domestig gros yn 2026.

5.9 Ers y gyllideb, mae ein cynghorwyr rheoli trysorlys, marchnadoedd corfforaethol MUFG, wedi diweddaru eu rhagamcan ar gyfer cyfraddau llog. Cynhaliwyd eu diweddariad blaenorol ar 11 Awst. Ers hynny, mae cyfuniad o dwf cymharol fach (cynnydd o 0.2% o gynnyrch domestig gros ar gyfer chwarter 2 a'i gymharu â chynnydd o 0.1% o gynnyrch domestig gros ar gyfer y trydydd chwarter), chwyddiant sy'n gostwng (ar hyn o bryd mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 3.2%), a chyllideb mis Tachwedd a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar incwm y mwyafrif o aelwydydd, wedi rhoi cyfle i Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr ostwng y gyfradd banc ymhellach o 4% i 3.75% ar 18 Rhagfyr 2025.

5.10 Yn syndod, ni wnaeth y cwymp serth diweddar mewn chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr mewn un mis o 3.6% i 3.2% berswadio'r mwyafrif o'r rheini a oedd yn anghytuno â'r bleidlais ym mis Tachwedd (Lombardelli, Greene, Mann a Pill) i newid i ochr y pwyllgor sy'n torri'r gyfradd. Yn lle hynny, gadawyd i Lywodraethwr y Banc, Andrew Bailey, ddefnyddio ei bleidlais benderfynu i orfodi toriad i'r gyfradd mewn pleidlais agos iawn, 5-4.

5.11 O ystyried y mwyafrif prin iawn o blaid toriad i'r gyfradd, nid oedd yn annisgwyl clywed, er y byddai cyfraddau'n parhau ar "duedd raddol i lawr", gan awgrymu toriad neu doriadau cyfradd pellach ar y gweill, fod aelodau'r Pwyllgor Polisi Ariannol am asesu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar weithgarwch y farchnad lafur a thwf cyflogau. Yn wir, o ystyried bod twf cyflogau blynyddol yn parhau i fod dros 4.5%, fe ailadroddodd y Pwyllgor Polisi Ariannol y byddai'r achos dros doriadau cyfradd pellach yn llai sicr, a nododd y llywodraethwr Bailey fod "lle cyfyngedig wrth i gyfradd y banc agosáu at lefel niwtral".

5.12 Yn unol â hynny, mae rhagolwg marchnadoedd corfforaethol MUFG wedi'i ddiwygio i brisio toriad cyfradd yn ail chwarter 2026 i 3.5%, sy'n debygol o ddigwydd yn sgil cwymp sylweddol yn narlleniad chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 3% ym mis Mawrth i 2% ym mis Ebrill (fel y rhagwelwyd gan Capital Economics), ac yna cyfnod tawel byr drwy gydol yr haf tra bod rhagor o ddata yn cael eu casglu, ac yna toriad cyfradd pellach i 3.25% yn y pedwerydd chwarter.

5.13 Fodd bynnag, mae nifer o fygythiadau i'r senario ganolog honno. Beth os bydd cynnydd mewn cyflogau yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel? Mae prinder staff yn parhau i fod yn broblem mewn sawl sector o'r economi ddomestig, gan gynnwys y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol a'r diwydiannau adeiladu. Ar ben hynny, erbyn mis Mai 2026, yn dilyn yr etholiadau lleol, os yw perfformiad y llywodraeth yn siomedig efallai y bydd pwysau cynyddol ar dîm Starmer/Reeves o fewn eu plaid eu hunain. Os felly, sut fydd marchnadoedd gilt yn ymateb i'r newidynnau hyn, ac a

fydd ffactorau geo-wleidyddol ychwanegol i'w hystyried hefyd? yn enwedig o'r Unol Daleithiau ynghylch penderfyniadau ar bolisïau ariannol y Gronfa Ffederal yn 2026 a'r frwydr barhaus i ostwng cyfraddau tra bod chwyddiant yn parhau'n agos at 3%.

5.14 Yn unol â hynny, mae marchnadoedd corfforaethol MUFG wedi diweddaru ei ragolwg canolog, gan gynnwys sawl rhybudd. Maent yn siŵr bod eu rhagolwg ar gyfer cyfradd y banc a chyfradd sicrwydd bum mlynedd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn gadarn, ac maent wedi dwyn amseriad y toriad(au) cyfradd nesaf yn ei flaen ychydig. Fodd bynnag, ar gyfer rhan 10, 25 a 50 mlynedd y gromlin, bydd lefel y cyhoeddiad gilt ac amseriad ei osodiad yn hanfodol i gyflawni amgylchedd masnachu ffafriol. Nid yw hynny wedi'i warantu, ac yn ogystal â hynny mae'n debygol y bydd rhagolygon chwyddiant, a ffactorau gwleidyddol, ar y lefel ddomestig ac, yn hollbwysig, yn yr Unol Daleithiau, hefyd yn ddylanwadol. Dylai pethau fod yn gliriach erbyn mis Mehefin yn y DU, ond mae etholiadau canol tymor yr Unol Daleithiau wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Tachwedd 2026.

5.15 Mae rhagolygon cyfradd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) diwygiedig ein cynghorydd isod yn seiliedig ar y gyfradd sicrwydd (y gyfradd safonol namyn 20 bps) sydd wedi bod ar gael i'r mwyafrif o'r awdurdodau ers 1 Tachwedd 2012.

| MUFG Corporate Markets Interest Rate View 22.12.25 | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mar-26 | Jun-26 | Sep-26 | Dec-26 | Mar-27 | Jun-27 | Sep-27 | Dec-27 | Mar-28 | Jun-28 | Sep-28 | Dec-28 | Mar-29 |
| BANK RATE | 3.75 | 3.50 | 3.50 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 |
| 3 month ave earnings | 3.80 | 3.50 | 3.50 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 |
| 6 month ave earnings | 3.80 | 3.50 | 3.50 | 3.40 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.40 |
| 12 month ave earnings | 3.90 | 3.60 | 3.60 | 3.50 | 3.40 | 3.50 | 3.50 | 3.50 | 3.50 | 3.50 | 3.60 | 3.60 | 3.60 |
| 5 yr PWLB | 4.60 | 4.50 | 4.30 | 4.20 | 4.10 | 4.10 | 4.10 | 4.10 | 4.10 | 4.10 | 4.10 | 4.10 | 4.10 |
| 10 yr PWLB | 5.20 | 5.00 | 4.90 | 4.80 | 4.80 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.70 |
| 25 yr PWLB | 5.80 | 5.70 | 5.60 | 5.50 | 5.50 | 5.40 | 5.30 | 5.30 | 5.30 | 5.20 | 5.20 | 5.20 | 5.20 |
| 50 yr PWLB | 5.60 | 5.50 | 5.40 | 5.30 | 5.30 | 5.20 | 5.10 | 5.10 | 5.10 | 5.00 | 5.10 | 5.00 | 5.00 |

5.16 Mae rhagolygon arenillion y farchnad arian yn seiliedig ar enillion cyfartalog disgwyliedig gan awdurdodau lleol am dri i 12 mis.

## 6 Setliad Ariannu'r Heddlu 2026/27 a'r Cyd-destun Cenedlaethol

6.1 Cyhoeddwyd setliad terfynol 2026/27 ar 28 Ionawr 2026 mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Throseddu, Sarah Jones.

Mae'r penawdau fel a ganlyn:

- Cynyddodd cyllid cyffredinol o £1.3 biliwn yn 2025-26 i £21.0 biliwn yn 2026-27 (6.7% mewn arian parod, 4.4% mewn termau real) ond mae hyn yn cynnwys cyllid gwrthderfysgaeth.

- Mae cyllid ar gyfer yr heddlu wedi cynyddu £796 miliwn yn 2025-26 i £18.4 biliwn (sydd gyfystyr â 4.5% mewn termau ariannol a 2.3% mewn termau real).

- O’r cynnydd o £796 miliwn – daw £364 miliwn (46%) o’r cynnydd tybiedig o £15 yn y praesept ar gyfer eiddo Band D.

- Mae’r arian grant ychwanegol o £432 miliwn yn cynnwys £50 miliwn ar gyfer Blaenoriaethau Plismona Bro.

- Nawr dim ond un ‘grant gweithlu amodol’ yn 2026–27: y Ffensio Cylch Plismona Bro, sy’n disodli’r Grant Cynnal Swyddogion, sef cyfanswm o £363 miliwn yn 2026-27.

- Cymorth Ariannol Neilltuol ar gyfer Heddlu Swydd Lincoln a’r Heddlu Metropolitanaidd, gwerth £12 miliwn ac £20 miliwn yn ôl eu trefn yn 2026-27.

- Cynnydd sylweddol yn y Grant Cyfalaf – o £123.1 miliwn yn 2025-26 i £599.1 miliwn yn 2026-27

- Buddsoddiad o £119 miliwn ar gyfer diwygio’r heddlu yn 2026-27 i’w ddefnyddio ar gyfer galluoedd newydd, gan gynnwys y ganolfan genedlaethol ar gyfer deallusrwydd artiffisial.

## 7 Capio’r Dreth Gyngor/Refferendwm – Cymru yn erbyn Lloegr

7.1 Roedd ffigurau'r penawdau breision o ran y cynnydd yn setliad dros dro 2026/27 yn ymgorffori hyblygrwydd praesept y dreth gyngor o £15 yn Lloegr, heb yr angen i alw am refferendwm lleol. O dan ddatganoli, y trefniadau ar gyfer Cymru yw bod y pŵer i bennu lefelau capio ar y dreth gyngor yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

7.2 Mae dau fath o gapio: dynodiad ac enwebiad. Gall Llywodraeth Cymru ddynodi neu enwebu awdurdod ar gyfer capio ei braesept, os yw ei gofyniad cyllidebol yn ormodol yn eu barn hwy.

- Mae dynodiad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod leihau ei ofyniad cyllidebol ac ail-filio trethdalwyr y cyngor ar draul yr heddlu (trwy'r awdurdodau unedol).

- Mae enwebu i bob pwrpas yn rhoi rhybudd i awdurdod y bydd Llywodraeth Cymru yn pennu terfyn cyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r meini prawf (yr egwyddorion) ar gyfer capio ar gyfer pob awdurdod lleol a heddlu

yng Nghymru. Rhaid i'r egwyddorion gynnwys cymhariaeth rhwng y gofyniad cyllideb a gyfrifwyd â'r hyn a gyfrifwyd ar gyfer blwyddyn ariannol flaenorol. Mae Gweinidogion yn rhydd i gynnwys yn yr egwyddorion unrhyw faterion eraill y maent yn eu hystyried yn berthnasol.

7.3 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cynnal cyfathrebiadau effeithiol gyda Gweinidogion a Llywodraeth Cymru drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Mae parhau i gryfhau perthynas Uned Gyswllt yr Heddlu wedi rhoi cyfle gwerthfawr ac ychwanegol i dynnu sylw at y pwysau ariannol a'r gofynion gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yng Nghymru yn eu hwynebu.

7.4 Mater i Gomisiynwyr sy'n atebol yn lleol yw ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar braesept lleol, gan esbonio i'w hetholwyr sut y bydd buddsoddiad ychwanegol yn helpu i ddarparu gwell gwasanaeth heddlu.

7.5 Gan dybio bod pob CHTh yn cynyddu eu praesept gan yr uchafswm a ganiateir, sef £15, ynghyd â thybiaethau twf sylfaen treth o 0.9% ar gyfer Lloegr a 0.4% ar gyfer Cymru, byddai hyn yn darparu £364 miliwn ychwanegol o adnoddau ar gyfer plismona gan drethdalwyr cyngor.

7.6 Oherwydd gwahaniaethau hanesyddol yn y dreth gyngor, gall y gyfran y mae £15 yn ei chynrychioli amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd heddluoedd. Mae'r cynnydd o £15 yn golygu bod cynnydd canrannol Northumbria yn 8.6%, yna Gorllewin Canolbarth Lloegr ar 7.5% a Surrey a Norfolk ar 5.3% a 5.4% yn y drefn honno. I'r gwrthwyneb, mae £15 yn cynrychioli cynnydd o 4.5% ar gyfer Gwent, De Cymru, Dyfed-Powys a Gogledd Cymru. Mae effaith Grantiau Rhewi'r Dreth Gyngor/Grantiau Cymorth yn Lloegr yn amlwg wedi effeithio ar lefelau praesept hanesyddol, sy'n golygu'n gyffredinol bod eu praeseptau yn is, gan wneud unrhyw gymharu'n anodd.

7.7 Mae'r gwahaniaethau cynhenid hyn mewn grantiau craidd hanesyddol a phenderfyniadau praesept lleol, yn golygu ei bod yn anodd iawn llunio cymariaethau ystyrlon rhwng ardaloedd heddluoedd yng Nghymru ond hefyd yn Lloegr.

## 8 Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannol 2025/26

8.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r ystod o risgiau a chyfleoedd ariannol dros y tymor byr a chanolig, a gyflwynwyd i Banel yr Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2025:

**Ffigur 7: Mantolen risg a chyfle ariannol**

## Financial Risk and Opportunity Balance Sheet

### Risks

1. Settlement announced in CSR June 2025 below pay award, inflation & real living wage
2. Impact of sentencing review and continued protests etc. on workloads and capacity
3. Continued high inflation and long-term interest rates are extending financial risk
4. Significant unavoidable increase in costs being passed on by suppliers – pay awards real living wage / employer's NI / tariffs etc.
5. Cost of living impact on communities
6. Workforce planning – Officer Uplift targets and Neighborhood Policing Guarantee year 2 targets, options and funding unclear
7. Officer / PCSOs numbers linked to Grants / Police Staff structure already revised
8. High Officer / staff turnover - Grant / inexperience front line / response
9. Capacity in support functions to fill vacancies / change / training / vetting at pace.

### Opportunities

1. Baseline Budget within target in current year and resilient - additional pay award grant
2. Reserves and borrowing levels – better picture than predicted through slippage
3. Force Review arrangements in place - Year 2 and 3 in progress – productivity / FLP gains – now as BAU
4. Innovation and investment leading to service improvements and savings
5. Further technology opportunities to reduce workload / demand and a willing workforce / RPA /AI /Victim updates etc.
6. Chance to improve crime prevention and engagement with children / young people
7. Neighborhood Policing Guarantee – additional people to enhance front line
8. Force Management Statement commended by HMICFRS – Strategic Planning and Assurance Cycle
9. Sustainability and Premises Savings
10. Capital investment requirements well understood and modelled.

8.2 Mae llawer o'r risgiau a'r cyfleoedd hyn wedi dechrau dod i'r amlwg a manylir arnynt ymhellach yn yr adrannau canlynol, a bydd y canlyniadau ariannol yn cael eu trafod yn Adran 10 a'u cydgrynhoi fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27.

8.3 Mae sefyllfa ariannol canol blwyddyn 2025/26 ar ddiwedd mis Rhagfyr yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn seiliedig ar y monitro cyfredol, rhagwelir tanwariant arfaethedig o £1.6 miliwn. Mae'r prif amrywiadau oherwydd oedi yn y broses o recriwtio staff.

8.4 Unwaith eto, mae'r ffactorau sy'n gyfrifol am y tanwariant yn 2025/26 wedi'u hadlewyrchu'n llawn yng nghyllideb 2026/27 a amlinellir yn fanwl yn Adran 10, e.e. o ran tyb y byddai nifer uwch o swyddi gwag ar gyfer staff yr heddlu o 5% i 6.4%, a gostyngiadau mewn costau o ran costau cyfleustodau ystadau, ac ati.

## 9 Cynllun Gweithlu

9.1 Mae Cynllun Strategol y Gweithlu 2025–2029 yn nodi dull cynhwysfawr o sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys y gallu a'r capasiti i ymdopi â'r heriau presennol a'r heriau hysbys yn y dyfodol, gan sicrhau gweithlu sy'n

amrywiol, yn gynhwysol ac yn wydn.

9.2 Mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cynnydd yn nifer y swyddogion a staff, sydd wedyn yn cael ei chynnal am weddill y cyfnod.


| | Swyddogion yr heddlu<br><br>Cyfwerth ag amser llawn | Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu<br><br>Cyfwerth ag amser llawn | Staff yr heddlu Cyfwerth ag amser llawn | Cyfanswm Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|---|---|
| Swyddi a gyllidebwyd 2024/2025 | 1,292 | 144 | 836 | 2,272 |
| Swyddi a gyllidebwyd 2025/26 | 1,299 | 132 | 863 | 2,294 |
| Swyddi a gyllidebwyd 2026/27 | 1,311 | 132 | 925 | 2,379 |
| Swyddi a gyllidebwyd 2027/28 | 1,311 | 132 | 925 | 2,379 |
| Swyddi a gyllidebwyd 2028/29 | 1,311 | 132 | 925 | 2,379 |

9.3 Daw'r twf mewn swyddi staff yr heddlu yn 2026/27 o recriwtio a llenwi swyddi yn sgil penderfyniadau blaenorol a wnaed yn 2025/26. Roedd hyn yn cynnwys grant o £1.417 miliwn o'r Gwarant Plismona Bro, gan ganiatáu i 33 o swyddi staff ychwanegol gael eu recriwtio er mwyn rhyddhau 33 o swyddogion i dimau plismona bro, sydd ar y trywydd iawn i'w gyflawni'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Ariannwyd 17 aelod arall o staff i ryddhau swyddogion gan arbedion a/neu braesept a gytunwyd ar gyfer 2025/26, a rhagwelir y bydd y twf wedi'i gyflawni'n llawn erbyn haf 2026. Mae hyn yn ychwanegol at rolau newydd a grëwyd i wella atal, ymyrraeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

9.4 Y grant Sicrwydd Plismona Bro ar gyfer 2026/27 yw £2.6 miliwn, a fydd yn cynyddu adnoddau ymhellach o 11 swyddog. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun gweithlu. Bydd blaenoriaeth yr Heddlu ar gynyddu nifer y swyddogion, yn benodol ar gyfer bröydd. Bydd y newid o ran ffocws yn caniatáu ar gyfer cwblhau gweithgarwch recriwtio staff heddlu blaenorol

ac yn cydnabod cymhlethdodau parhau â'r ymagwedd hon.


9.5 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fydd targed cynnal nifer swyddogion yr heddlu (cyfrif pennau) a osodwyd gan y Swyddfa Gartref yn parhau i fod ar waith, ond mae'r targed cynnal niferoedd ar hyn o bryd yn parhau i fod yn 1,314. Mae'r niferoedd y sefydliad a ragwelir ar gyfer diwedd mis Mawrth 2026 wedi'u cynllunio i alluogi tynnu'r grant plismona bro i lawr yn llawn yn 2026/27, os bydd ar gael.




9.6 Ym mis Mawrth 2025, mabwysiadodd yr heddlu lwybr mynediad symlach (llwybr mynediad cwnstabl heddlu), sydd wedi'i achredu gan Brifysgol De Cymru i lefel diploma. Cynlluniwyd y llwybrau newydd i fynd i'r afael â rhywfaint o'r adborth gan swyddogion sy'n fyfyrwyr, a adlewyrchwyd hefyd yn y gyfradd adael, ynghylch yr anawsterau o ran cydbwyso gwaith academaidd â gyrfa newydd a heriau gweithredol.

9.7 Mae'r llwybr mynediad newydd hefyd yn golygu y bydd llai o swyddogion yn cael eu tynnu o ddyletswyddau rheng flaen, ynghyd â chostau is gyda'r darparwr academaidd, gan sicrhau gwell gwerth am arian. Cynhelir adolygiad o'r llwybr mynediad unwaith y bydd swyddogion wedi mynd trwy'r broses gyfan, er mwyn galluogi gwerthusiad llawn.

9.8 Mae cyfraddau gadael swyddogion yr heddlu wedi gostwng yn y flwyddyn flaenorol o 6.6% i 5.9%, sef y pumed gyfradd isaf yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.




9.9 Mae'r cynnydd yn nifer y staff heddlu yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer llwybrau gyrfa â datblygiad ochrol neu ddilyniant o fewn y gweithlu. Fodd bynnag, mae'r amser a gymerir i gyflogi, yn enwedig mewn perthynas â'r camau gwirio cyn cyflogi, yn achosi oedi wrth lenwi swyddi gwag, sy'n effeithio ar gapasiti a gallu'r adran gyflogi. Er y gall aelod o staff yr heddlu adael y sefydliad â mis o rybudd fel arfer, mae'n cymryd pum i chwe mis ar gyfartaledd i recriwtio i rolau, heb ystyried unrhyw ofynion hyfforddi. Mae cipolwg o ddata yn dangos bod y cyfnod wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

| **Nifer y dyddiau rhwng y dyddiad cychwyn ac:** | **1 Ionawr i 30 Medi 2024** | **1 Ionawr i 30 Medi 2025** | **Newid** |
|---|---|---|---|
| Amser i gyflogi (*gwneud cynnig amodol i dderbyn cynnig*) | 80.30 | 88.60 | +10.3% |
| Amser i gyflogi (*cais wedi dod i law i dderbyn cynnig*) | 115.94 | 134.30 | +15.8% |

9.10 Mae hwn yn faes â blaenoriaeth allweddol i gefnogi swyddogaethau galluogi (recriwtio, gwiriadau, ac iechyd galwedigaethol) i leihau'r amser a gymerir i gyflogi, er mwyn sicrhau bod y gallu a'r capasiti i gyflawni ar draws swyddogaethau'r heddlu.

9.11 Mae Adolygiad yr Heddlu wedi trawsnewid yn rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar fodel gweithredu'r heddlu, gan oruchwylio cynnydd sy'n ymwneud â'r Gwarant Plismona Bro. Bydd y penderfyniadau a wneir drwy drefniadau llywodraethu yn parhau i lunio cynllun y gweithlu. Er bod nifer o'r ffrydiau gwaith bellach yn cael eu hymgorffori, nid yw eraill wedi'u

cyflawni eto.

9.12 Ymhlith y darnau allweddol o waith sy’n rhan o’r rhaglen hon nad ydynt wedi’u cyflawni eto mae:

- Rhifau Gweithredu Dymunol – gan gynnwys gofynion o ran adnoddau o fewn timau ymateb, timau plismona ac atal bro, yr Adran Ymchwilio i Droseddau a Gweithrediadau Arbenigol. Cyflawnir hyn drwy drin modelau efelychu a ddarperir gan Process Evolution, a disgwylir y bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2026.
- Cofnodi troseddau – cyflwyno cofnodi troseddau yn y pwynt cyswllt ‘agosaf’ at y digwyddiad, a fydd o gymorth wrth fynd i’r afael â heriau’n ymwneud â safon genedlaethol cofnodi troseddau a chywirdeb data trosedd wrth wella gwasanaethau i ddioddefwyr. Bydd y dull ymchwilio ar gyfer y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r cynnydd mewn adnoddau o fewn y tîm plismona ac atal bro a'r capasiti i ddelio ag amrywiaeth o droseddau bro o fewn y tîm hwnnw.
- Optimeiddio Trent – cydlynu data pobl, prosesau a data perfformiad sy'n bodoli eisoes yn well o fewn System Adnoddau Dynol Trent, er mwyn gwella'r gallu i adrodd a chynorthwyo’r broses o gynllunio'r gweithlu. Bydd y gwaith hwn yn dechrau ym mis Ebrill 2026.
- Dull o reoli perfformiad a salwch a dyletswyddau cyfyngedig a dan gyfyngiadau – mae cwmpas y gwaith hwn yn cael ei bennu ar hyn o bryd.

9.13 Mae'r rhaglen waith hon wedi rhoi galw ychwanegol sylweddol ar bob tîm datblygu pobl a sefydliadol i gefnogi nifer o brosesau newid, recriwtio a gweithgarwch hyfforddi, yr ymgymerir â hwy ar ben busnes fel arfer.

9.14 Mae'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cydnabod bod gan ddeallusrwydd artiffisial y potensial i drawsnewid plismona, gan wella cyflymder a chywirdeb gweithgareddau plismona a galluogi swyddogion i ganolbwyntio mwy ar y rheng flaen. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth y bydd angen i blismona, a'r heddlu yn benodol, ddatblygu ei seilwaith digidol, ei sgiliau a'i brofiad yn y maes hwn er mwyn cyflawni buddion ystyrlon a pharhaol, yn ogystal ag ystyried materion diogelwch, moeseg a chyfreithiol ehangach er mwyn sicrhau bod ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth yn cael eu cynnal. Mae angen datblygu strategaeth mewn perthynas â defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, a deall sut y bydd hyn yn newid sgiliau a gofynion gweithlu'r heddlu – ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

9.15 Bydd y cynllun gweithlu strategol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru drwy lywodraethu perthnasol a bydd yn destun adolygiad blynyddol. Ni fydd unrhyw gyflwyniadau sy'n ymwneud â'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun nes bod yr holl brosesau

cyllidebol a setliadau ariannol wedi'u cwblhau ar gyfer 2026/27. Mae adran cynllunio'r gweithlu wedi'i hychwanegu fel gofyniad i gyflwyniadau cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn y dyfodol gan benaethiaid adrannau.

## 10 Proses y Gyllideb a Gofyniad Cyllideb 2026/27


10.1 Parhaodd y gwaith yn ystod 2025 i ymgorffori'r broses o osod y gyllideb ymhellach fel rhan allweddol a chynnyrch o'r broses gynllunio strategol a sicrwydd ehangach. Mae'r dull hwn wedi gweld Partneriaid Busnes Cyllid yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr gwasanaeth a deiliaid cyllidebau, i adolygu cyllidebau gwaelodlin yn llawn ac asesu pwysau galw a chost yn feirniadol, ac ar yr un pryd hefyd yn ceisio nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill yn eu meysydd busnes priodol.

10.2 Mae'r berthynas rhwng monitro ariannol yn ystod y flwyddyn a gosod y gyllideb wedi'i chryfhau bob blwyddyn. Nod y broses yw sianelu adnoddau tuag at gyflawni blaenoriaethau allweddol tra'n sicrhau cyswllt clir rhwng y gyllideb, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau a gofynion buddsoddi cyfalaf ac yn y gweithlu ategol.

10.3 Cafodd y broses o osod cyllideb 2026/27 ei hymgorffori o fewn y cylch sicrwydd a chynllunio strategol ehangach, sydd wedi datblygu ymhellach y cysylltiad pwysig rhwng y gwaith cynllunio strategol a gosod y gyllideb. Mae hyn yn ymgorffori’r gwaith o gynhyrchu datganiad rheoli'r heddlu, sef proses asesu flynyddol sy'n ystyried galluogrwydd ac adnoddau asedau'r heddlu (pobl, sgiliau, offer TGCh, adeiladau a fflyd, ac ati) yn erbyn y galw presennol a'r galw tebygol yn y dyfodol.

10.4 Mae'r broses hefyd wedi ystyried meysydd i’w gwella ac argymhellion archwilio HMICFRS, yn ogystal â bod yn gysylltiedig â threfniadau Rheoli Risg Strategol a Rheoli Prosiectau fel y dangosir yn y graffig canlynol. Mae hyn wedi sicrhau bod adnoddau, penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllideb a chynllun y gweithlu i gyd yn adlewyrchu gofynion y blaenoriaethau strategol o ran capasiti, risg a gofynion yn y dyfodol. Mae hyn hefyd wedi'i ategu ymhellach gan gynlluniau adrannol manwl sydd wedi'u llunio a'u diweddaru mewn fformat safonol.

**Ffigur 8: Lleoliad Monitro Ariannol a chyswllt â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig**




- New Planning and Assurance Cycle (PAC) Process
  - Force Management Statement - June 2025 (Positive Feedback)
  - HMICFRS / Audit Requirements / Projects and Funding Group / Strategic Presentations / Chief Officer Prioritisation
  - Workforce plan / Costed Training Plan / Departmental Plans
- Capital Programme Requirements
  - Strategic Estates Group / Operational Estates
  - IT Strategy Group
  - Fleet Strategy Group
- Chief Officer Prioritisations
- PCC / Chief Officer Meetings

10.5 Mae'r Bwrdd Cyllid Strategol a Bwrdd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, o fewn y strwythur llywodraethu ffurfiol, wedi parhau i oruchwylio'r broses o gyflawni ac amseroldeb y dull hwn, ac mae cynllunio ariannol hefyd yn bwyslais allweddol i'r Grŵp Ystadau Strategol/Grŵp Ystadau Gweithredol, y Grŵp Strategaeth TGCh a'r Grŵp Strategaeth Fflyd, yn enwedig mewn cysylltiad â blaenoriaethu gwaith mewn perthynas â chynlluniau a phrosiectau sy'n gysylltiedig â chyfalaf.

10.6 Mae'r defnyddio data meincnodi proffil Gwerth am Arian Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a HMICFRS yn parhau i ddatblygu, gan fod hyn yn ddefnyddiol i asesu galw a gwerth am arian. Mae'r tabl canlynol yn darparu rhywfaint o ddata meincnodi a chymharydd lefel uchel ar gyfer 2025/6 sy'n deillio o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am bobl. Mae'r data'n dangos yr effaith sylweddol y mae daearyddiaeth yr heddlu (a'r heddluoedd mwyaf tebyg) yn ei chael ar ofynion o ran staffio. Er enghraifft, o ran y ddalfa, ymchwiliadau (gan gynnwys diogelu pobl fregus) a swyddogaethau ymateb arfog o'i gymharu â gweddill Cymru.

10.7 Mae model gweithredu'r heddlu wedi bod yn destun newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn i'w weld yn Nhabl 5. Mae tua 75 yn llai o swyddi ar draws swyddogaethau ymateb, cymdogaethau, yr ystafell reoli a phlismona ffyrdd o'i gymharu â heddluoedd eraill Cymru ar

sail gymesur. Mae rhagor o swyddogion bellach yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â gweithgareddau troseddu a chyfiawnder. Mae'r broses o foderneiddio'r gweithlu, y Gwarant Plismona Bro, a gwaith pellach ar dechnoleg a'r model gweithredu a wneir o dan lywodraethiant Grŵp yr Uwch-noddwyr, yn ceisio sicrhau bod y cydbwysedd rhwng ymateb a throseddu yn parhau i fod yn briodol. Mae gwaith pellach wedi'i gomisiynu ar hyn a disgwylir iddo gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2026.

10.8 O'i gymharu â heddluoedd eraill nad ydynt yn heddluoedd Metropolitanaidd, mae gan yr heddlu 39 o swyddogion yn rhagor mewn swyddogaethau ymateb a chymdogaeth.

10.9 O safbwynt ymchwilio i droseddau, mae'r data'n dangos bod yr heddlu'n cyflogi tua'r un nifer o swyddogion cyfwerth ag amser llawn â heddluoedd eraill nad ydynt yn heddluoedd Metropolitanaidd yn Lloegr yn y categori "Ymchwiliadau a phobl fregus". Mae hyn yn sylweddol uwch nag mewn heddluoedd eraill yng Nghymru a'r mwyaf o'r heddluoedd tebyg. Credir bod hyn yn bennaf oherwydd polisïau categoreiddio a dyrannu troseddau rhwng timau ymateb ac ymchwilio, yn ogystal â bod mwy o Dimau Ymchwilio a Rheoli Troseddwyr cyffredinol, a llai o dimau arbenigol yn Heddlu Dyfed-Powys o'i gymharu â'r rhan fwyaf o heddluoedd tebyg.

10.10 Mae strwythurau ymchwilio eisoes wedi cael eu hadolygu fel rhan o adolygiad yr heddlu, sydd wedi dod i'r casgliad bod y lefel hon o adnoddau yn briodol o safbwynt galw ymchwiliadau o'i gymharu â'r gofyniad o ran adnoddau. Fodd bynnag, gyda gwaith pellach yn cael ei gomisiynu bellach o ran gofynion adnoddau ymateb fel y crybwyllwyd uchod, efallai y bydd angen mireinio'r model gweithredu ymhellach yn ystod 2026/27.

10.11 Mae gan wasanaethau galluogi fel TGCh lawer llai o aelodau staff wedi'u dyrannu fel cyfran o'r gweithlu cyffredinol yn Heddlu Dyfed-Powys nag mewn heddluoedd eraill. Mae'r gofyniad o ran adnoddau yn cael ei ailasesu fel rhan o'r broses o ddiweddaru strategaeth arloesi a thechnoleg yr heddlu a'r gofynion o ran cyflawni sydd wedi'u hymgorffori fel rhan o'r cynllun hwn.

10.12 Mae gwasanaethau cymorth eraill yn dangos bod nifer ychydig yn uwch o aelodau staff yn cael eu cyflogi ar draws swyddogaethau fel Ystadau, Adnoddau Dynol a Hyfforddiant, a Chyllid a Gweinyddiaeth yn Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae swyddogaethau'n cael eu hallanoli yn cael effaith sylweddol ar y rhain, yn enwedig o'i gymharu â'r mwyafrif o'r heddluoedd tebyg. Bydd gwaith meincnodi pellach yn cael ei wneud ar y meysydd hyn unwaith y bydd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn rhyddhau data meincnodi ariannol ar

gyllidebau 2025/26, sydd ar fin digwydd.

### Tabl 5: Meincnodi data'r gweithlu – Medi 2025

| | Dyfed Powys | | | | | Other Forces | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Category | Police Officers | PCSOs | Police Staff | Total | % | MSF | Wales | English Non Met |
| | FTE | FTE | FTE | FTE | | FTE | FTE | FTE |
| Response and Neighbourhoods | 602 | 130 | 34 | 767 | 34% | -8 | 34 | -39 |
| Force Control Room | 7 | - | 135 | 142 | 6% | 41 | 16 | 54 |
| Investigations and PVP | 428 | - | 167 | 595 | 27% | -58 | -64 | 2 |
| Criminal Justice and Custody | 54 | - | 123 | 176 | 8% | -7 | -20 | -34 |
| Armed Response Units | 48 | - | - | 48 | 2% | 12 | -16 | -11 |
| Roads Policing | 15 | - | 18 | 33 | 1% | 7 | 25 | 30 |
| Specialist Operational Support | 28 | - | 7 | 35 | 2% | 5 | 5 | 9 |
| National Policing | 38 | - | 9 | 47 | 2% | -5 | 19 | -5 |
| | | | | | | | | |
| **Enabling Services** | | | | | | | | |
| Estates | - | - | 20 | 20 | 1% | -10 | 1 | -3 |
| ICT | - | - | 37 | 37 | 2% | 40 | 27 | 7 |
| Fleet | - | - | 18 | 18 | 1% | -1 | -6 | -5 |
| HR and Training | 45 | 1 | 67 | 114 | 5% | -8 | -9 | 6 |
| Finance and Administration | 1 | - | 55 | 56 | 3% | -3 | -9 | 2 |
| Professional Standards | 11 | - | 21 | 31 | 1% | 1 | -7 | -1 |
| Support Services | 15 | - | 98 | 113 | 5% | -5 | 4 | -12 |
| | **1,291** | **131** | **809** | **2,232** | **100%** | **0** | **0** | **0** |

### Sefyllfa'r Gyllideb Ddigyfnewid

10.13 Fel y nodwyd yn y seminar cyllid ym mis Tachwedd 2025 gan y Cyfarwyddwr Cyllid, mae gan yr heddlu amrywiaeth o bwysau cost ar sail digyfnewid sy'n adlewyrchu ffactorau a materion cenedlaethol nad oes modd eu hosgoi. Mae'r rhain yn ychwanegu £8.4 miliwn, neu 5.4%, at y gofyniad cyllidebol cyffredinol yn 2026/27. Dangosir y rhain yn Nhabl 6 isod:

**Tabl 6: Gofyniad digyfnewid 2026/27**

| Categori / disgrifiad o'r costau | Gofyniad cyllidebol £miliwn | % o wariant refeniw net |
|---|---|---|
| **Cyllideb sylfaenol agoriadol 2025/6** | **156.3** | |
| Cywir ar gyfer codiad cyflog – Medi 2025 (2.8% i 4.2% am saith mis) | 1.2 | 0.8% |
| Effaith flwyddyn gyfan – codiad cyflog mis Medi 2025 (4.2% am bum mis) | 2.5 | 1.6% |
| Effaith godiad cyflog mis Medi 2026 rhan o'r flwyddyn (3.0%) (saith mis) | 2.5 | 1.6% |
| Effaith y cyflog byw gwirioneddol ar gyflogau gradd is | 0.1 | 0.1% |
| Chwyddiant cyffredinol/penodol (ar 3% ar gyfer penawdau amhenodol) | 1.0 | 0.6% |
| Cynyddrannau swyddogion a staff/gwyliau banc | 0.6 | 0.4% |
| Anghenion deddfwriaethol – buddsoddiad yn yr ystafell reoli | 0.1 | 0.1% |
| Pwysau costau digyfnewid anorfod (yswiriant/cyfraddau llog) | 0.4 | 0.3% |
| **Cyfanswm costau sy'n gysylltiedig â materion cenedlaethol anorfod** | **8.4** | **5.4%** |
| **Gofyniad cyllideb ddigyfnewid net ar gyfer 2026/27** | **164.7** | **5.4%** |

10.14 Y man cychwyn ar gyfer llunio'r gyllideb ar gyfer 2026/27 oedd cywiro'r rhagdybiaethau o ran chwyddiant cyflogau a wnaed yn ystod y broses gyllidebu ar gyfer 2025/26.

10.15 Yn unol â'r cyngor gan y Swyddfa Gartref yr hydref diwethaf, gosodwyd y gyllideb ar gyfer swyddogion a staff ar gynnydd tybiedig o 2.8% o fis Medi 2025. Fodd bynnag, y cynnydd cyflog gwirioneddol a ddyfarnwyd yn yr haf oedd 4.2%. Amcangyfrifir bod effaith rhan o'r flwyddyn y cywiriad hwn i'r gyllideb sylfaenol o 0.8% yn £1.2 miliwn ar sail rhan o'r flwyddyn (h.y. o fis Medi 2025 i fis Mawrth 2026). Mae angen ychwanegu £2.5 miliwn, neu 1.6% arall, at y gyllideb sylfaenol fel effaith lawn y dyfarniad o 4.2% ar gyfer y cyfnod o bum mis o fis Ebrill i fis Awst 2026.

10.16 Mae rhagdybiaethau ynghylch chwyddiant a dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn parhau i fod yn heriol wrth i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i gael eu diwygio. Mae adroddiad "Tystiolaeth Economaidd i'r Cyrff Adolygu Cyflogau, Cylch Cyflog 2026/27" a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2025 yn nodi bod y Swyddfa Cyfrifoldeb

Cyllidebol yn disgwyl i chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr gyrraedd uchafbwynt o 3.9% yn nhrydydd chwarter 2025, gan ragweld y bydd yn gostwng i 2.2% yn 2026/27. Yn yr un modd, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i dwf enillion wythnosol cyfartalog enwol ostwng i 3.2% yn 2026/27 ac aros rhwng 2.1% a 2.3% rhwng 2027/28 a 2030/31.

10.17 Yn seiliedig ar gynnydd tybiedig at ddibenion gosod cyllideb o 3.0% mewn cyflog i swyddogion a staff o fis Medi 2026, mae angen ychwanegu £2.5 miliwn, neu 1.6%, pellach i ddiwallu'r effaith am ran o'r flwyddyn ar sail digyfnewid.

10.18 Mae chwyddiant ar nwyddau, gwasanaethau a chontractau yn gysylltiedig, i raddau helaeth, â Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a ragwelir y bydd tua 3.0% ar gyfer y mwyaf o’r categorïau cost, gan ychwanegu £1 miliwn, neu 0.7% pellach, o ran y gyllideb. Mae'r dybiaeth hon yn ystyried twf uwch nag a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i adlewyrchu'r gyfradd chwyddiant uwch na'r disgwyl a brofwyd yn y flwyddyn ariannol 2025/26.

10.19 Mae cynnydd chwyddiannol o 15% wedi'i ymgorffori ar gyfer contractau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau fforensig oherwydd anawsterau hirdymor yn y sector hwnnw, ac yn gysylltiedig â chontract cenedlaethol newydd.

10.20 Mae costau systemau TGCh cenedlaethol yn debygol o gynyddu 5.9% y flwyddyn nesaf oherwydd cyflwyno Cronfa Ddata Gorfodi’r Gyfraith Genedlaethol a systemau eraill. Rhagwelir hefyd y bydd costau hyfforddi yn cynyddu 5.9% wrth i’r Coleg Plismona symud i drosglwyddo effaith gostyngiadau mewn grantiau canolog i'w drefniadau codi tâl. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd cyffredinol o £1 miliwn.

10.21 Mae swyddogion a staff yr heddlu yn gymwys i gael cynnydd blynyddol i’w cyflogau, ac mae angen cynnydd net o £0.6 miliwn ar gyfer 2026/27. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys costau plismona Gŵyl Banc ychwanegol yn 2026/27, o'i gymharu â 2025/26.

10.22 O ran gofynion deddfwriaethol a chostau anorfod, mae angen cynnydd o wyth sianel radio DCS ychwanegol er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio ag argymhellion cenedlaethol Ymchwiliad Arena Manceinion ac er mwyn sicrhau y gellir cyfleu gwybodaeth hanfodol i bartneriaid hanfodol allweddol yn ystod digwyddiad mawr. Y gost gysylltiedig fydd £0.1 miliwn y flwyddyn.

10.23 Mae'r heddlu hefyd yn wynebu cynnydd mewn premiymau yswiriant oherwydd marchnad sy'n caledu fwyfwy, yn enwedig mewn perthynas ag yswiriant cerbydau ar draws y sector. Yn ogystal, rhagwelir colled mewn

incwm derbynion llog yn gyffredinol oherwydd rhagwelir y bydd cyfraddau llog a chronfeydd arian wrth gefn yn gostwng sy'n gysylltiedig â phroffil gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau cyfalaf mawr. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir y bydd y rhain yn ychwanegu tua £0.4 miliwn, neu 0.3%, at y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2026/27.

10.24 O ran grantiau penodol, mae'r grant plismona bro wedi disodli'r grant cynnal swyddogion. Mae'n debyg na fydd gofyniad mwyach i gynnal targedau cynnydd ar cyfer cyfanswm nifer swyddogion yr heddlu. Fodd bynnag, bydd ffocws ar adnoddau plismona cymdogaeth.

10.25 O ran grantiau penodol, ni ragdybiwyd unrhyw newidiadau pellach heblaw am gynnydd o 2% a nodwyd yn wreiddiol mewn perthynas â grant swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfateb i gyllido tua 51 o swyddogion cymorth cefnogi cymunedol yr heddlu ar gyfer 2026/27. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu ariannu 81 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ychwanegol, er mwyn cynnal cyfanswm o 132 o aelodau staff sefydlog fel sy'n ofynnol i gynnal ymrwymiadau'r Gwarant Plismona Bro.

10.26 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrywiaeth o grantiau penodol fel y'u haddaswyd ar gyfer cynnydd a gostyngiadau a hysbyswyd, er na fydd llawer ar gael nes bod y papur gwyn ar ddiwygio'r heddlu yn cael ei gyhoeddi.

**Tabl 7: Grantiau Penodol**

| | 2025/26 | 2026/27 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £miliwn | £miliwn | £miliwn |
| **Grantiau Llywodraeth Cymru** | | | |
| SCCH Llywodraeth Cymru | -2.361 | -2.408 | 0.047 |
| Grant Menter Cyllid Preifat Llywodraeth Cymru | -0.245 | -0.221 | -0.024 |
| Cyswllt ysgolion Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **-2.606** | **-2.629** | **-0.023** |
| **Grantiau'r Swyddfa Gartref** | | | |
| Grant Uplift | -3.006 | 0 | -3.006 |
| Yr Adran Arbennig | -0.735 | -0.727 | -0.008 |
| Grant Datgelu | -0.321 | -0.615 | 0.294 |
| Amddiffyn y Teulu Brenhinol | 0 | 0 | 0 |
| Grant pensiynau | -3.731 | -3.731 | 0 |
| Grant Ariannu Cyfalaf | -0.164 | -0.164 | 0 |
| **Cyfanswm** | **-7.957** | **-5.237** | **-2.72** |
| **Grantiau Eraill** | | | |
| CHTh – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | -1.386 | -1.386 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grantiau eraill/Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona | -0.617 | -0.465 | -0.152 |
| NCTPHQ – Gwrthderfysgaeth | -3.189 | -3.069 | -0.120 |
| **Cyfanswm** | **-5.192** | **-4.92** | **-0.272** |
| | | | |
| **Cyfanswm cyn grantiau newydd** | **-15.755** | **-12.786** | **-0.969** |
| | | | |
| **Grantiau newydd ar gyfer 2025/26** | | | |
| Grant Yswiriant Gwladol | -2.13 | -2.18 | 0.50 |
| Gwarant Plismona Bro | -1.417 | -2.591 | 1.174 |
| **Cyfanswm y Grantiau Newydd 2025/26** | **-3.547** | **-4.771** | **1.674** |
| **Cyfanswm/newid – Pob grant** | **-19.302** | **-17.557** | **-1.745-** |

**Pwysau cost lleol**

10.27 Ar ôl diweddaru'r gofyniad cyllideb sylfaenol ar sail digyfnewid, mae rhai pwysau twf critigol eraill sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl/gofynion Datganiad Rheoli'r heddlu sydd wedi'u hymgorffori yn y gofyniad cyllidebol. Mae'r costau hyn yn anochel o ran y gyllideb ond maent yn deillio o benderfyniadau lleol yn hytrach na rhai cenedlaethol.

10.28 Manylir ar y rhain yn y tabl canlynol ac fe'u disgrifir ymhellach isod:

**Tabl 8: Pwysau cost lleol a chynllun lleihau costau**

| Categori / disgrifiad o'r costau | Gofyniad cyllidebol £miliwn | % o wariant refeniw net |
|---|---|---|
| **Cyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2026/27 wedi'i chario ymlaen** | **164.7** | **5.4%** |
| Darpariaeth isafswm refeniw/costau cyfalaf ac ystadau | 0.2 | 0.1% |
| Effaith blwyddyn gyfan Gwarant Plismona Cenedlaethol/twf 2025/26 | 0.4 | 0.3% |
| Tynnu eitemau a ariennir gan gronfeydd arian wrth gefn 2025/26 | 0.2 | 0.1% |
| Cynlluniau recriwtio tybiedig y Gwarant Plismona Cenedlaethol – 26 Ebrill (+23 swyddog) | 0.4 | 0.2% |
| Defnyddio tanwariant diwedd blwyddyn i dalu costau | -1.2 | -0.8% |
| **Pwysau cost eraill – wedi'u hunan-** | **0.0** | **0.0%** |

| | | |
|---|---|---|
| **gynhyrchu** | | |
| **Gofyniad cyllideb ddigyfnewid (£+9.0 miliwn)** | **164.7** | **5.4%** |
| Gostyngiad yng nghyfraniadau cyflogwyr staff yr heddlu (16.8% i 12%) | -1.8 | -1.2% |
| Cynllun lleihau costau’r heddlu – gostyngiadau cylchol | -2.1 | -1.3% |
| Cost net cynllun lleihau costau'r heddlu | 0.4 | 0.3% |
| **Cyfanswm y gostyngiadau mewn costau/cynllun arbedion yn ystod y flwyddyn** | **-3.5** | **-2.2%** |
| **Gofynion cyllidebol cyn gwelliannau i wasanaethau (£+5.5 miliwn)** | **161.2** | **3.2%** |

10.29 Roedd yr angen am orsaf newydd yn Llanelli wedi'i ddogfennu'n dda, a daeth hon yn weithredol yn 2024, wedi'i hariannu drwy fenthyca. Yn ogystal, roedd y penderfyniad i adeiladu maes saethu ar y cyd newydd mewn cydweithrediad â Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent yn benderfyniad yr oedd angen ei wneud, oherwydd nad oedd y cyfleuster presennol yn addas at y diben ac mewn perygl o golli ei drwydded weithredu. Rhaid darparu ar gyfer costau llog refeniw ychwanegol, costau rhedeg ac isafswm darpariaeth refeniw, sy'n adlewyrchu tâl dibrisio mewn perthynas â'r rhain ynghyd â chynlluniau mân ystadau eraill, o fewn y gyllideb, gan ychwanegu £0.2 miliwn ar gyfer 2026/27.

10.30 Cafodd twf a ymgorfforwyd yn 2025/26, mewn perthynas â chyfiawnder troseddol a'r Gwarant Plismona Bro, ei gyflwyno'n raddol rhan o'r ffordd drwy flwyddyn ariannol 2025/26. Mae angen cyllideb ychwanegol o £0.4 miliwn dros flwyddyn gyfan i ariannu'r rhain yn rheolaidd am flwyddyn gyfan.

10.31 Yn ogystal, cafodd rhai gweithgareddau a ffrydiau incwm a oedd yn rhai untro, neu yn yr arfaeth, eu bodloni'n rhannol trwy ddefnyddio cronfeydd arian wrth gefn untro yn 2025/26. Mae gwrthdroi'r eitemau hyn yn ychwanegu tua £0.2 miliwn at gyfanswm y gyllideb ar gyfer 2026/27 ar sail net.

10.32 O ran cynllun y gweithlu, yn dilyn cadarnhad ar gyfer ail rownd o gyllid Gwarant Plismona Bro, mae cynlluniau i recriwtio 11 swyddog newydd arall ar waith. Mae hyn yn ychwanegu tua £0.4 miliwn at y gyllideb.

10.33 At ei gilydd, mae hyn yn dod â'r gofyniad cyllidebol digyfnewid i £164.7 miliwn neu 5.4%.

10.34 Mae'r cynnydd mewn costau a restrir uchod yn cael ei liniaru gan ostyngiad yng nghyfraniadau cyflogwyr i bensiwn staff o 16.8% i 12%. Mae hyn yn

seiliedig ar ganlyniad y gwerthusiad tair blynedd diweddaraf oherwydd gwarged actiwaraidd ragamcanol yn erbyn y cynllun a ariennir. Mae hwn yn ostyngiad net o £1.8 miliwn yn erbyn y gyllideb flynyddol, yr ydym yn ei groesawu'n fawr.

10.35 Yn ogystal, mae gwaith y cylch cynllunio strategol a sicrwydd ac Adolygiad yr Heddlu wedi cynorthwyo i nodi £1.7 miliwn pellach mewn mesurau effeithlonrwydd a lleihau costau y gellir eu hariannu y gellir eu gweithredu am gost o £0.4 miliwn.

10.36 Effaith net y rhain yw gostwng y gofyniad cyllidebol cyn datblygiadau strategol i £161.2 miliwn, neu gynnydd o 3.2% yn y gyllideb.

**Tabl 9: Cynllun lleihau costau 2026/27**

| Categori gostwng costau | Gwerth y gostyngiad i'r gyllideb £m |
|---|---:|
| Mesurau cyni ac arbedion cyllidebol | -0.2 |
| Swyddi staff yr heddlu gwag ac oedi o ran penodiadau | -0.4 |
| Caffael lleol, cydweithredol a chenedlaethol | -0.3 |
| Cynhyrchu incwm ac ailgodi taliadau | -0.2 |
| Hyfforddiant mewnol a buddsoddi i arbed | -0.1 |
| Mentrau caffael a chynaliadwyedd eraill | -0.4 |
| Gostyngiadau yn nhaliadau goramser ac ad-drefnu swyddi staff | -0.4 |
| Arbedion oherwydd technoleg | -0.1 |
| **Cyfanswm y mesurau lleihau costau** | **-2.1** |

**Datblygiadau'r cylch cynllunio a sicrwydd a gefnogir gan yr heddlu**

10.37 Yn ogystal â'r pwysau cost a gynhwysir uchod, mae'r heddlu wedi cynnwys rhestr o fentrau gwella gwasanaethau â blaenoriaeth yn ei gyfrifiad o ofynion cyllidebol sydd wedi'u nodi fel rhan o'r broses cylch cynllunio a sicrwydd fel y disgrifir yn Adran 2. Tynnwyd sylw at y rhain hefyd yn y seminar cyllid i raddau helaeth, ac maent yn dod i gyfanswm o £3.9 miliwn neu 2.2%.

10.38 Byddai cynnwys y mentrau hyn yn llawn yn arwain at y gofyniad cyllidebol isod:

| Categori / disgrifiad o'r costau | Gofyniad cyllidebol £miliwn | % o wariant refeniw net |
|---|---|---|
| **Cyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2026/27 wedi'i chario ymlaen** | **161/2** | **3.2%** |
| Cynnydd mewn cyllido refeniw uniongyrchol cylchol | 1.4 | 0.9% |
| Cylch cynllunio strategol a sicrwydd – Ceisiadau net a gefnogir | 2.5 | 1.6% |
| Cylch cynllunio strategol a sicrwydd – datblygiadau untro | 0.9 | 0.6% |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn ac amserlennu i ariannu ceisiadau untro | -0.9 | -0.6% |
| Cyfanswm y costau net sydd wedi'u cynnwys – S-PAC | 3.9 | +2.5% |
| **Gofyniad cyllidebol (£+9.4 miliwn)** | **165.1** | **5.7%** |

10.39 Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn hon yn cynnwys cynnydd mewn cyllido refeniw uniongyrchol o refeniw o £1.448 miliwn sy'n cynyddu cyfanswm y gyllideb gyllido refeniw uniongyrchol o £2.809 miliwn i £4.250 miliwn.

10.40 Mae pryder wedi'i godi dros sawl blwyddyn ar lefel genedlaethol, drwy Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bod y diffyg cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn bygwth gwydnwch ariannol comisiynwyr, yn enwedig wrth wynebu gofynion buddsoddi sylweddol ar gyfer buddsoddi mewn ystadau, prynu cerbydau fflyd newydd (gan gynnwys cerbydau tanwydd amgen) a buddsoddiadau TGCh (e.e. rhwydwaith y gwasanaethau brys) i ddarparu gwasanaethau plismona'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

10.41 Mae canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ym mis Mehefin 2025 wedi methu â chydnabod hyn, gan olygu nad oes llawer o ddewis ond gweithredu nawr i ddechrau mynd i'r afael â'r broblem hirdymor hon. Aseswyd bod angen darpariaeth o bron i 1% y flwyddyn yn 2026/27 a bod angen £850,000 pellach y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf i fynd i'r afael â'r mater hwn a lleihau gofynion benthyca. Rhagwelir y bydd y cronfeydd cyfalaf a ddefnyddir i ariannu nifer o gynlluniau i brynu adnoddau TGCh a fflyd newydd yn dod i ben, ac mae angen sefydlu ffynhonnell ariannu gynaliadwy yn ei lle yn y tymor canolig.

10.42 Mae'r heddlu wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau Cynllunio Strategol a Sicrwydd (S-PAC) sydd wedi nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth

a amlygwyd gan arweinwyr gwasanaeth mewnol. Mae arweinwyr gwasanaeth wedi cyflwyno cynlluniau wedi'u costio i fynd i'r afael â'r rhain, ac maent wedi’u blaenoriaethu gan brif swyddogion gan ystyried canlyniadau ymgynghori â rhanddeiliaid, dioddefwyr, y cyhoedd, trefniadau datganiad rheoli'r heddlu, trefniadau rheoli risg, adroddiadau archwilio a chanfyddiadau asiantaethau arolygu, fel y'i hamlygwyd yn y seminar cyllid ym mis Tachwedd 2025.

10.43 At ei gilydd, cyflwynwyd ac ystyriwyd cynigion cyllideb o £8.1 miliwn, gyda thua £3.3 miliwn o'r rhain yn cael eu cefnogi gan brif swyddogion. O'r rhain, roedd £0.9 miliwn yn rhai untro y gellid eu hariannu drwy amserlennu cynigion cylchol, gan adael gofyniad cynnydd yn y gyllideb net o £2.5 miliwn. Mae crynodeb o hyn wedi'i gynnwys yn y tabl isod:

| | **26/7** | **27/8** | **28/9** | **29/0** | | **26/7** | **27/8** | **28/9** | **29/0** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| Arloesi a thechnoleg | 410,500 | 0 | 0 | 0 | | 5 | 0 | 0 | -5 |
| Costau/gwasanaethau cyfreithiol | 185,235 | 214,311 | 0 | 0 | | 5 | 3 | 0 | 0 |
| Argymhelliad TIAA | 0 | 0 | 0 | 2,000 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pwysau cymorth busnes | 417,338 | 0 | 0 | 0 | | 5 | 0 | -1 | 0 |
| Recriwtio a fetio | 89,133 | 0 | 0 | 0 | | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Mynd i'r afael â phroblemau o ran y galw yn ymwneud â Datganiadau Rheoli’r Heddlu | 103,527 | 0 | 0 | 0 | | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygu sgiliau | 85,202 | 0 | 0 | 0 | | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Capasiti ar gyfer newid | 174,070 | 0 | 0 | 0 | | 7 | 0 | 0 | 0 |
| Seiberddiogelwch | 24,600 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Capasiti gwasanaeth uwch | 44,000 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymyrraeth, atal ac ymgysylltu | 730,711 | 0 | 0 | 0 | | 14 | 0 | 0 | 0 |
| Asedau/offer | 25,000 | 20,000 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Colled incwm | 55,384 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datrysiadau diweddaru dioddefwyr | 150,000 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2,494,700** | **234,311** | **0** | **2,000** | | **44** | **3** | **-1** | **-5** |

10.44 Yn gyffredinol, mae cynigion cynllunio strategol a sicrwydd sy'n parhau yn y broses yn ymwneud â'r canlynol:

- Rhai pwysau cost nad oes modd eu hosgoi, e.e. yswiriant, ac ati.
- Rhaglen atal, ymyrryd ac ymgysylltu, sy'n adlewyrchu barn y cyhoedd o'r arolwg ieuenctid bod angen i waith plismona ganolbwyntio ar atal.
- Ceisio mynd i'r afael ag ymatebion i arolygon barn dioddefwyr sy'n aml yn tynnu sylw at fwlch yn y ffordd y rhoddir gwybod iddynt am y cynnydd a wneir o ran ymholiadau ynghylch troseddau.
- Meithrin capasiti ar gyfer newid, recriwtio, iechyd galwedigaethol, datblygiad talent, adnoddau dynol a fetio ac ati, o ystyried yr uchelgais am newid a llesiant.
- Technoleg, data ac arloesedd, yn enwedig o amgylch gwasanaethau i ddioddefwyr – er enghraifft, modiwlau rheoli dioddefwyr a chofnodi troseddau, porth My Police a gliniaduron i swyddogion (yn amodol ar gynllun peilot Ceredigion).
- Targed lleihau costau o 2.2%, gan gynnwys caffael, ystadau, lleihau cyfraniadau pensiwn, ac ati.
- Defnyddio cronfeydd arian wrth gefn ac oedi'r broses recriwtio ar gyfer mentrau untro.

10.45 Mae canlyniad cyffredinol y setliad, y gyllideb ofynnol, y cynllun arbedion a'r praesept arfaethedig wedi arwain at baratoi'r gyllideb fantoledig ganlynol. Ceir dadansoddiad llawnach ar gyfer 2025/26 i 2030/31 yn Atodiad A.

**Tabl 10: Crynodeb Gofyniad Cyllideb a Chyllid 2026/27**

| Categori / disgrifiad o'r costau | Gofyniad cyllidebol £miliwn | % o wariant refeniw net |
|---|---|---|
| **Cyllideb sylfaenol agoriadol 2025/26** | **156.3** | |
| Cyfanswm costau sy'n gysylltiedig â materion cenedlaethol anorfod (Tabl 16) | 8.4 | 5.4% |
| Pwysau cost eraill – wedi'u hunan-gynhyrchu (Tabl 8) | 0.0 | 0.0% |
| Cyfanswm y gostyngiadau mewn costau/cynllun arbedion yn ystod y flwyddyn (Tabl 9) | -3.5 | -2.2% |
| **Cyfanswm y ceisiadau gwella gwasanaeth cyn PAC** | **161.2** | **3.2%** |
| Cynnydd mewn cyllido refeniw uniongyrchol | 1.4 | 0.9% |
| Ceisiadau gwella gwasanaeth PAC (Adran 10.29) | 2.5 | 1.6% |

| | | |
|---|---|---|
| **Gofyniad cyllidebol 2026/27** | **165.1** | **5.7%** |
| **Wedi'i ariannu gan:** | | |
| Grant craidd tybiedig yr heddlu | -64.1 | |
| Dyraniadau Grant Cynnal Refeniw ac Ardreth Annomestig Genedlaethol Llywodraeth Cymru | -8.0 | |
| **Cyfanswm y cyllid grant** | **-72.1** | |
| Gofyniad praesept | -93.0 | |
| **Cyfanswm y cyllid** | **-165.1** | **5.7%** |

## 11 Cyllideb a Rhagolygon Tymor Canolig

11.1 Er gwaethaf y cyhoeddiad gan Rachel Reeves, Canghellor y Trysorlys, ar 11 Mehefin 2025 yn nodi setliad tair blynedd o 2026–27 i 2028–29 o gynnydd o 4.1%, 2.4% ac 1.4% yn y grant craidd, mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y gyllideb tymor canolig yn parhau i fod yn heriol. Mae'r cyfuniad o bwysau chwyddiant, ansefydlogrwydd geo-wleidyddol a thwf economaidd arafach nag a ragwelwyd yn parhau i wneud cynllunio ar gyfer yr hirdymor yn heriol. Yn ogystal, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch trefniadau cyllid grant yn y dyfodol o ran cynnwys cyllid cynyddu swyddogion heddlu a’r Gwarant Plismona Bro.

11.2 Mae eisoes yn amlwg bod Llywodraeth y DU yn wynebu amrywiaeth o bwysau, ymrwymiadau a blaenoriaethau sy’n cystadlu am sylw. Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref Shabana Mahmood gynlluniau i ddiddymu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a chyflwyno diwygiadau plismona ehangach. Roedd y cyhoeddiad hwn yn rhan o raglen ehangach y llywodraeth o ddiwygio plismona, a disgwylir y bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Ionawr 2026. Gobeithir y bydd papur gwyn y Swyddfa Gartref yn nodi cynigion clir ar gyfer diwygio plismona ac yn darparu eglurder ar fodel ariannu teg a chynaliadwy.

11.3 Mae’r ddisgyblaeth o gynnal y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy’n seiliedig ar set o dybiaethau rhesymol yn ystyriaeth hanfodol wrth asesu a gosod y praesept ar gyfer 2026/27. Mae cynnal gwydnwch ariannol a sicrhau cynaliadwyedd yn bwysig nid yn unig am un flwyddyn, ond hefyd ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn rhoi cyfle i ystyried a llunio hyn.

11.4 Disgwylir y bydd chwyddiant cyflogau a phrisiau yn parhau i roi pwysau ar gostau darparu gwasanaethau plismona dros gyfnod cynllunio’r CATC. Mae’r rhagdybiaethau’n gysylltiedig ag adroddiad diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sy’n rhagweld y bydd chwyddiant yn parhau i ostwng ond ar gyfradd llawer arafach nag a ragwelwyd y llynedd neu’n wir yn gynharach eleni. Ar hyn o bryd, ymddengys yn rhesymol defnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr fel sail, a dangosir y rhain yn y tabl isod.

**Tabl 11: Rhagdybiaethau Chwyddiant y CATC**

| Description | Months | Base | PYR Inflation | 2026/7 | 2027/8 | 2028/9 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mnths | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Staff Pay Award | 7 | 2.8 | 4.2 | 3 | 2.25 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| Officer Pay Award | 7 | 2.8 | 4.2 | 3 | 2.25 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| Electricity and Gas | 12 | 0 | 0 | 3 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| Fuel and Utilities | 12 | 0 | 0 | 3 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| Training Costs | 12 | 0 | 0 | 5.9 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| General Inflation | 12 | 0 | 0 | 3 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| PUP | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| PCSO | 12 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grants | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| PFI | 12 | 0 | 0 | -10 | -10 | -10 | -10 | -10 | -10 |
| Real Living Wage | 12 | 0 | 0 | 4 | 2.1 | 2.5 | 2.5 | 2.5 | 2.5 |
| Forensics | 12 | 0 | 0 | 15 | 2.1 | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Income | 12 | 0 | 0 | 3 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| Pension Increase | 12 | 0 | 0 | 3.8 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| Capital Financing | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Reserves | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Recharges | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Firearms | 12 | 0 | 0 | 3.8 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |
| ICT Contracts (MTA) | 12 | 0 | 0 | 5.9 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| ICT Contracts | 12 | 0 | 0 | 3 | 2.1 | 2.1 | 2 | 2 | 2 |

11.5 Mae grantiau penodol yn parhau i fod yn risg i'r sefydliad, ac mae'n amlwg o'r gostyngiadau blaenorol mewn cyllid Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, a’r penderfyniad i dynnu cyllid y Rhaglen Cyswllt Ysgolion yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 nad yw’n sicr y bydd grantiau penodol yn parhau i fod ar gael. Mae angen cydnabod y risgiau sy'n ymwneud â grantiau penodol oherwydd bod y rhain yn hanfodol i ategu ystod o wasanaethau plismona. Mae grantiau sy'n ategu cyflogau swyddogion heddlu hefyd yn cario'r risg cysylltiedig oherwydd gofynion llym rhaglen gynnydd yr heddlu.

11.6 Yn dilyn y diweddariad i’r adolygiad cynhwysfawr o wariant, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys cynnydd mewn grantiau craidd o 4.1%, 2.4%, 1.4% dros y tair blynedd (2026/27 i 2028/29), a chynnydd o 1.4% bob blwyddyn wedi hynny.

11.7 At ddibenion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, rhagdybiwyd praesept o 6% o 2027/8 ymlaen at ddibenion cynllunio.

## 12 Cynllun Arbedion / Lleihau Costau yn y Dyfodol ac Adolygiad yr Heddlu

12.1 Yn ogystal â chynnydd mewn costau sylfaenol, mae cynllun lleihau costau a gwasanaethau wedi'i ddatblygu sy'n anelu at gyflawni arbedion ychwanegol dros y pedair blynedd nesaf.

### Tabl 12: Cynllun Arbedion/Adolygiad yr Heddlu

| Efficiency Programme - 2026/7 to 2029/30 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Measure | 2026/7 | 2027/8 | 2028/9 | 2029/30 | Total |
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Budget Austerity Measures | -177,547 | 0 | 0 | 0 | -177,547 |
| Budget Austerity Saving | -7,000 | 0 | 0 | 0 | -7,000 |
| Police Staff Vacancies | -448,001 | 0 | 0 | 0 | -448,001 |
| Collaborative Procurement | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -300,000 | -1,200,000 |
| Income Generation | -13,000 | 0 | 0 | 0 | -13,000 |
| Income Generation - Recharges | -69,622 | -45,000 | 0 | 0 | -114,622 |
| Income Generation - Seized Cash / Found Property | -99,112 | 0 | 99,112 | 0 | 0 |
| Insource Training | -38,755 | -5,715 | -2,970 | 0 | -47,440 |
| Invest to save Project | -25,000 | 0 | 0 | 0 | -25,000 |
| Overtime Savings | -37,000 | 0 | 0 | 0 | -37,000 |
| Procurement - Sustainability | -384,260 | -20,382 | 31,260 | -150,000 | -523,382 |
| Staff Position Reconfiguration | -450,950 | 0 | -14,287 | 0 | -465,238 |
| | | | | | |
| Technology Saving | -31,786 | -407,271 | -4,509 | 0 | -443,566 |
| | **-2,082,034** | **-778,368** | **-191,394** | **-450,000** | **-3,501,796** |

12.2 Yn ogystal â'r arbedion a nodwyd uchod, bydd y cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn adolygu trefniadau gwaith a buddsoddiad mewn arloesedd i nodi effeithlonrwydd ac arbedion yn barhaus. Bydd creu canolfan arloesi yn ategu'r gwaith hwn o gyflymu effaith darparu gwasanaethau.

## 13 Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf

13.1 Mae asedau'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau effeithlon a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae strategaethau ar gyfer rheoli ystadau, TGCh a phrynu cerbydau fflyd newydd yn tanategu'r strategaeth gyfalaf, fel y manylir yn Atodiad F. Mae buddsoddiadau cyfalaf hefyd yn hanfodol wrth hyrwyddo arloesedd, lleihau/cynaliadwyedd carbon a lleihau costau refeniw yn ogystal â bod yn hanfodol ar gyfer y gwaith parhaus o ddarparu gwasanaethau.

13.2 Mae'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid sy'n cwmpasu'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 hyd at 2034/35 wedi'u crynhoi isod:

## Tabl 13: Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – 2034/35

| **Capital Programme - 2025 to 2035** | **Updated 2025/6** | **Original 2026/7** | **2027/8** | **2028/9** | **2029/30** | **2030/1** | **2031/2** | **2032/3** | **2033/4** | **2034/5** | **Total** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Scheme / Project** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Estates Projects** | | | | | | | | | | | |
| Major Estates Projects | | | | | | | | | | | |
| New Station Brecon | 262 | 8,554 | - | - | - | - | - | - | - | - | 8,816 |
| Joint Firearms Facility | 7,659 | 1,390 | - | - | - | - | - | - | - | - | 9,049 |
| Refurbishment - Haverfordwest Station | 908 | 1,819 | - | - | - | - | - | - | - | - | 2,727 |
| Refurbishment - HQ | 478 | 37 | 398 | 1,243 | 845 | - | - | - | - | - | 3,000 |
| Solar Farm - HQ | 171 | 1,685 | - | - | - | - | - | - | - | - | 1,856 |
| Estates Minor works | | | | | | | | | | | |
| Other Sustainability and Environmental Projects | 343 | 340 | 1,660 | 1,100 | 375 | 175 | 175 | 175 | 175 | 175 | 4,693 |
| Other / Minor Works | 1,237 | 2,910 | 2,527 | 3,110 | 1,950 | 4,441 | 2,950 | 2,950 | 2,950 | 2,950 | 27,975 |
| **Total Estates** | **11,058** | **16,735** | **4,585** | **5,453** | **3,170** | **4,616** | **3,125** | **3,125** | **3,125** | **3,125** | **58,116** |
| **Fleet / Boat** | | | | | | | | | | | |
| Replacements | 2,142 | 1,814 | 2,292 | 3,127 | 3,654 | 3,703 | 3,754 | 3,805 | 3,857 | 3,687 | 31,836 |
| Electric Vehicles / Sustainability | 391 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 2,011 |
| | **2,533** | **1,994** | **2,472** | **3,307** | **3,834** | **3,883** | **3,934** | **3,985** | **4,037** | **3,867** | **33,847** |
| **ICT and Equipment** | | | | | | | | | | | |
| WAN / ESN | 393 | 1,103 | 850 | 2,607 | 1,329 | 352 | 352 | 50 | 2,010 | 1,298 | 10,344 |
| CCTV | 404 | 1,281 | 250 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | - | 2,235 |
| Device Replacement | 1,939 | 2,450 | 1,057 | 1,073 | 614 | 1,711 | 1,441 | 1,689 | 739 | 540 | 13,253 |
| Other ICT Innovation and Technology | 374 | 655 | 925 | 943 | 1,020 | 640 | 683 | 412 | 389 | 339 | 6,380 |
| | **3,109** | **5,489** | **3,082** | **4,673** | **3,013** | **2,753** | **2,526** | **2,201** | **3,188** | **2,177** | **32,211** |
| Equipment | | | | | | | | | | | |
| Equipment and Innovation SPAC Bids | 857 | 1,130 | 1,360 | 527 | 475 | 475 | 475 | 475 | 475 | 475 | 6,724 |
| | **857** | **1,130** | **1,360** | **527** | **475** | **475** | **475** | **475** | **475** | **475** | **6,724** |
| **Total Capital Programme** | **17,557** | **25,348** | **11,499** | **13,959** | **10,492** | **11,728** | **10,060** | **9,786** | **10,825** | **9,644** | **130,898** |
| **Own Financing** | | | | | | | | | | | |
| Direct Revenue Financing | (2,718) | (4,166) | (5,016) | (5,866) | (6,807) | (8,176) | (10,010) | (9,736) | (10,775) | (9,594) | (72,864) |
| Capital Receipts | (1,100) | (50) | (1,050) | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) | (2,550) |
| Capital Reserves and Grants | (3,374) | (3,185) | (1,042) | (1,425) | - | - | - | - | - | - | (9,026) |
| **Additional Capital Financing Requirement** | **(10,365)** | **(17,947)** | **(4,391)** | **(6,619)** | **(3,635)** | **(3,502)** | **-** | **-** | **(0)** | **-** | **(46,458)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Estimated External Financing Requirement Cumulativ** | (20,000) | (27,444) | (34,536) | (32,912) | (33,454) | (32,581) | (30,386) | (28,190) | (25,995) | (23,799) | |
| | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 5.00% | |

13.3 Mae gwaith wedi mynd rhagddo drwy'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r CATC i barhau i ystyried a blaenoriaethu gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy. Er ei bod yn cynnwys sawl rhagdybiaeth a sawl peth ansicr, mae'r rhaglen gyfalaf yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hailystyried yn flynyddol, neu wrth i eglurder ymddangos, fel rhan o'r broses gyllideb ffurfiol a gosod praesept.

13.4 Mae angen cyfanswm o £130 miliwn o gyllid o 2025/26 i 2034/35 ar y rhaglen gyfalaf ddrafft angen, gyda £17.6 miliwn bellach yn cael ei neilltuo i'w wario yn 2025/26. Er mwyn i'r rhaglen gyfalaf gyfredol gael ei hariannu'n llawn dros y pum mlynedd nesaf, bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn cael eu disbyddu erbyn diwedd 2028/29.

13.5 Rhagwelir y bydd benthyca allanol yn cynyddu i £39 miliwn erbyn 2030/31 i ariannu'r rhaglen. Mae taliadau dyled llawn sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u hymgorffori mewn cyllidebau refeniw yn y dyfodol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn. Mae'r rhan fwyaf o fenthyca yn gysylltiedig ag asedau newydd ac ariannu'r gwaith o adeiladu gorsaf a chyfleuster dalfa newydd ar gyfer Aberhonddu; ynghyd â darparu datrysiad i'r cyfleuster hyfforddiant arfau tanio sy'n heneiddio ar gyfer y cyd-uned arfau tanio.

13.6 Bydd angen benthyca hefyd i gefnogi gofynion buddsoddi helaeth wrth gynnal yr ystad a'r seilwaith TGCh hanfodol i gefnogi darpariaeth effeithiol

o wasanaethau plismona, yn ogystal ag ar gyfer cynlluniau cynaliadwyedd sy'n arbed costau.

13.7 Mae costau cyllido refeniw uniongyrchol wedi cynyddu'n raddol hyd at 2030/31, er mwyn sicrhau bod y rhaglen wedi'i hariannu'n ddigonol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y rhaglen gyfalaf yn dibynnu ar fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf arferol.

## 14 Effaith ar Gronfeydd wrth Gefn

14.1 Yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, mae’r Comisiynydd yn ystyried rôl y cronfeydd wrth gefn wrth lunio’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r gyllideb flynyddol. Mae’r Comisiynydd, gyda chefnogaeth ei Brif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn fel y gellir bodloni pwysau annisgwyl ar sail galw ar y gyllideb, heb gael effaith andwyol ar gyflawni’r blaenoriaethau allweddol.

14.2 Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dangosir y strategaeth hon yn Atodiad D ac mae'n manylu ar y dull gweithredu ar gyfer 2025/26 a thu hwnt.

14.3 Wrth ystyried ffactorau gwydnwch a chynaliadwyedd, mae’r Comisiynydd yn parhau i adolygu’r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, nid yn unig yn ffurfiol wrth gwblhau’r datganiad o gyfrifon, ond hefyd yn ystod y flwyddyn wrth ystyried adroddiadau rheolaeth ariannol a pharatoi'r CATC. Mae'r asesiadau hyn a'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn wedi caniatáu ar gyfer rhywfaint o waith lliniaru arfaethedig ar bwysau untro a beichiau cost i'w bodloni gan gronfeydd wrth gefn.

14.4 Trwy reolaeth ariannol ddarbodus, gwytnwch ariannol, a chynaliadwyedd mewn golwg, mae’r sefyllfa ariannol ragweledig ar gyfer 2025/26 a’r cronfeydd wrth gefn presennol wedi’u hailasesu’n feirniadol gyda rhai ailddosbarthiadau, pan fo’n briodol.

14.5 Mae’r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o’r sefyllfa, gyda rhagor o fanylion yn Atodiad E.

**Tabl 14: Amcanestyniadau cronfeydd wrth gefn 2025/26 i 2029/30**

| Reserve Heading | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2025 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2026 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2027 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2028 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2029 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| General Reserves | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 |
| **Total General Reserve** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** |
| Sexual Assault Referral Centre (SARC) Reserve | -53,572 | -53,572 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Insurance and Litigation Reserve | -370,542 | -370,542 | -184,383 | -0 | -101,918 | -101,918 |
| Budget Mitigation Reserve | -731,256 | -490,218 | -255,652 | -255,652 | -255,652 | -255,652 |
| Police Education Qualifications Framework (PEQF) Reserve | -85,814 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Forensic Alliance Reserve | -137,618 | -15,613 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chief Constable Operational Fund | -545,755 | -545,755 | -342,192 | -269,493 | -269,493 | -214,309 |
| Driver Retraining Scheme Reserve - Chief Constable | -391,780 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Revenue Transformational Projects Reserve | -252,625 | -43,625 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Proceeds of Crime Act Reserve | -371,297 | -277,297 | -240,637 | -175,637 | -110,637 | -63,949 |
| Neighbourhood Policing Guarantee Reserve | 0 | -1,221,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Commissioner's Fund | -116,503 | -116,503 | -116,503 | -116,503 | -116,503 | -116,503 |
| Ill Health Retirement Reserve | -215,772 | -215,772 | -215,772 | -215,772 | -215,772 | -215,772 |
| Forfeiture Reserve | -124,174 | -124,174 | -59,174 | -35,313 | -35,313 | -35,313 |
| Sale of Found Property Reserve | -18,342 | -18,342 | -18,342 | -18,342 | -18,342 | -18,342 |
| Driver Retraining Scheme Reserve - Commissioner | -991,815 | -848,695 | -619,079 | -301,232 | -38,091 | 0 |
| Police Race Action Reserve | -76,790 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Innovation Reserve (RPA) | -640,381 | -640,381 | -390,381 | -140,381 | 0 | 0 |
| People Services and Organisational Development Reserve | -125,680 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Disciplinary Hearing Reserve | -42,375 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Office of Police and Crime Commissioner Reserve | -83,622 | -83,622 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Commissioning Services Reserve | -157,318 | -157,318 | -115,960 | -115,960 | -115,960 | -115,960 |
| PCC Innovation Funding Reserve | -1,766,695 | -1,327,695 | -1,177,695 | -1,177,695 | -1,177,695 | -1,177,695 |
| Police Cadet's Reserve | -59,905 | -59,905 | -59,905 | -59,905 | -59,905 | -59,905 |
| **Total Specific Earmarked Revenue Reserves** | **-7,359,631** | **-6,610,029** | **-3,795,675** | **-2,881,885** | **-2,515,281** | **-2,375,318** |
| **Capital Reserves** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Other Earmarked Capital Reserves | -7,837,809 | -4,569,809 | -1,384,809 | -654,809 | -0 | -0 |
| Capital Reserve - CCTV | -1,081,830 | -1,081,830 | -1,081,830 | -769,830 | 0 | 0 |
| General Capital Grant | -106,446 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Specific Earmarked Revenue Reserves** | **-9,026,085** | **-5,651,639** | **-2,466,639** | **-1,424,639** | **0** | **0** |
| | | | | | | |
| **TOTAL USEABLE RESERVES** | **-21,897,420** | **-17,773,372** | **-11,774,018** | **-9,818,228** | **-8,026,985** | **-7,887,022** |
| Less General Capital Grant | 106,446 | 106,446 | 106,446 | 106,446 | 106,446 | 106,446 |
| **Transfer to/from Reserves (Note to the Accounts)** | **-21,790,975** | **-17,666,927** | **-11,667,573** | **-9,711,783** | **-7,920,540** | **-7,780,577** |

14.6 Bwriedir cadw'r gronfa gyffredinol wrth gefn ar £5.51 miliwn dros gyfnod y CATC, sy'n golygu y bydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol sydd ar gael i'w defnyddio gan y Comisiynydd yn gostwng, o £17.6 miliwn ym mis Mawrth 2026 i £7.6 miliwn erbyn 2030. O ran gwydnwch ariannol a rheolaeth ariannol ddarbodus, mae bodolaeth y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u cronni yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hanfodol er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ariannu pwysau costau untro, lleddfu beichiau sy'n codi yn sgil cyfnodau brig mewn proffiliau gwariant a chaniatáu cyllideb gytbwys.

## 15 Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

15.1 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a manylir uchod a chan ystyried y pwysau a ragwelir ac arbedion/gostyngiadau costau, dangosir crynodeb o sefyllfa'r gyllideb refeniw sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031 yn Atodiad A, gyda datganiad amrywiad a ddangosir isod ar gyfer cyfnod y CATC:

**Tabl 15: Datganiad amrywiad CATC 2025/26 i 2030/31**

| | 2026/7 | 2027/8 | 2028/9 | 2029/30 | 2030/31 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Prior Year | 156,310 | 165,089 | 172,549 | 179,685 | 187,219 |
| This Year | 165,089 | 172,549 | 179,685 | 187,219 | 195,177 |
| Difference | **8,779** | **7,461** | **7,135** | **7,534** | **7,958** |
| | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Respresented By:** | | | | | |
| Correction of Baseline Budget for 4.2% Pay awards LYR vs 2.8% for 7 months | 1,168 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Full year effect of Prior Year Inflation @4.2% | 2,502 | 1,902 | 1,467 | 1,400 | 1,380 |
| In Year Pay Award at 3.0% for 7 months | 3,566 | 2,651 | 2,613 | 2,561 | 2,657 |
| Cost Pressures - National / Unavoidable | 2,656 | 2,509 | 3,136 | 2,073 | 3,920 |
| Savings and Cost Reductions | -3,452 | -659 | -205 | 1,498 | 0 |
| Neighbourhood Policing Guarantee | -805 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| S-PAC Process Reinvestement of Cost Savings | 2,495 | 234 | 0 | 2 | 0 |
| One Off SPAC Bids Funded from Reserves | 0 | 436 | 0 | 0 | 0 |
| *Reversal of Reserves 2025/6* | 649 | 386 | 124 | 0 | 0 |
| Total Variations | **8,779** | **7,461** | **7,135** | **7,534** | **7,958** |

15.2 Er bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae'n bwysig cydnabod bod ansicrwydd a risgiau sylweddol o hyd yn gysylltiedig â hyn. Bydd y cynllun lleihau costau a adlewyrchir yn cael ei ddiweddaru ymhellach fel rhan o’r broses cynllunio strategol a sicrwydd ar gyfer 2026/7. Mae'r risgiau a'r ansicrwydd ynghylch chwyddiant, cyllid grant craidd a phenodol, gofynion gwasanaeth, ac effaith diwygio'r heddlu yn ansicr, ac felly efallai ni fydd y sefyllfa yn y dyfodol yn cael ei hadlewyrchu'n llawn.

## 16 Adran 25 a Risg Cyllidebol

16.1 Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Prif Swyddog Cyllid adrodd i’r Comisiynydd, ar yr adeg y mae’r gyllideb yn cael ei phennu, ar y risgiau a’r ansicrwydd a allai olygu bod angen gwario mwy ar y gwasanaeth nag a gynlluniwyd, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn. Mae’r adroddiad hwn i’w weld yn Atodiad B.

16.2 Rhoddir lwfans ar gyfer y risgiau hyn drwy wneud y canlynol:

- sicrhau lwfans darbodus yn yr amcangyfrifon; ac, yn ogystal,
- sicrhau bod digon o arian wrth gefn i'w ddefnyddio os bydd amcangyfrifon y gwasanaeth yn annigonol.

16.3 Mae'n bwysig bod y risg gyllidebol wedi'i lleihau pan fydd y gyllideb yn cael ei phennu. Rhaid i lefel y risg gyllidebol gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Comisiynydd, ar sail cyngor a barn ei Brif Swyddog Cyllid.

16.4 Mae Atodiad C hefyd yn amlinellu asesiad effaith risg ar draws amrywiol benawdau cyllideb ac yn seiliedig ar ganran y gyllideb refeniw net a’r ffactorau hysbys, a allai ddylanwadu ar lefelau gwariant neu incwm gwirioneddol.

## 17 Ymgynghoriad Cyhoeddus a Barn

17.1 Ar 24 Tachwedd 2025, lansiodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus ar braesept yr heddlu ar gyfer 2026/27. Roedd yn bwysig i’r Comisiynydd

ei fod yn ceisio barn y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys. Anogodd bawb i leisio'u barn ar y mater hollbwysig hwn, er mwyn sicrhau y gall Heddlu Dyfed-Powys barhau i ddiogelu ei gymunedau gyda'r safon uchaf o wasanaeth sydd ar gael.

Er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd i roi eu barn, cafodd arolwg ei greu a'i hyrwyddo'n eang. Isod yw'r pedwar opsiwn a gynigir:

**Pa un o'r opsiynau hyn ydych chi'n ei gefnogi fwyaf:**

A. **Cynnydd bras o £1.50 y mis**

B. **Cynnydd bras o £2.00 y mis**

C. **Cynnydd bras o £2.25 y mis**

D. **Cynnydd bras o £2.50 y mis**

**Tabl 16: Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

| Dewisiadau | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynnydd bras o £1.50 y mis | 259 (30%) |
| Cynnydd bras o £2.00 y mis | 168 (20%) |
| Cynnydd bras o £2.25 y mis | 117 (14%) |
| Cynnydd bras o £2.50 y mis | 254 (30%) |
| Dim dewisiad | 53 (6%) |
| Cyfanswm | 851 |

17.2 Roedd yn braf gweld cynnydd yn yr ymatebion i ymgynghoriad eleni, ond mae'r canlyniad yn dangos dosbarthiad cyfartal o gefnogaeth ar draws yr opsiynau, gyda 30% yn cefnogi'r cynnydd isaf ac uchaf a gynigiwyd yn yr arolwg.

17.3 Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr hefyd roi sylwadau, sydd wedi'u dadansoddi, ac mae gan rai themâu eang lefelau sylweddol o gefnogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd heddlu gweladwy, a'r prif flaenoriaethau, sef ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau sy'n gysylltiedig â'r ffyrdd a throseddau treisgar.

## 18 Casgliad

18.1 Fel yr amlinellwyd yng nghrynodeb y Comisiynydd, o ystyried y penderfyniadau ariannu hanesyddol a'r heriau ariannol parhaus a'r gofynion gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yn eu hwynebu, mae'n hanfodol sicrhau praesept heddlu a fydd yn diogelu plismona ac yn cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu mewn modd cynaliadwy a darbodus.

18.2 Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn nodi'r amrywiaeth o ffactorau ac ystyriaethau mewnol ac allanol sydd wedi llywio datblygiad y CATC.

18.3 Mae'r Comisiynydd yn cyflwyno cynnig praesept ar gyfer 2026/27 a thybiaethau sy'n sail i'r CATC hyd at 2031/32, a fydd yn ceisio codi praesept eiddo band D cyfartalog o £2.25 y mis neu **£26.95 y flwyddyn i £387.63, cynnydd o 7.47%**. Bydd y cynnydd hwn yn codi cyfanswm praesept o £93.033 miliwn ac yn darparu cyfanswm o gyllid canolog a lleol craidd o £165.1 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o 5.6% ar y lefel ariannu a osodwyd yn 2025/26.

18.4 Dangosir isod effaith y praesept heddlu hwn ar bob band eiddo:

**Tabl 17: Bandiau'r dreth gyngor**

| Band treth | Sail | 2025/26 | 2026/27 | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A | 6/9fed | £240.45 | £258.42 | **£17.97** |
| B | 7/9fed | £280.53 | £301.49 | **£20.96** |
| C | 8/9fed | £320.61 | £344.56 | **£23.95** |
| **D** | **9/9fed** | **£360.68** | **£387.63** | **£26.95** |
| E | 11/9fed | £440.83 | £473.77 | **£32.94** |
| F | 13/9fed | £520.98 | £559.91 | **£38.93** |
| G | 15/9fed | £601.13 | £646.05 | **£44.92** |
| H | 18/9fed | £721.36 | £775.26 | **£53.90** |
| I | 21/9fed | £841.59 | £904.47 | **£62.88** |

18.5 Ar ôl ystyried y cynllun lleihau costau, bydd y lefel hon o gyllid yn ceisio caniatáu i'r heddlu barhau i gyflawni eu cynlluniau gweithredol a strategol, darparu buddsoddiad mewn technoleg i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau, ac ehangu rhaglenni ymyrraeth gynnar sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc ac sy'n rhoi cymorth, sgiliau a llwybrau cadarnhaol i bobl ifanc i leihau eu hymwneud â throseddu.

18.6 Bydd y buddsoddiad hwn yn caniatáu i Heddlu Dyfed-Powys barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, wrth fuddsoddi mewn

arloesedd a thechnoleg i wella’r broses o gyflenwi gwasanaethau ymhellach. Dylai'r lefel hon o gyllid gael effaith gadarnhaol ar y safonau gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl. Bydd y dirwedd ariannol a gweithredol yn ddi-os yn parhau i fod yn heriol a bydd yn parhau i fod yn faes y bydd cynllunio strategol yn canolbwyntio arno yn y dyfodol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

## Appendix A - Revenue Budget 2025 - 2031

| Heading | 25/26 Original | 2025/6 Revised | 26/27 | 27/8 | 28/9 | 29/30 | 30/31 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Police and Crime Commissioner Budgets** | | | | | | | |
| PCC Office Costs | 1,633 | 1,628 | 1,701 | 1,746 | 1,787 | 1,826 | 1,866 |
| PCC Commissioning | 1,657 | 1,662 | 1,767 | 1,834 | 1,902 | 1,968 | 2,035 |
| **Net Costs OPCC** | **3,290** | **3,289** | **3,468** | **3,580** | **3,689** | **3,794** | **3,901** |
| **Budgets Managed by the Chief Constable** | | | | | | | |
| Police Officer | 95,135 | 94,866 | 98,645 | 101,395 | 103,811 | 106,135 | 108,479 |
| Police Staff | 48,719 | 48,012 | 50,952 | 52,475 | 53,479 | 56,777 | 58,222 |
| Police Pensions | 1,873 | 1,873 | 1,950 | 1,997 | 2,039 | 2,081 | 2,123 |
| Indirect Staff Costs | 1,917 | 1,974 | 1,915 | 1,949 | 1,987 | 2,027 | 2,068 |
| Premises Related | 6,024 | 6,004 | 5,822 | 6,123 | 6,308 | 6,441 | 6,577 |
| Transport Related | 2,351 | 2,347 | 2,562 | 2,606 | 2,661 | 2,561 | 2,612 |
| Supplies and Services | 15,342 | 15,830 | 16,685 | 16,974 | 18,547 | 18,943 | 21,315 |
| Agency and Contracted | 5,291 | 5,351 | 5,650 | 5,915 | 6,029 | 6,149 | 6,272 |
| Capital Borrowing Costs | 1,659 | 1,659 | 1,760 | 2,449 | 2,863 | 3,232 | 3,363 |
| Direct Capital Financing | 2,718 | 2,809 | 4,257 | 5,107 | 5,957 | 6,898 | 8,267 |
| Total Gross Spending - Force | 181,029 | 180,726 | 190,199 | 196,990 | 203,680 | 211,243 | 219,297 |
| | | | | | | | |
| Income | -10,386 | -10,765 | -10,954 | -10,999 | -11,177 | -11,392 | -11,611 |
| Welsh Government PCSO Grant | -2,361 | -2,361 | -2,408 | -2,408 | -2,408 | -2,408 | -2,408 |
| Uplift Grant (5/6) | -3,006 | | | | | | |
| Pensions | -3,731 | -3,731 | -3,731 | -3,731 | -3,731 | -3,731 | -3,731 |
| Neighbourhood Policing Guarantee Grant | -1,417 | -1,417 | -2,591 | -2,591 | -2,591 | -2,591 | -2,591 |
| National Insurance Grant | -2,130 | -2,130 | -2,178 | -2,178 | -2,178 | -2,178 | -2,178 |
| Specific Grants | -5,401 | -5,271 | -5,261 | -5,239 | -5,219 | -5,202 | -5,185 |
| Recharges and Apportionments | -646 | -93 | -136 | -136 | -165 | -179 | -179 |
| **Net Spending - Force** | **151,951** | **154,958** | **162,939** | **169,708** | **176,211** | **183,562** | **191,413** |
| | | | | | | | |
| Use of (-) / Contribution to (+) Balances | -1,937 | -1,938 | -1,318 | -740 | -217 | -140 | -140 |
| **Total Spending OPCC and Force** | **153,305** | **156,310** | **165,089** | **172,548** | **179,683** | **187,217** | **195,173** |
| | | | | | | | |
| % Increase in Budget | 4.0% | 7.6% | 5.6% | 4.5% | 4.1% | 4.2% | 4.3% |
| **Financing** | | | | | | | |
| Police Grant (Croe) | -66,938 | -66,938 | -68,824 | -70,473 | -71,435 | -72,410 | -73,398 |
| Police Officer Uplift (Core) & additional | 0 | -3,006 | -3,232 | -3,232 | -3,232 | -3,232 | -3,232 |
| Precept | -86,366 | -86,366 | -93,033 | -98,843 | -105,016 | -111,575 | -118,543 |
| | **-153,304** | **-156,310** | **-165,089** | **-172,548** | **-179,683** | **-187,217** | **-195,173** |

Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd, ar yr adeg y caiff y gyllideb ei phennu ar y materion canlynol:

- cadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion y cyfrifiadau;
- digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throseddu roi sylw i'r adroddiad hwn wrth ystyried a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r gyllideb.

1. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi parhau i fod yn ddigynsail am amrywiaeth o resymau, ac mae 2025/26 unwaith eto wedi'i nodweddu gan ansicrwydd economaidd parhaus, cyfraddau llog uchel, ansefydlogrwydd byd-eang, gan gynnwys gwrthdaro yn yr Wcrain a'r Dwyrain Canol, ac ansicrwydd parhaus yn deillio o setliadau ariannu tymor byr.
2. Mae pwysau helaeth o fewn y sector cyhoeddus o hyd, ac, yn gynyddol, mae ganddynt oblygiadau o ran cyflenwi gwasanaethau a chynaliadwyedd gweithgareddau penodol a ariennir gan grantiau.
3. Mae trafodaethau manwl wedi bod yn mynd rhagddynt drwy gydol 2025/26 mewn perthynas â rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r trafodaethau hyn wedi'u cynnal yn anffurfiol rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a minnau, drwy strwythurau llywodraethu ffurfiol yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a thrwy gyfres o gyfarfodydd praesept a chyfarfodydd ynghylch y Cynllun Ariannol Tymor Canolig y mae'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid a minnau'n cymryd rhan ynddynt.
4. O gydnabod graddfa a natur barhaus heriau ariannol y dyfodol, fe sefydlodd y Prif Gwnstabl dîm adolygu'r heddlu yng nghanol 2022. Mae'r tîm wedi'i hen sefydlu ac yn parhau i adolygu arferion gweithredu cyfredol yn rhagweithiol, gan ymchwilio i arferion gorau ar draws plismona er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol.
5. Er mwyn gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, nododd a chyflawnodd yr heddlu gynllun arbedion. Mae gofyniad arbed pellach wedi'i nodi a'i ymgorffori yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2026/27. Fodd bynnag, cydnabyddir bod effeithlonrwydd a gostyngiadau mewn costau yn gynyddol anodd eu cyflawni a bod cyfyngiadau rhaglen gynnydd yr heddlu yn parhau i gyfyngu ar hyblygrwydd wrth gyflawni'r cymysgedd gweithlu gorau posibl.

6. Mae'r cyllidebau arfaethedig a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar adolygiad cynhwysfawr llinell wrth linell o ragdybiaethau chwyddiant a chostau. Wrth ddatblygu'r rhagdybiaethau hyn, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a minnau wedi ystyried ystod eang o wybodaeth ariannol ac economaidd, gan gynnwys adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ochr yn ochr ag ymarferion ymgysylltu parhaus â rhwydweithiau cyllid proffesiynol.

7. Mae'r Prif Gwnstabl wedi nodi ei ofynion cyllidebol yn dryloyw ym mhob cam o'r broses ac wedi dogfennu newidiadau'n glir wrth iddynt ddod i'r amlwg neu grisialu. Rhaid cydnabod bod y broses o lunio'r gyllideb yn dibynnu ar nifer sylweddol o ragdybiaethau ac amcangyfrifon. Nid yw hyn yn wyddoniaeth fanwl gywir ac ni all fod, ac mae amrywiadau o fewn y flwyddyn yn anochel.

8. Er bod y CATC wedi ceisio gwneud darpariaeth briodol ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau realistig, yn ogystal â lefelau incwm y gellir eu cyflawni, rhaid cydnabod bod yr hinsawdd ariannol gyffredinol yn parhau i fod o risg uchel oherwydd cymhlethdod a rhyngddibyniaeth y materion sy'n effeithio ar blismona a'r sector cyhoeddus ehangach ar hyn o bryd.

9. Er bod cyllid grant ychwanegol wedi'i ddarparu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi dyfarniadau cyflog, nid yw'r setliadau wedi talu'n llawn cyfanswm cost cyflog, codiad mewn Yswiriant Gwladol, na phwysau chwyddiant ehangach. O ystyried bod 76% o wariant refeniw'r heddlu yn ymwneud â chyflog, gall unrhyw amrywiad rhwng dyfarniadau cyflog tybiedig a gwirioneddol gael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol.

10. Gan ystyried rhagolygon cyflogau a chwyddiant y sector cyhoeddus, mae'r rhagdybiaethau cynllunio o fewn y CATC yn cynnwys lwfans darbodus ar gyfer codiadau cyflog swyddogion a staff o fis Medi 2026.

11. Yn ogystal â'r pwysau refeniw a nodwyd eisoes, mae'r CATC yn adlewyrchu pwysau cost cynyddol sy'n deillio o ariannu'r rhaglen gyfalaf. Mae'r ffaith bod llai o arian grant cyfalaf ar gael a graddfa'r buddsoddiad arfaethedig yn golygu bod angen ariannu cyfran fwy o'r rhaglen gyfalaf drwy gyfraniadau refeniw uniongyrchol a benthyca.

12. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb refeniw drwy gynyddu cyllido refeniw uniongyrchol, yr darpariaeth isafswm refeniw a chostau llog. Mae'r amgylchedd economaidd presennol, gan gynnwys cyfraddau llog uwch o'i gymharu â normau hanesyddol, wedi cynyddu cost benthyca ac wedi lleihau'r hyblygrwydd o ran fforddiadwyedd sydd ar gael o fewn y gyllideb refeniw.

13. Mae rhagdybiaethau darbodus wedi'u cymhwyso mewn perthynas â chyfraddau benthyca, costau ariannu cyfalaf, a chyfnod cyflwyno'r rhaglen gyfalaf. Er bod y rhaglen gyfalaf yn parhau i fod yn fforddiadwy dros y cyfnod cynllunio, mae'n cyflwyno haen ychwanegol o risg ariannol. Byddai unrhyw gynnydd pellach mewn cyfraddau llog, oedi i brosiectau cyfalaf, neu ostyngiadau mewn derbynebion cyfalaf yn cynyddu'r ddibyniaeth ar adnoddau refeniw.

14. Mae risgiau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd cyllid grant penodol yn parhau i fod yn bryder sylweddol. Mae gostyngiadau blaenorol yng nghyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gostyngiadau yn grantiau Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, a'r penderfyniad i ddileu Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, wedi dangos pa mor fregus yw gweithgareddau plismona sy'n dibynnu ar grantiau penodol. Mae'r gostyngiadau cyllid hyn wedi cael effeithiau uniongyrchol ar y broses o gyflenwi gwasanaethau ac, mewn rhai achosion, yn rhyngweithio ag ymrwymiadau gweithlu cenedlaethol fel y rhai sy'n deillio o raglen gynyddu'r heddlu.

15. Mae ansicrwydd pellach yn parhau mewn perthynas â phapur gwyn newydd ar ddiwygio'r heddlu, a ddisgwylir ddechrau 2026. Disgwylir manylion am ddiwygio plismona ehangach yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU i ddiddymu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr erbyn mis Mai 2028.

16. Mae newidiadau yn nhwf sylfaen y dreth gyngor hefyd yn parhau i fod yn risg. Gall amrywiadau sy'n deillio o benderfyniadau awdurdodau lleol, gan gynnwys cymhwyso premiymau ar ail gartrefi, eiddo gwag a chyfraddau casglu, gael effaith sylweddol ar gyfrifiadau sylfaen treth yn y dyfodol ac, o ganlyniad, rhagdybiaethau am incwm praesept.

17. Ystyrir lefelau cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun y risg gyffredinol ac yn unol â chanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, sy'n nodi, er mwyn asesu i ba raddau y mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol heb eu dyrannu'n ddigonol, fod yn rhaid i awdurdodau ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu.

18. Mae digonolrwydd y gronfa gyffredinol yn parhau i gael ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal ar lefel gynaliadwy a darbodus. Dylid nodi hefyd, hyd yn oed lle gallai cyllid grant arbennig fod ar gael, y byddai angen talu costau sy'n cyfateb i hyd at 1% o'r gyllideb refeniw net yn lleol fel arfer.

19. Cynhelir adolygiad parhaus o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â risgiau hysbys, ymrwymiadau yn y

dyfodol, a mentrau penodol. Wrth ddatblygu'r CATC, ystyriwyd y monitro ariannol disgwyliedig yn ystod y flwyddyn a'r posibilrwydd o ailddyrannu cronfeydd wrth gefn i liniaru pwysau untro, yn amodol ar y sefyllfaoedd alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

20. Er gwaethaf y cynnydd tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, bydd yr heddlu'n parhau i wynebu gofyniad i gyflawni arbedion ac effeithlonrwydd pellach dros oes y CATC. Ynghyd ag ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol, a'r amgylchedd economaidd ehangach, mae hyn yn golygu bod y rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn heriol am y dyfodol rhagweladwy.

21. Rwy'n fodlon bod y CATC wedi ystyried a dogfennu'n briodol y risgiau, y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd hysbys sy'n effeithio ar y cyfnod cynllunio a'i fod yn cefnogi'r broses o osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.Gallaf gadarnhau yr ystyrir bod yr amcangyfrifon refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynnwys yn y CATC yn gadarn ac ystyrir bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. Fodd bynnag, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol heriol, sy'n gofyn am bwyslais parhaus ar wydnwch ariannol a chynaliadwyedd er mwyn amddiffyn gwasanaethau i gymunedau ardal Dyfed-Powys.

**Nicola Davies**

**Prif Swyddog Cyllid Dros Dro i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau cyflog a phensiynau swyddogion yr heddlu | 61.5% | **Uchel** | Gwnaed rhagdybiaethau mewn perthynas â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ond maent yn parhau i fod yn ansicr tan y bydd y penderfyniad wedi'i gwblhau.<br><br>Mae'r gyllideb hon yn sensitif iawn i newidiadau yn nifer swyddogion yr heddlu a chymhlethdodau rheoli ymddeoliadau, ymddeoliadau oherwydd afiechyd, trosglwyddeion, a’r broses o gadw a recriwtio recriwtiaid newydd.<br><br>Bodloni gofynion rhaglen gynnydd yr heddlu a grant Gwarant Plismona Bro.<br><br>Mae gofynion gweithredol yn gofyn am daliadau goramser. | Mae'r rhagdybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth ariannol ac economaidd sy'n cael ei hadolygu'n barhaus.<br><br>Mae gan Gwasanaethau Pobl gynllun recriwtio gweithlu strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar y nifer rhagamcanol o ymddeoliadau swyddogion heddlu, ymadawyr, trosglwyddeion, a swyddogion ychwanegol fel rhan o raglen gynnydd yr heddlu a grant Gwarant Plismona Bro. Mae'r nifer gofynnol o swyddogion ar brawf yn cael ei gynllunio a'i ddyrannu'n unol â hynny, gyda threfniadau'n cael eu cryfhau i sicrhau bod targedau'r Swyddfa Gartref yn cael eu cyrraedd, gydag adroddiadau ychwanegol i'r Swyddfa Gartref drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Mae rheolaethau ariannol tynn a rheolaeth lem ar daliadau goramser, gan ddeiliaid cyllideb a'r grŵp goramser (dan |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae newidiadau yn y prisiadau pensiwn yn y dyfodol yn parhau i fod yn risg. | gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol).<br><br>Mae deiliaid cyllidebau yn ymwybodol iawn o'r heriau ariannol a'u cyfrifoldebau am reolaeth ariannol ddarbodus, gydag ethos cryf ac ymwybyddiaeth o'r angen am reolaeth ariannol.<br><br>Sefydlwyd cronfa wrth gefn y Prif Gwnstabl i leddfu amodau cyfnewidiol digwyddiadau difrifol.<br><br>Mae cynrychiolaeth ariannol ar bob grŵp aur a grwpiau ymchwilio gweithredol eraill yn digwydd fel mater o drefn. Mae hyn yn galluogi taliadau goramser a chostau eraill i gael eu monitro'n agos ym mhob cyfarfod, gydag adroddiadau amserol yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb, gydag adroddiadau ffurfiol drwy'r strwythur llywodraethu. Trafodir perfformiad ariannol yn |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rheolaidd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona, ac mae materion ariannol hefyd yn cael eu trafod yn y Bwrdd Cyllid Strategol. |
| Staff yr heddlu<br>Costau cyflogau (gan gynnwys, swyddogion cymorth cefnogi cymunedol yr heddlu yr heddlu) | 32% | **Uchel** | Gwnaed rhagdybiaethau mewn perthynas â dyfarniadau cyflog yn y dyfodol ond nes eu bod wedi'u cwblhau mae'r rhain yn parhau i fod yn ansicr.<br><br>Cyrraedd targedau Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref sydd ynghlwm wrth amodau'r grant.<br><br>Gorwariant o fewn goramser oherwydd gofynion sefydliadol, gweithredol a lefelau swyddi gwag.<br><br>Cynnydd yn y rhagdybiaeth o ran oedi oherwydd | Mae'r rhagdybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth ariannol ac economaidd sy'n cael ei hadolygu'n barhaus.<br><br>Caiff y sefydliad ei fonitro drwy lywodraethu ffurfiol a manwl gan y Bwrdd Rheoli Adnoddau. Mae proses Porth yn monitro ac yn rheoli pob newid i'r sefydliad ac yn wir mae pob swydd yn cael ei hadolygu a'i hystyried yn llawn cyn cael ei hysbysebu.<br><br>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb, gydag adroddiadau ffurfiol drwy'r strwythur llywodraethu. Trafodir perfformiad ariannol yn rheolaidd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona, ac mae materion ariannol hefyd yn cael eu trafod yn y Bwrdd Cyllid Strategol. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | amserlenni recriwtio. | Mae cyllidebau cyflogau staff a goramser yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn agos ac mae Partneriaid Busnes Cyllid yn ymgysylltu'n agos â deiliaid cyllideb. |
| Costau staff anuniongyrchol | 1.2% | **Canolig** | Mae cost y cynllun hyfforddi yn parhau i godi i ddiwallu'r galw cynyddol am staff a swyddogion sydd wedi'u huwchsgilio. Mae cynnal y gofyniad cynyddu niferoedd a chynnydd mewn cyfraddau gadael yn cyfrannu at y risg hon. | Mae cyllidebau hyfforddi wedi'u pennu i adlewyrchu gofynion gweithredol hollbwysig. Caiff cyllidebau eu monitro'n fisol, ac mae grŵp blaenoriaethu hyfforddiant yn ystyried blaenoriaethau o ran hyfforddi cyn darparu hyfforddiant. |
| Costau adeiladau | 3.6% | **Canolig** | Er gwaethaf rhaglen waith i fynd i'r afael â chyflwr yr ystad ac ôl-groniadau cynnal a chadw, efallai y bydd angen costau refeniw uwch i sicrhau bod yr ystad yn cael ei chynnal fel amgylchedd gwaith diogel i staff a swyddogion. | Ystyrir gofynion ystadau'r rhaglen gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses gosod cyllideb flynyddol ac maent wedi bod yn destun adolygiad penodol gan y Bwrdd Cyllid a Strategaeth.<br><br>Mae'r Grŵp Ystadau Strategol yn dod â staff allweddol o swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu ynghyd i gyfarfod yn fisol i |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae ansicrwydd o hyd ynghylch costau cyfleustodau yn y dyfodol ac amodau tywydd eithafol.<br><br>Arbedion sylweddol wedi'u tybio yn erbyn cyfleustodau ac o gyflawni gwaith y Rhaglen Gyfalaf Ystadau. | drafod materion ystadau gan gynnwys cyllid. Mae'r grŵp hwn wedi gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu methodoleg blaenoriaethu ar sail risg ar gyfer gwaith cynnal a chadw.<br><br>Negodi contractau ynni yn genedlaethol trwy Bluelight Commercial.<br><br>Adolygu'r defnydd o ynni i chwilio am arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd 'buddsoddi i arbed'.<br><br>Bydd y Grŵp Cynaliadwyedd yn ystyried cyfleoedd pellach ac yn goruchwylio'r Gronfa Wrth Gefn Cynaliadwyedd a Thrawsnewid. |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau trafnidiaeth | 1.6% | **Canolig** | Mae costau tanwydd yn dueddol o amrywio'n sylweddol yn y farchnad a allai gynyddu costau rhedeg.<br>Cynyddu cost caffael rhannau a heriau o fewn y gadwyn gyflenwi. | Caiff prisiau tanwydd eu monitro, ac asesir eu heffaith yn rheolaidd drwy'r gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn sydd ar waith.<br><br>Mae data telemateg yn caniatáu i'r heddlu fonitro’r defnydd o gerbydau ac ymddygiad gyrwyr.<br><br>Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer parhau i fabwysiadu cerbydau trydan, a fydd yn sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion.<br><br>Mae cyflwr y farchnad yn parhau i gael ei fonitro ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyflenwadau a gwasanaethau a chomisiynu | 12.5% | **Canolig** | Gallai archebion y tu allan i'r fframwaith caffael cymeradwy arwain at orwario yn erbyn y gyllideb.<br><br>Mae amodau'r farchnad yn parhau i fod yn heriol oherwydd digwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd.<br><br>Pwysau parhaus ac effeithiau cynnydd chwyddiant. | Mae archebion prynu yn cael eu prosesu gyda gwiriad cyllideb integredig ar gyfer eitemau gwerth uchel.<br><br>Mae'r Adran Gaffael yn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael yn unol â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau ariannol.<br><br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn ar waith ac yn cael eu dilyn.<br><br>Mae sefydlu Bluelight Commercial yn parhau i hwyluso a medi rhywfaint o arbedion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r heddlu yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith hwn.<br><br>Mae gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd yn cael eu rheoli a'u hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu a'u goruchwylio gan y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu. |

## Atodiad C – Asesiad Risg o Gyllidebau Perthnasol

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau asiantaeth a chontract | 3.5% | **Canolig** | Costau ychwanegol a chynyddol yn deillio o'r trefniadau cydweithio – yn benodol yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol, y Gyd-uned Arfau Tanio a'i chyfleuster hyfforddi. | Parhau i gryfhau llywodraethu, rheolaeth ariannol a chraffu ynghylch trefniadau cydweithredol. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyllido cyfalaf a benthyca | 3.7% | **Uchel** | Mae maint y gofynion buddsoddi cyfalaf yn sylweddol a byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu costau benthyca.<br><br>Mae amrywiadau a chynnydd mewn cyfraddau llog yn achosi pwysau ariannol ychwanegol.<br><br>Oedi parhaus a chostau cynyddol ar gyfer rhaglenni TGCh.<br><br>Costau uwch ar gyfer prosiectau cyfalaf. | Cyngor allanol gan Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys.<br><br>Mae'r Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'u halinio.<br><br>Bydd gofynion buddsoddi cyfalaf yn parhau i gael eu hadolygu'n weithredol gan fyrddau a phartïon perthnasol.<br><br>Monitro'r holl brosiectau cyfalaf yn rheolaidd, yn lleol ac yn genedlaethol.<br><br>Asesiad cadarn a blaenoriaethu gofynion buddsoddi cyfalaf trwy lywodraethu priodol. |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Grant penodol | -11.9% | **Uchel** | Ni ellir cynnal gwasanaethau hanfodol sy'n cael eu hategu gan grantiau penodol, gan achosi effeithiau sylweddol ar ddarpariaeth weithredol a sefydliadol.<br><br>Beichiau ariannol ychwanegol a gafwyd oherwydd colli/lleihau cyllid grant.<br><br>Dylid defnyddio grantiau yn unol â thelerau ac amodau'r grant.<br><br>Gall darparwyr grantiau roi'r gorau i dalu grant heb fawr o rybudd.<br><br>Oedi wrth gyhoeddi symiau a thelerau ac amodau grant penodol o ran nifer y swyddogion a'r meini prawf ar gyfer tynnu arian i lawr ar gyfer 2026/7 tan y papur gwyn ar ddiwygio. | Mae sylwadau yn parhau i gael eu gwneud ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â’r ystod o grantiau penodol sy’n sail i blismona craidd gan bwysleisio’r angen am sicrwydd tymor hwy.<br><br>Mae'r tybiaethau mewn perthynas â'r holl grantiau penodol yn cael eu hystyried yn flynyddol ac fel mater o drefn fel rhan o fonitro ariannol.<br><br>Dylid recriwtio swyddi a ariennir gan grantiau dros dro am gyfnod y grant, lle bynnag y bo modd, gyda Grŵp Rheoli’r Sefydliad yn craffu ar yr holl newidiadau i’r swyddi hyn a’u hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Pobl.<br><br>Mae holl delerau’r grant wedi’u hawdurdodi gan y Prif Swyddog Cyllid.<br>Mae cynlluniau ymadael cynhwysfawr yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer pob gweithgaredd penodol a gefnogir gan grantiau allanol. |

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gwasanaethau a gomisiynir a ategir gan grantiau penodol yn cael eu hawdurdodi gan y Comisiynydd a'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid. |
| Incwm arall | -6.7% | **Canolig** | Mae targedau incwm yn cael eu tangyflawni oherwydd lefelau gweithgarwch is na'r rhagolygon. | Mae'r Grŵp Cyllid a Chaffael Strategol yn ystyried cyfleoedd i gynhyrchu'r incwm mwyaf posibl, gyda deiliaid cyllidebau yn cael eu hannog yn weithredol i ddatblygu cyfleoedd.<br><br>Caiff incwm ei adolygu a'i fonitro fel rhan o drefniadau rheolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol. |

## Atodiad C – Asesiad Risg o Gyllidebau Perthnasol

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn | -1.0% | **Uchel** | Ni ellir bodloni pwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan alw heb effaith andwyol.<br><br>Pwysau chwyddiant uwch na'r rhai a dybiwyd.<br><br>Llai o wytnwch ariannol wrth i gronfeydd wrth gefn leihau. | Adolygiad ac ystyriaeth o'r strategaeth cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, sy'n amlinellu'r dull gweithredu a'r trefniadau.<br><br>Cronfa weithredol wrth gefn i liniaru cyfnodau brig mewn digwyddiadau difrifol a mawr.<br><br>Ystyrir bod cronfeydd wrth gefn penodol eraill yn briodol i liniaru pwysau untro.<br>Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol yn parhau i adolygu gofynion tymor canolig, cronfeydd wrth gefn a materion ariannu.<br><br>Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n rheolaidd drwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol. |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| Maes cyllideb | % o gostau net | Lefel risg | Risg a nodwyd | Ffactor lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | Amherth nasol | **Uchel** | Mae maint, cost uchel a chymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r risg o fynd y tu hwnt i gyllidebau, a pheidio â bodloni terfynau amser a chyflawni amcanion yr achos busnes gwreiddiol.<br><br>Straen sylweddol yn amodau'r farchnad o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd.<br><br>Oedi parhaus a chostau cynyddol ar gyfer rhaglenni TGCh cenedlaethol. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo a'i monitro drwy drefniadau llywodraethu ffurfiol.<br><br>Canolbwyntiwyd yn sylweddol drwy'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, y Grŵp CATC ac o fewn y Grwpiau Ystadau Strategol, TGCh a Fflyd i adolygu gofynion seilwaith yn feirniadol dros gyfnod o 10 mlynedd.<br><br>Bu cryfhau parhaus mewn perthynas â chynigion prosiect ac achosion busnes a bydd y gwaith hwn yn parhau o ddifrif, er mwyn sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau'n cael eu hystyried yn llawn, a'r opsiynau'n cael eu harfarnu, a buddion busnes yn cael eu nodi'n glir.<br><br>Monitro'r holl brosiectau cyfalaf yn rheolaidd, yn lleol ac yn genedlaethol. |

# STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN

## CRONFEYDD WRTH GEFN, BALANSAU A DARPARIAETHAU

### 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r gofyniad am arian wrth gefn yn cael ei gydnabod mewn statud. Mae adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn y mae ei hangen i gwrdd â gwariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth gyfrifo eu gofyniad cyllidebol.

1.2. Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn nodi y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) sefydlu strategaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gallent gael eu defnyddio gan y Prif Gwnstabl) a darpariaethau mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dylai hyn roi sylw dyledus i'r angen i sicrhau bod gweithgareddau plismona yn cael eu hariannu'n barhaus a'r gofyniad i gyflawni gweithrediadau plismona eithriadol neu annisgwyl.

1.3. Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reolaeth ariannol. Maent yn helpu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ymdopi â phwysau ariannol anrhagweladwy a chynllunio ar gyfer ymrwymiadau gwariant yn y dyfodol.

1.4. Bydd yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu dal gan y Comisiynydd a'u rheoli i gydbwyso blaenoriaethau ariannu a gwariant ac i reoli risgiau. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses cynllunio ariannol tymor canolig.

### 2. Diffiniadau

2.1. Mae cronfeydd wrth gefn a balansau yn wahanol i ddarpariaethau o safbwynt cyfrifyddu. Yn achos cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (yn hytrach na chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio) a darpariaethau, dylai'r ddau swm a gynrychiolir ar y fantolen gael eu cyfateb gan falansau arian parod ffisegol, oni bai bod benthyca mewnol wedi digwydd.

2.2. **Cronfeydd defnyddiadwy** – mae'r rhain yn falansau sy'n cael eu dal yn gyffredinol at dri diben penodol ac sy'n cael eu categoreiddio fel cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd:

- Balans gweithredol i helpu i lyfnhau effaith llif arian anwastad – cronfeydd wrth gefn cyffredinol.
- Cronfa wrth gefn i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl – cronfeydd wrth gefn cyffredinol.
- Dull o gronni arian i fodloni gofynion hysbys neu a ragwelir – cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

2.3. **Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** – balansau yw'r rhain sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar gyfer mentrau a dibenion penodol.

2.4. **Cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd** – balansau yw'r rhain sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar ran trydydd partïon, ac felly ni ellir eu defnyddio heb gyfarwyddyd penodol.

2.5. **Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio** – nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol a chânt eu dal at ddibenion cyfrifyddu.

2.6. **Darpariaethau** – yn ofynnol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau ansicr o ran amseru neu symiau yr aethpwyd iddynt.

## 3. Trefniadau llywodraethu

3.1. Y gofynion llywodraethu lleiaf mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau yw fel a ganlyn:

- Mae gan y Comisiynydd strategaeth gadarn ar lefel a natur y cronfeydd wrth gefn a'r balansau sydd eu hangen arno a fydd yn cael ei hystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio;
- Dylai'r lefelau gofynnol o gronfeydd wrth gefn a balansau gael eu hadlewyrchu yn y gyllideb flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- Bod y Comisiynydd yn monitro ac yn cynnal lefel y cronfeydd wrth gefn a'r balansau o fewn yr ystod a bennir gan ei bolisi cytunedig, gyda chyngor gan y Prif Swyddog Cyllid a fydd yn sicrhau bod protocolau clir ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio;
- Bod y Comisiynydd yn cadw cronfeydd wrth gefn digonol fel y gellir bodloni pwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan alw heb effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol;
- Bod strategaeth y Comisiynydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a risgiau a chaiff ei hadrodd yn gywir ac yn glir ar yr un pryd â gosod y gyllideb a'r praesept. Cedwir golwg ar lefel y balansau a'i rheoli er mwyn sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei amcanion hirdymor;
- Lle eir y tu hwnt i'r lefelau targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau, mae costau cyfle cynnal y lefelau hyn wedi'u pennu, o gymharu â'r budd a gronnwyd.

3.2. Dylai Rheoliadau Ariannol a Chynllun Caniatâd y cytunwyd arnynt yn lleol wneud y canlynol:

- Cynnwys manylion llawn am sut y bydd y strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau yn gweithredu'n lleol;
- Sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn cynnwys swm realistig o arian wrth gefn gweithredol sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl ar gyfer blaenoriaethau gweithredol, heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol; a

- Gwneud darpariaeth, lle bo'n briodol, i gyllidebau gael eu cario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall.

## 4. Cyfrifoldebau statudol

4.1. Mae *"Datganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl"* yn amlinellu'r pum egwyddor sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y Prif Swyddog Cyllid a'r trefniadau sefydliadol sydd eu hangen i'w cefnogi.

4.2. Ar gyfer pob egwyddor, mae'r datganiad yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol o fewn sefydliad er mwyn sicrhau y gall Prif Swyddogion Cyllid weithredu'n effeithiol a chyflawni eu dyletswyddau craidd.

4.3. Y trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau, ac sy'n gyfrifoldeb y Prif Swyddog Cyllid yw fel a ganlyn:

- Sicrhau y rhoddir cyngor ar lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau ar arferion da;
- Adrodd ar yr adeg yr ystyrir y gyllideb a gosodir y praesept ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn, fel sy'n ofynnol yn ôl Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau CIPFA.

4.4. Dylid ymgymryd â'r ddau mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid (Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl).

4.5. Mae hefyd ystod o fesurau diogelu ar waith sy'n milwrio yn erbyn gor-ymrwymo'n ariannol gan y Comisiynydd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Y gofyniad cyllideb gytbwys;
- Pwerau Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 prif swyddogion cyllid, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd os ceir, neu mae'n debygol y ceir, gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys; a
- Mae cyfrifoldeb yr archwilwyr allanol i adolygu ac adrodd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys adolygiad o lefelau'r cronfeydd wrth gefn, gan ystyried eu gwybodaeth am berfformiad y sefydliad dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr archwilwyr yw pennu lefel optimwm neu leiafswm y cronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau unigol.

## 5. Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar gronfeydd wrth gefn yr heddlu

5.1 Ar 31 Mawrth 2018 cyhoeddodd y Gweinidog Plismona a'r Gwasanaeth Tân ganllawiau newydd ar yr wybodaeth y mae'n rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyhoeddi o ran cronfeydd wrth gefn yr heddlu.

5.2 Un o’r gofynion allweddol yw y dylai’r wybodaeth am bob cronfa wrth gefn wneud yn glir faint o’r cyllid sy’n perthyn i bob un o’r tri chategori canlynol:

- Cyllid ar gyfer gwariant arfaethedig ar brosiectau a rhaglenni dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig presennol.
- Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol.
- Cronfa wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag anghenion gwariant eraill, yn unol ag egwyddorion cadarn rheolaeth ariannol dda.

5.3 Amlinellodd y Gweinidog hefyd y byddai lefelau cyllid grant yn y dyfodol yn ystyried cyhoeddi’r wybodaeth hon yn dryloyw ar draws y gwasanaeth.

## 6. Asesu lefel priodol y cronfeydd wrth gefn

6.1 Mae’r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn briodol ar gyfer amgylchiadau lleol ac mae’n atebol i drethdalwyr am y penderfyniadau a wneir. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) ddyletswydd i roi’r cyngor sydd ei angen ar y Comisiynydd i wneud penderfyniadau da.

6.2 Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal yn ddarbodus. Maent yn galluogi'r sefydliad i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau costus annisgwyl a thrwy hynny helpu i'w ddiogelu rhag gorwario'r gyllideb flynyddol, pe bai digwyddiadau o'r fath yn digwydd. Gellir cynnal cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol hefyd lle mae'n debygol y bydd gofyniad gwariant yn codi yn y dyfodol.

6.3 Mae'r ffaith bod y cyhoedd yn derbyn y praesept yn rhannol ddibynnol ar y ddealltwriaeth bod y praesept yn cael ei wario ar blismona ac mai dim ond swm rhesymol a darbodus o unrhyw or-ariannu sy'n cael ei storio fel cronfa wrth gefn gyffredinol. I’r gwrthwyneb, pan godir gwariant nas rhagwelwyd, mae’n debygol y byddai’r cyhoedd yn disgwyl i’r sefydliad fod â digon o adnoddau i dalu’r gost heb orfod troi’n orwariant.

6.4 Er mwyn asesu digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn, dylai’r Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) gynnwys asesiad cyfredol o’r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol.

6.5 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig y mae’n rhaid eu cymryd wrth baratoi’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol benodol.

6.6 Dylai asesu'r lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn gynnwys cynnal dadansoddiad o'r fantolen yn flynyddol a rhagamcanu eitemau allweddol y fantolen. Mae'r rhagamcaniad hwn yn cynnwys rhagolygon o lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau dros gyfnod o dair blynedd i

gwmpasu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf.

6.7 Wrth asesu lefel y cronfeydd wrth gefn, rhoddir ystyriaeth ddyledus hefyd i drefniadau cymorth Llywodraeth y DU:

- Cynllun cymorth ariannol brys Llywodraeth Cymru i helpu heddluoedd sy'n wynebu baich ariannol o ganlyniad i ddarparu gwaith cyflenwi a chyflawni gwaith ar unwaith mewn ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr. Mae'r cynllun yn amodol ar drothwy sy'n cael ei osod ar 0.2% o'r gyllideb refeniw.
- Grant arbennig y Swyddfa Gartref i dalu costau ychwanegol a fyddai'n codi o blismona digwyddiadau annisgwyl ac eithriadol yn eu hardaloedd. Os caiff ei gymeradwyo, disgwylir i heddluoedd dalu costau ychwanegol y digwyddiad hyd at 1% o'r gyllideb refeniw.

6.8 Dylai strategaeth cronfeydd wrth gefn a balansau effeithiol ystyried dull y sefydliad o reoli'r trysorlys, cynlluniau gwariant cyfalaf a'r angen am fenthyca allanol, yn erbyn defnyddio balansau a chronfeydd wrth gefn.

6.9 Mae canllawiau CIPFA yn awgrymu, yn ogystal â gofynion llif arian, y dylid ystyried y ffactorau canlynol:

| Rhagdybiaethau o ran y gyllideb | Sefyllfa a rheolaeth ariannol |
|---|---|
| Trin chwyddiant a chyfraddau llog | Sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad (lefel benthyca, dyled heb ei thalu, cyfraddau casglu'r dreth gyngor ac ati.) |
| Amcangyfrifon o lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf | Hanes blaenorol y sefydliad o ran rheoli cyllidebau a chyllid, gan gynnwys cadernid y cynlluniau tymor canolig |
| Trin pwysau a arweinir gan alw | Gallu'r sefydliad i reoli pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn |
| Trin arbedion effeithlonrwydd/enillion cynhyrchiant a gynlluniwyd | Cryfder y trefniadau gwybodaeth ac adrodd ariannol |

| | |
|---|---|
| Y risgiau ariannol sy'n gynhenid i unrhyw bartneriaethau ariannu newydd sylweddol, trefniadau allanol mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | Gweithdrefnau trosglwyddo a diwedd blwyddyn y sefydliad mewn perthynas â thanwariant/gorwariant yn y gyllideb ar lefel sefydliadol ac adrannol |
| Argaeledd cronfeydd eraill i ymdrin â digwyddiadau mawr wrth gefn a digonolrwydd darpariaethau | Pa mor ddigonol yw trefniadau yswiriant y sefydliad ar gyfer risgiau mawr nas rhagwelwyd |

6.10 Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyledus i'r angen i sicrhau bod gweithgareddau plismona yn cael eu hariannu'n barhaus (gan gynnwys y gofyniad i gyflawni gweithrediadau eithriadol neu annisgwyl).Dylai'r gyllideb flynyddol gynnwys swm realistig o arian wrth gefn gweithredol i fod ar gael i'r Prif Gwnstabl i gwrdd â blaenoriaethau gweithredol, heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol.

6.11 Bydd y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigonol i ariannu anghenion gweithredol y gellir eu rhagweld, drwy gyflwyno achos busnes fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses gosod cyllideb flynyddol i'r Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd) a'r Comisiynydd, er mwyn i eitemau gwariant untro gael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

6.12 Dylai'r achos busnes gynnwys ystyriaeth o lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau mawr a gofynion gweithredol eraill, faint o gronfeydd wrth gefn y mae eu hangen ac amserlenni ar gyfer eu defnyddio.

6.13 Bydd cymeradwyo achosion busnes ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn amodol ar y terfynau awdurdodi a nodir yn y Rheoliadau Ariannol, i gynorthwyo i wneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd.

## 7. Cronfeydd wrth gefn cyffredinol

7.1 Mae '*Nodyn cyfarwyddyd ar gronfeydd wrth gefn a balansau awdurdodau lleol*' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn nodi bod angen cronfa wrth gefn gyffredinol i weithredu fel "*balans gweithredol i helpu i liniaru effaith llif arian*

*anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen – mae hyn yn rhan o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol*". Mae angen cronfa wrth gefn gyffredinol hefyd i weithredu fel "*cronfa wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau neu argyfyngau annisgwyl – mae hyn hefyd yn rhan o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol*".

7.2 Er nad yw CIPFA yn pennu isafswm neu lefel optimaidd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol, ei ganllawiau cyffredinol yw sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli *"adnoddau a neilltuwyd at ddibenion megis cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian".*

7.3 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chyffredinol yn un yn unig o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth lunio'r CATC a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn benodol. Dylid ystyried y rhagdybiaethau ariannol allweddol sy'n sail i'r gyllideb, ochr yn ochr ag ystyriaeth o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad.

7.4 Cedwir y gronfa wrth gefn gyffredinol ar £5.512 miliwn, a fydd yn darparu gwydnwch ariannol i liniaru beichiau anghyffredin ac annisgwyl.

## 8. Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd

8.1 Mae'r cod cyfrifyddu cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i ddiben, defnydd a sail trafodion y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gael eu nodi'n glir. Bydd adolygiad o ddiben a lefel y cronfeydd wrth gefn yn cael ei gynnal yn flynyddol yn ystod y broses o bennu'r gyllideb a bydd manylion y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnwys yn y nodyn perthnasol i'r datganiad o gyfrifon.

8.2 Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu categoreiddio naill ai fel cronfeydd "defnyddiadwy" neu gronfeydd "na ellir eu defnyddio". Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn cael eu cefnogi gan adnoddau, ac felly nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol.

8.3 Mae'n bolisi gan y Comisiynydd i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo i ariannu pryniannau anghylchol a lliniaru cyfnodau brig mewn proffiliau gwariant i leihau'r effaith ar braesept y dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn i leihau'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf, os yw'n briodol, a fydd yn ei dro yn lleihau'r ddarpariaeth isafswm refeniw a godir ar y cyfrif refeniw yn flynyddol.

8.4 Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu hasesu'n flynyddol fel rhan o'r broses CATC ond hefyd yn ystod y flwyddyn ac yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddir ystyriaeth i'r gofyniad parhaus am yr holl gronfeydd wrth gefn y gellir eu hailddyrannu fel y bo'n briodol. Bydd lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd felly yn amrywio'n flynyddol ond

bydd bob amser modd ei gyfiawnhau a bydd yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw lefelau'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn rhy uchel nac yn rhy isel. Pe bai'r Comisiynydd yn barnu bod lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ganddo yn uwch a thu hwnt i'r lefelau sy'n rhesymol ofynnol ac a glustnodwyd yn benodol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, gall y Comisiynydd ddychwelyd cronfeydd wrth gefn i'r cyhoedd. Mae hyn i'w gyflawni trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn gyntaf i ariannu buddsoddiadau untro.

8.5 Mae yna hefyd nifer o gronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio ar hyn o bryd sy'n cynnwys:

- **Cronfa ailbrisio wrth gefn** – Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn cynnwys yr enillion sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol. Gostyngir y balans pan fydd asedau ag enillion cronedig yn cael eu hailbrisio am i lawr neu eu lleihau, eu defnyddio trwy ddibrisiant, neu eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.
- **Cyfrif addasu cyfalaf** – Mae'r cyfrif addasu cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol.
- **Cyfrif absenoldebau cronedig** – mae'r cyfrif absenoldebau cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar falans y gronfa gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r cyfrif neu ohono.
- **Cronfa bensiynau wrth gefn** – Mae'r gronfa bensiynau wrth gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol.

## 9. Fframwaith adrodd

9.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd ymddiriedol i drethdalwyr lleol a rhaid iddo fod yn fodlon bod y penderfyniadau a wneir ar falansau a chronfeydd wrth gefn yn cynrychioli stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

9.2 Bydd lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu llywio gan gyngor a barn y Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd).Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ddod i'w benderfyniad, bydd y Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd) yn adrodd ar y ffactorau a ddylanwadodd ar ei farn ac yn sicrhau bod y cyngor a roddir yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn y CATC. Fel isafswm, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys datganiad fydd yn

trafod y canlynol:

- manylu ar lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol ac unrhyw symudiadau ar y gronfa;
- digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, mewn perthynas â gwariant ac amcangyfrif o ddarpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r CATC;
- sut mae cronfeydd wrth gefn wedi newid dros amser;
- yr adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys amcangyfrifon o'r balansau diwedd blwyddyn. Bydd y datganiad yn rhestru'r gwahanol gronfeydd wrth gefn, eu diben, pryd y cânt eu defnyddio a lefel briodol; a
- asesiad o'r risg y bydd digwyddiadau mawr (gweithredol ac anweithredol) yn digwydd, a adlewyrchir yn y gyllideb a'r CATC.

9.3 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddarparu'n flynyddol, yn seiliedig ar amcangyfrifon, i'r Comisiynydd cyn cymeradwyo praesept y dreth gyngor, gyda sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn hefyd yn cael ei hystyried yn flynyddol fel rhan o gymeradwyaeth y Comisiynydd i'r datganiad o gyfrifon.

9.4 Fel yr amlinellwyd uchod, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau penodol ar gronfeydd ariannol wrth gefn yr heddlu ym mis Ionawr 2018 sy'n ceisio mwy o dryloywder ar draws y gwasanaeth i ddangos cynlluniau defnyddio clir. Mae'r fframwaith adrodd a fanylir arno uchod yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn.

## 10 "Cost cyfle" dal cronfeydd wrth gefn

10.1 Mae'r archwilwyr allanol yn annog datganiad o fewn y polisi cronfeydd wrth gefn ar gost cyfle cadw cronfeydd wrth gefn. Mae "cost cyfle" yn derm theori economaidd, sy'n golygu os ydych chi'n gwario rhywbeth ar un peth na allwch chi ei wario ar rywbeth arall.

10.2 O'i gymhwyso i'r cronfeydd wrth gefn, mae hyn yn golygu, os cedwir cronfeydd wrth gefn sy'n rhy uchel, yna mae sefydliad yn colli'r cyfle i ostwng y dreth gyngor. Fodd bynnag, nid yw'r ddamcaniaeth hon yn addas iawn yn ymarferol lle gellir capio lefelau cynnydd yn y dreth gyngor.

10.3 Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, mae'r Comisiynydd yn ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau untro. Ystyrir bod hyn yn ddefnydd mwy cynaliadwy o gronfeydd 'dros ben' ac yn lleihau'r effaith ar braesept y dreth gyngor. Wrth i gronfeydd wrth gefn leihau, mae'r cyfle i wneud hyn yn lleihau.

10.4 Mae'n hanfodol bod penderfyniadau'r Comisiynydd ar gronfeydd wrth gefn yn cael eu cyfleu'n glir i drethdalwyr lleol er mwyn hyrwyddo atebolrwydd.

## 11 Darpariaethau

11.1 Mae angen darpariaethau ar gyfer unrhyw rwymedigaethau ansicr o ran amseru neu symiau yr aethpwyd iddynt. Mae angen cydnabod darpariaethau pan:

- mae gan y Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl rwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a
- gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

11.2 Ystyrir bod trosglwyddo buddion economaidd neu 'ddigwyddiad arall' yn debygol os yw'r digwyddiad yn fwy tebygol na pheidio o ddigwydd. Os na chaiff yr amodau hyn eu bodloni, ni ddylid cydnabod unrhyw ddarpariaeth.

11.3 Bydd y gofyniad am ddarpariaethau'n cael ei asesu'n rheolaidd.

## Atodiad E – Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

| Reserve Heading | Description | Home Office Classification | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2025 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2026 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2027 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2028 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2029 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| General Reserves | In accordance with CIPFAs Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances, the Commissioner also maintains a General Reserve to act as a working balance to help cushion the impact of uneven cash flows and avoid unnecessary temporary borrowing, and a contingency to cushion the impact of unexpected events or emergencies. | C | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 | -5,511,704 |
| **Total General Reserve** | | | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** | **-5,511,704** |
| Sexual Assault Referral Centre (SARC) Reserve | To mitigate anticipated costs arising from the regionalisation project for Sexual Assault Referral Centres. | A | -53,572 | -53,572 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Insurance and Litigation Reserve | To assist in mitigating the financial impacts of changes to self-insured levels as a consequence of increases in insurance premiums and litigation exposure. | C | -370,542 | -370,542 | -184,383 | -0 | -101,918 | -101,918 |
| Budget Mitigation Reserve | To support one-off, unexpected or unavoidable cost pressures. | A | -731,256 | -490,218 | -255,652 | -255,652 | -255,652 | -255,652 |
| Police Education Qualifications Framework (PEQF) | Funding for transition from PEQF scheme | A | -85,814 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Forensic Alliance Reserve | Funding for transition project | A | -137,618 | -15,613 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chief Constable Operational Fund | This reserve assists in mitigating against the consequential costs of notable peaks in operational activity. | C | -545,755 | -545,755 | -342,192 | -269,493 | -269,493 | -214,309 |
| Driver Retraining Scheme Reserve - Chief Const | This reserve is to support activities in relation to road and community safety initiatives. | A | -391,780 | -0 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Revenue Transformational Projects Reserve | This reserve was set up to fund activities seeking to deliver organisational transformational projects. | A | -252,625 | -43,625 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Proceeds of Crime Act Reserve | Funds are allocated as a result of confiscation orders arising from proceeds of crime. The reserves are utilised to support operational activities which assist in bringing criminals to justice. | B | -371,297 | -277,297 | -240,637 | -175,637 | -110,637 | -63,949 |
| Neighbourhood Policing Guarantee Reserve | Funding for additional recruits in Neighbourhood Policing | A | 0 | -1,221,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Commissioner's Fund | This reserve is to support Term 3 Police and Crime Plan priorities. | A | -116,503 | -116,503 | -116,503 | -116,503 | -116,503 | -116,503 |
| Ill Health Retirement Reserve | This reserve is to fund ill health medicals costs due to delays in the medical assessments arrangements. | A | -215,772 | -215,772 | -215,772 | -215,772 | -215,772 | -215,772 |
| Forfeiture Reserve | Money seized under Section 27 Misuse of Drugs Act 1971 and following forfeiture at Court is transferred to the Forfeiture Reserve for use by the Commissioner. The reserves are utilised to fund operations targeting drug related crime and drug abuse. | A | -124,174 | -124,174 | -59,174 | -35,313 | -35,313 | -35,313 |
| Sale of Found Property Reserve | The Sale of Found Property Fund is made up of monies received by the Commissioner from the sale of found property. It is current policy to provide annual donations to local charities. | A | -18,342 | -18,342 | -18,342 | -18,342 | -18,342 | -18,342 |

# Atodiad E – Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

| Reserve Heading | Description | Home Office Classification | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2025 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2026 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2027 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2028 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2029 | FINAL CLOSING BALANCE 31/3/2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Driver Retraining Scheme Reserve - Commission | This reserve is to support activities in relation to road and community safety initiatives. | A | -991,815 | -848,695 | -619,079 | -301,232 | -38,091 | 0 |
| Police Race Action Reserve | This reserve is to fund a Police Race Action Plan Co-ordinator position to take forward this piece of work substantively. | A | -76,790 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Innovation Reserve (RPA) | This reserve is to enhance the delivery of RPA, continuous development, and Power BI dashboard development. | A | -640,381 | -640,381 | -390,381 | -140,381 | 0 | 0 |
| People Services and Organisational Development | This reserve is to fund changes within the People Services Department. This includes appointing a Head of Training/Talent, Wellbeing Lead, and Counselling Support to manage the wider recruitment and retention challenges. | A | -125,680 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Disciplinary Hearing Reserve | This reserve is to fund a part time post to manage the workloads of disciplinary hearings. | A | -42,375 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Office of Police and Crime Commissioner Reserv | Funding to meet additional costs to backfill statutory role due to long term absence. | A | -83,622 | -83,622 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Commissioning Services Reserve | To support in-year cost increases due to recent changes in contract arrangements. | A | -157,318 | -157,318 | -115,960 | -115,960 | -115,960 | -115,960 |
| PCC Innovation Funding Reserve | To deliver innovation projects in line with the Commissioners priorities | A | -1,766,695 | -1,327,695 | -1,177,695 | -1,177,695 | -1,177,695 | -1,177,695 |
| Police Cadet's Reserve | One-off funding to support activity for Cadets | A | -59,905 | -59,905 | -59,905 | -59,905 | -59,905 | -59,905 |
| **Total Specific Earmarked Revenue Reserves** | | | **-7,359,631** | **-6,610,029** | **-3,795,675** | **-2,881,885** | **-2,515,281** | **-2,375,318** |
| **Capital Reserves** | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Other Earmarked Capital Reserves | This reserve will be used to support the significant capital investment in Estates, Information Communication Technology and Fleet, as outlined within the MTFP and Capital Strategy. | A | -7,837,809 | -4,569,809 | -1,384,809 | -654,809 | -0 | -0 |
| Capital Reserve - CCTV | Earmarked capital reserve to fund Closed Circuit Television Cameras. | A | -1,081,830 | -1,081,830 | -1,081,830 | -769,830 | 0 | 0 |
| General Capital Grant | To support the capital programme | A | -106,446 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total Specific Earmarked Revenue Reserves** | | | **-9,026,085** | **-5,651,639** | **-2,466,639** | **-1,424,639** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **TOTAL USEABLE RESERVES** | | | **-21,897,420** | **-17,773,372** | **-11,774,018** | **-9,818,228** | **-8,026,985** | **-7,887,022** |
| Less General Capital Grant | | | 106,446 | 106,446 | 106,446 | 106,446 | 106,446 | 106,446 |
| **Transfer to/from Reserves (Note to the Accounts)** | | | **-21,790,975** | **-17,666,927** | **-11,667,573** | **-9,711,783** | **-7,920,540** | **-7,780,577** |

| Home Office Police Finance Reserve | Classifications |
|---|---|
| Funding for planned expenditure on projects and programmes over the period of the current medium financial plan | A |
| Funding beynond the current planning period for specific projects and programmes | B |
| A general contingency or resource to meet other expenditure needs held in accordance with sound principles of good financial management | C |

*Classifications as outlined in the Home \office guidance on Police Finance Reseves which was issued January 2018*

## Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

### 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf i ddangos bod penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddi yn cael eu gwneud yn unol â'r canlyniadau dymunol ac yn ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

1.2 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i gynhyrchu blaenraglen gyfalaf y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd).Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cymeradwyo a monitro gwariant cyfalaf, yn amlinellu sut y rheolir risgiau cysylltiedig ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

1.3 Manylir ar y blaenoriaethau ar gyfer plismona yn yr ardal leol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r ddogfen hon yn cael ei llunio gan y Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau'n ystyried barn pobl leol a phartneriaid, yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd fel y cynrychiolydd etholedig. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throseddu newydd ym mis Ionawr 2025, ac mae'r blaenoriaethau canlynol yn sail i bob agwedd ar gyflawni gweithredol a sefydliadol:

- **Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth;**
- **Cefnogi cymunedau diogel trwy atal niwed;**
- **Cefnogi system gyfiawnder mwy effeithiol.**

1.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn ystyried y Gofynion Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac mae wedi datblygu cynllun cyflawni i gefnogi'r cynllun. Mae ei gyflwyniad gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Mae'r Prif Gwnstabl hefyd wedi datblygu tair blaenoriaeth ar gyfer yr heddlu a fydd hefyd yn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu:

- Ymateb tosturiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio ac erlid troseddwyr yn ddi-baid;

- Gwneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn ddigroeso i'r rhai sy'n delio cyffuriau;
- Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol, ac erlid troseddwyr yn ddi-baid.

1.5 Mae’r Strategaeth Gyfalaf yn arf i gefnogi cynllunio a gweithio corfforaethol ar draws y ddwy gorfforaeth undyn gan helpu i sicrhau bod asedau’n cael eu defnyddio a’u rheoli’n dda. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn dangos sut rydym yn blaenoriaethu, monitro, darparu a gwerthuso ein rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol methodoleg y prosiect.

1.6 Yn ddaearyddol, ardal Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr sy'n cwmpasu dros hanner ehangdir Cymru. Mae’r heriau sy’n gysylltiedig â phlismona ardal wledig yn bennaf, sy’n cynnwys dau borthladd sylweddol, y gosodiadau mawr yn Aberdaugleddau a diwydiant twristiaeth bywiog, yn effeithio’n arbennig arno. Mae asedau cyfalaf, gan gynnwys gorsafoedd heddlu, tai heddlu, mastiau radio, cerbydau a TGCh, ac offer gweithredol arall yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona ar draws yr ardal ac o ran cyflawni blaenoriaethau’r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## 2 Partneriaethau allweddol

2.1 Wrth gyflawni pob elfen o’r strategaeth, mae’r Comisiynydd yn bwriadu rhoi ystyriaeth briodol i’r agenda cydweithio parhaus a bydd yn achub ar bob cyfle i ymgysylltu â heddluoedd cyfagos ac awdurdodau cyfansoddol eraill wrth ddatblygu strategaethau i fynd i’r afael â phroblemau cyffredin. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn ystyried yr angen parhaus i fuddsoddi yn y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn, gan gydweithio â phartneriaid yn y dyfodol.

## 3 Cynaliadwyedd ariannol

3.1 Ers blynyddoedd lawer mae Heddlu Dyfed-Powys wedi elwa ar lefelau sylweddol o gronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd wedi'u hategu gan werthiant adeiladau gweithredol neu dai heddlu.

3.2 Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi bod yn sail i fuddsoddiad cyfalaf yn hanesyddol, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r sefyllfa'n symud i ffwrdd o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i sefyllfa o gyllido naill ai drwy gyllid refeniw uniongyrchol neu fenthyca. Mae hyn felly yn ychwanegu pwysau ar y gyllideb refeniw ac o ganlyniad i braesept y dreth gyngor. Rhaid nodi hefyd ein bod mewn cyfnod parhaus o bwysau refeniw, cynnydd yn y galw ac ansicrwydd ariannol.

3.3 Y dull strategol felly yw buddsoddi mewn seilwaith craidd nawr, a fydd nid yn unig yn cynnig gwelliannau cyffredinol i wasanaethau i’r cyhoedd, ond hefyd yn gwneud y mwyaf o arbedion refeniw i’r dyfodol, trwy ddefnyddio bersonél yr heddlu yn fwy effeithlon a symudol, wedi’i alluogi gan well systemau a seilwaith TGCh craidd arall, e.e. fflyd cerbydau cysylltiedig ac

asedau adeiladau.

3.4 Bydd buddsoddiad cyfalaf hefyd yn ystyried ac yn cael ei ddylanwadu gan weledigaethau cenedlaethol ar gyfer plismona, y gofyniad plismona strategol a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol.

3.5 Bydd yr holl gynigion prosiect ac achosion busnes ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yn canolbwyntio'n glir iawn ar wireddu buddion busnes, o safbwynt ariannol a hefyd o safbwynt anariannol, a fydd yn darparu sylfaen gadarn i lywio penderfyniadau hollbwysig.

## 4 Cynaliadwyedd amgylcheddol a datgarboneiddio

4.1 Mae Llywodraeth y DU wedi pennu amserlen heriol i'r DU fod yn Sero Net / Carbon Niwtral erbyn 2050 *(Zero Net Strategy: Building Back Greener 2021)*.Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r heddlu wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd a gwneud cynnydd cynnar o ran lleihau allyriadau carbon. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu strategaeth gynaliadwyedd sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws plismona yng Nghymru fel rhaglen gydweithredol.

4.2 Fel rhan o ddull Cymru gyfan, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae eu rhan yn y cyd-destun strategol hwn sy'n nodi'r uchelgais ar gyfer datgarboneiddio ac ymrwymiad i wasanaeth heddlu cynaliadwy, hirdymor yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni carbon sero net bydd angen trawsnewid y systemau sy'n rhan o asgwrn cefn ein gweithrediadau, gan gynnwys trafnidiaeth, defnydd ynni, caffael nwyddau a gwasanaethau a'r amgylchedd adeiledig.

4.3 Mae Polisi Cynaliadwyedd yr heddlu a Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio hefyd wedi'u cymeradwyo i ategu strategaeth Cymru gyfan ehangach. Mae hyn yn ymrwymo Heddlu Dyfed-Powys i ddod yn heddlu cynaliadwy – ei nod yw darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bob un o'r ardaloedd plismona lleol drwy ddarparu lle diogel i fyw a gweithio ynddo, sy'n cyd-fynd â'n cynllun sefydliadol strategol:

- Sefydlu llinell sylfaen ôl troed carbon ar lefel yr heddlu a'r adrannau drwy ein dogfennau Mantolen Data Carbon blynyddol;
- Nodi potensial lliniaru ar lefel adrannol drwy ein Hadroddiadau Asesiad Hunan-dystiolaeth;
- Datblygu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio ar lefel adrannol, gan ddefnyddio ein tracwyr cynllun gweithredu addasu a datgarboneiddio;
- Datblygu cynlluniau ar gyfer nodau cynaliadwy ar lefel adrannol drwy ddefnyddio ein tracwyr cynllun gweithredu addasu a datgarboneiddio a'n prosesau caffael;
- Monitro cynnydd drwy adolygu cynnydd tracwyr cynllun gweithredu addasu a datgarboneiddio ac adrodd i'r Bwrdd Llywio Cynaliadwyedd;
- Mesur manteision drwy adolygiadau ôl-weithredu o gamau ein tracwyr cynllun gweithredu addasu a datgarboneiddio, adroddiadau asesu hunan-dystiolaeth a dadansoddi contractau caffael.

4.4 Gan ddefnyddio tair conglfaen cynaliadwyedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), mae Heddlu Dyfed-Powys yn anelu at adeiladu llwyfan cadarn ar gyfer cyflawni ei ganlyniadau gwrthrychol.

4.5 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol iawn o'i rwymedigaethau mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol a bydd yr ystyriaethau hyn yn rhan annatod o'r holl gynigion buddsoddi cyfalaf.

## 5 Rhaglen gyfalaf

5.1 Mae asedau'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau effeithlon a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae strategaethau ar gyfer rheoli ystadau, TGCh a phrynu cerbydau newydd yn sail i'r strategaeth gyfalaf, wrth ddarparu'r manylion ar gyfer hirhoedledd a'r cylchoedd adnewyddu optimwm ar gyfer yr eitemau hyn.

5.2 Mae’r rhaglen gyfalaf a’r cyllid sy’n cwmpasu’r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 hyd at 2031/32 wedi’u crynhoi isod:

**Tabl 1 – Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – 2031/32**

| **Capital Programme** | **Updated 2025/6** | **Original 2026/7** | **2027/8** | **2028/9** | **2029/30** | **2030/1** | **2031/2** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Land and Buildings | 11,058 | 16,735 | 4,585 | 5,453 | 3,170 | 4,616 | 3,125 |
| Vehicles | 2,533 | 1,994 | 2,472 | 3,307 | 3,834 | 3,883 | 3,934 |
| IT and other strategic spending | 3,966 | 6,619 | 4,442 | 5,200 | 3,488 | 3,228 | 3,001 |
| **Capital Expenditure** | **17,557** | **25,348** | **11,499** | **13,959** | **10,492** | **11,728** | **10,060** |
| Borrowing | (10,365) | (17,947) | (4,391) | (6,619) | (3,635) | (3,502) | - |
| Contributions from Revenue Account | (2,718) | (4,166) | (5,016) | (5,866) | (6,807) | (8,176) | (10,010) |
| Capital Receipts | (1,100) | (50) | (1,050) | (50) | (50) | (50) | (50) |
| Capital Reserves and Grants | (3,374) | (3,185) | (1,042) | (1,425) | - | - | - |
| **Capital Financing** | **(17,557)** | **(25,348)** | **(11,499)** | **(13,959)** | **(10,492)** | **(11,728)** | **(10,060)** |

5.3 Mae gwaith wedi parhau drwy'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r CATC i ystyried gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy. Er ei bod yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ac ansicrwydd, mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn cynnwys rhaglen gyfalaf, a ddangosir yn Atodiad G, sy'n cwmpasu cyfnod dangosol o 10 mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hailystyried wrth i eglurder ymddangos ac yn flynyddol, fel rhan o'r broses gyllideb ffurfiol a gosod praesept.

## 6 Ystadau

6.1 Mae strategaeth ystadau gan y Comisiynydd sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad clir ynghylch gofynion strategol a gweithredol ystadau Heddlu Dyfed-Powys yn y dyfodol ac sy'n rhoi eglurder o ran dyraniad cyllideb a gofynion buddsoddi yn y dyfodol.

6.2 Nod y strategaeth hon yw:

- Creu ystad effeithlon, addas i'r diben a chynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian ac yn hwyluso gweithio hyblyg yn unol â'r cynllun heddlu a

throseddu;
- Darparu ystad sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch i swyddogion a staff a gwybodaeth;
- Darparu gwasanaeth gweladwy a hygyrch sy'n galluogi gweithio amlasiantaeth ac yn hyrwyddo plismona gweladwy.

6.3 Bydd yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:
- Buddsoddi yn y portffolio, fel y bo angen, er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol llawn;
- Gwerthu eiddo gwag a diangen;
- Cyfnerthu a chydweithio ag aelodau a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol;
- Dadgarboneiddio'r ystad drwy waith ôl-osod/amnewid asedau effeithiol, cynnal a chadw refeniw a phrosiectau buddsoddi i arbed;
- Cyflwyno cyfleuster newydd Aberhonddu i ddarparu cyfleuster plismona a dalfa cydweithredol yn Ne Powys.

6.4 Mae trefniadau llywodraethu o amgylch ystadau yn parhau i gael eu hadolygu ac maent wedi parhau i ddarparu craffu cadarn yn ystod 2025/26. Mae hyn wedi parhau i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ac mae’r cysylltiad cynhenid rhwng gofynion gweithredol a darpariaeth ystadau wedi’u halinio i gefnogi gwasanaethau plismona.

6.5 Bydd yr holl fuddsoddiadau a phenderfyniadau arfaethedig yn cael eu hasesu i ystyried y meini prawf canlynol:
- Lleoliad: Yn weithredol addas i'r diben;
- Statws wynebu'r cyhoedd: Wynebu cwsmeriaid;
- Cyflwr cyffredinol yr eiddo a'r baich ariannol;
- Lle mae cynhyrchu ynni neu leihau ynni yn lywiwr allweddol, asesir adenillion ar fuddsoddiad.

6.6 Mae’r Grŵp Ystadau Strategol yn parhau i ddefnyddio meini prawf asesu risg prosiect i gynorthwyo gyda blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf yn unol â meini prawf fforddiadwyedd ariannol:
- Risg i effeithiolrwydd gweithredol (gan gynnwys gweithio'n gallach);
- Risg o beidio â bodloni gofyniad deddfwriaethol neu statudol gan gynnwys achrediad y Sefydliad Safonau Rhyngwladol;
- Risg i adeiladwaith/ system adeiladau, sy'n cynyddu costau gyda goblygiadau hirdymor;
- Risg i enw da'r heddlu a'r comisiynydd (gan gynnwys trefniadau partneriaeth);
- Risg i iechyd a diogelwch;
- Risg i ddiogelwch y safle;
- Cyfraniad at ddadgarboneiddio a chynaliadwyedd.

6.7 Mae gwaith uwchraddio parhaus sy'n cyd-fynd â'r arolygon o gyflwr hanesyddol a'r cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni o fewn y cyfnod diwethaf, gyda'r camau dylunio cyn-adeiladu a thendro yn cymryd llawer

mwy o amser nag a ragwelwyd. Mae hyn wedi arwain at danwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, a gafod ei drosglwyddo i'r cyfnod ariannol nesaf i fynd ymlaen i'r cam cyflawni/adeiladu. Mae'r ystyried a cheisio cyllid grant yn parhau, ond mae cyfleoedd i wneud cais am gynlluniau wedi lleihau'n sylweddol ac mae ymdrechion i wneud cais wedi bod yn aflwyddiannus yn y cyfnod diwethaf.

6.8 Mae'r arolwg cyflwr blaenorol, y meincnodi, a'r dadansoddiad o amseroedd cofnodi troseddau/ymateb i ddigwyddiadau wedi helpu i lywio'r strategaeth ystadau wrth benderfynu pa eiddo i'w cadw, a lle mae angen cynllunio symudiadau a newidiadau llety yn y dyfodol i fodloni gofynion gweithredol. Mae'r gwaith hwn wedi parhau i roi eglurder ar y lleoliadau gweithredol gorau posibl ar gyfer canolfannau plismona, ac wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyfleoedd cydweithio yn y dyfodol sydd wedi'u rhoi ar waith yn ystod y cyfnod diwethaf, ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

6.9 Mae strategaeth ystadau Sir Benfro wedi parhau i fod yn faes allweddol y canolbwyntir arno sydd wedi ein galluogi i symud cyfnodau cynllunio a chaffael yn eu blaen ar gyfer canolfannau heddlu newydd. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu, gan ganiatáu cynllun ar gyfer gosod celfi a symud i mewn i'r adeilad ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae buddsoddiad sylweddol yng nghyfleuster Hwlffordd yn cyd-fynd â'r strategaeth gyffredinol a'r bwriad i aros yn y ganolfan hon, a gweithredu ohoni, am flynyddoedd lawer i ddod.

6.10 Mae prosiect Aberhonddu i ddarparu canolfan heddlu newydd, uned ddalfa a chynnal a chadw cerbydau wedi symud ymlaen i gam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (cam dylunio a chynllunio cychwynnol). Barnwyd bod y dyluniad adeiladu traddodiadol cychwynnol a'r llwybr costau trwy Willmott Dixon o dan gytundeb fframwaith yn rhy drud. Arweiniodd hyn at adolygiad o ddulliau adeiladu eraill a llwybrau i'r farchnad, gan arwain at adolygiad o adeiladau dalfa modiwlaidd, ymweliadau â safle ac astudiaethau achos. Mae hyn wedi arwain at ddull a dyluniad newydd sy'n darparu datrysiad dalfa hirdymor mwy fforddiadwy. Mae gwell dealltwriaeth o gwmpas, cost ac amserlen bellach yn rhoi mwy o eglurder ar y cynllun. Mae'r amcangyfrif cyllideb wedi codi o £8.5 miliwn i £8.9 miliwn, gyda'r disgwyliad y dylid nodi cyfleoedd i arbed arian a darparu mwy o sicrwydd o ran cost yn y cam dylunio manwl nesaf. Bydd y cynllun yn symud ymlaen i'r cam tendr a chynllunio ar ddechrau'r flwyddyn galendr, a disgwylir i'r penderfyniad a ffurflenni cost tendr gael eu cwblhau erbyn ail chwarter 2026. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno dros y blynyddoedd ariannol 2026/27 a 2027/28.

6.11 Mae'r gofyniad am gyfleuster hyfforddiant arfau saethu i gefnogi cyd-uned arfau tanio gydweithredol lluoedd de Cymru yn parhau. Barnwyd nad yw'r maes tanio bresennol yn addas i'r diben ac mae angen cyfleuster newydd i ddiwallu'r anghenion hyfforddi helaeth iawn a'r gofynion cyfreithiol ar gyfer swyddogion arfau saethu. Mae'r cynllun gwerth £59.3 miliwn (y mae £15.8 miliwn ohono yn gyfran Heddlu Dyfed-Powys) yn mynd rhagddo'n dda.

Mae'r uwchstrwythurau wedi'u cwblhau, mae'r holl adeiladau bellach yn dal dŵr, ac mae gwaith atgyweirio cyntaf, seilwaith ac elfennau adeiladu allweddol yn mynd rhagddynt. Bu oedi oherwydd tywydd garw a newidiadau cleientiaid technoleg TG/diogelwch yn ystod y cyfnod, gyda'r gwaith cwblhau ymarferol wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref 2026. Disgwylir i drefniadau wrth gefn y cynllun gynyddu, a rhagwelir baich pellach o £267,000 ar y cynllun cyn ei gwblhau. Mae llywodraethu cadarn ar bob lefel yn mynd rhagddo, ac mae’r bwrdd platinwm dan gadeiryddiaeth ein Comisiynydd.

6.12 Yn ogystal â'r datblygiadau mawr hyn, bydd rhaglen asesu risg barhaus ar gyfer gwaith cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio. Mae blaenoriaethu gwaith yn cael ei adolygu ar sail ffactorau risg sy'n cyd-fynd â chyflwr yr adeiladwaith a'r meddiannydd, gofynion deddfwriaethol ac ystyriaethau parhad busnes, sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac amserlenni. Mae arolygon cyflwr wedi'u cynnal yn flaenorol ar draws yr ystad gyfan gan bennu lefel y buddsoddiad y mae ei angen ym mhob lleoliad yn ôl pob elfen is-adeiledd. Mae'r gwaith hwn yn parhau i ddarparu cynllun cynnal a chadw cyfalaf cadarn ymlaen llaw, sy'n darparu offeryn byw sy'n caniatáu proses strwythuredig a gwybodus o wneud penderfyniadau, wedi'u hasesu ochr yn ochr â fforddiadwyedd.

6.13 Mae'n werth nodi bod y gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ac LED, a buddsoddiadau gwresogi oeri/rheolaethau ystadau ehangach yn y cyfnod blaenorol ac yn ystod y flwyddyn, yn parhau i ddarparu gostyngiad sylweddol parhaus yn y defnydd o gyfleustodau a chost carbon i'r sefydliad.

6.14 Mae prosiect fferm solar ym mhencadlys yr heddlu yn mynd rhagddo'n dda, ac mae caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo. Mae’r Rhwydwaith Cenedlaethol hefyd wedi cymeradwyo’r gost a'r hawl i gysylltu â seilwaith y rhwydwaith. Mae ffurflenni tendr wedi dod i law, ac mae gwaith amodau cynllunio a manylion cysylltu â'r seilwaith presennol yn cael eu cwblhau, gan ganiatáu i achos busnes terfynol gael ei gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Y nod yw cyflawni'r gwaith yn chwarter 1 2026/27 pan fydd tywydd gwell yn galluogi cynnydd cyflym.

6.15 Mae'r gyllideb gyfalaf yn ategu cyllideb refeniw ganolog ar gyfer gwaith adeiladu mawr cylchol ac wedi'i gynllunio, sydd wedi'i raglennu ar sail risg a strategaethau ar gyfer y dyfodol ar gyfer pob adeilad. Mae adnoddau refeniw hefyd yn cael eu cadw a'u rheoli'n lleol ar gyfer atgyweiriadau ar raddfa lai a mentrau/rhaglenni cynnal a chadw, sy'n mynd rhagddynt mewn modd gwybodus a strwythuredig.

6.16 Mae'r sefydliad yn parhau i ymgorffori gwaith i ddatgarboneiddio'r ystad yn unol â ffyrdd gweithio hyblyg ac effeithlon. Mae'r dull hwn yn parhau i gael goblygiadau tymor canolig a hirdymor ar gyfer swyddogaethau'r ystad a TGCh. Mae nifer o symudiadau, newidiadau a chyfuno lle yn ystod y flwyddyn wedi arwain at ryddhau mwy o le ar gyfer hybu cyfleoedd cydweithio tenantiaethau golau glas allanol. Mae hyn wedi lleihau y baich

ein hystad ac wedi cynyddu ein cyfleoedd i gynhyrchu incwm.

6.17 Mae'r ddarpariaeth Gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau, gan weithio gyda phartïon eraill yn y sector cyhoeddus ar gyfer tendro contractau gwasanaeth penodol, wedi arwain at fwy o ddylanwad yn y broses gaffael eleni. Mae gwybodaeth reoli fanwl wedi'i halinio â chyflawni cydymffurfedd ac adrodd ar gydymffurfedd statudol gadarn wedi ein galluogi i ddangos gwerth a thrylwyredd yn y ffordd y caiff yr ystad ei rheoli a'i chynnal. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylfaenol i'r swyddogaeth Ystadau, gyda mwy o wybodaeth adrodd a rheoli yn cael ei defnyddio i lywio proses uniongyrchol a dilys o wneud penderfyniadau, gan roi mwy o sicrwydd ar gyfer llywodraethu'r swyddogaeth.

## 7 Fflyd

7.1 Mae'r heddlu'n sicrhau bod cyfansoddiad y fflyd yn parhau i gyd-fynd â'r galw a'r gofyniad gweithredol sy'n esblygu trwy'r Grŵp Defnyddwyr Fflyd a'r Grŵp Rheoli Fflyd Strategol, yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol a osodwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Genedlaethol Rheolwyr Fflyd yr Heddlu (NAPFM).

7.2 Mae'r rhaglen gyfalaf yn adlewyrchu'n llawn y gofynion ar gyfer prynu cerbydau newydd, yn seiliedig ar ystyriaethau gwerth am arian prynu o gymharu â chostau gwasanaethu, yn ogystal ag ystyried nodau cynaliadwyedd. Mae data telemateg wedi cael eu defnyddio, a bydd yn parhau i gael eu defnyddio, i fonitro’r defnydd o gerbydau, ac mae addasiadau i'r galw am gerbydau o fewn rhai ardaloedd yn cael eu hasesu.

7.3 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o ran cynaliadwyedd ac wedi buddsoddi mewn cerbydau trydan a seilwaith gwefru. Mae targed cychwynnol o 18.25% ar gyfer cerbydau trydan a hybrid, a osodwyd ar gyfer 2024/25, wedi'i gyflawni, gyda'r fflyd bresennol yn 6.68% o gerbydau trydan a 19.60% hybrid, gan wneud y fflyd yn 26.28% cerbydau trydan neu hybrid ar y cyfan. Fel rhan o'r broses o bontio i gerbydau trydan, rydym yn asesu a ddylid cyflwyno rhagor o gerbydau trydan i’r Adran Ymchwilio i Droseddau, timau plismona ac atal bro a rhannu cerbydau yn seiliedig ar filltiroedd a seilwaith. Rydym wedi prynu car ymateb trydan wedi'i farcio a fydd yn cael ei dreialu a'i asesu i weld a yw'n addas ar gyfer hyfforddi gyrwyr ac ar gyfer ymgyrchoedd. Yn 2026/27 byddwn yn prynu a threialu fan trydan wedi'i farcio i asesu pa mor addas ydyw ar gyfer ein hardal heddlu. Mae'r adran fflyd yn gweithio'n agos gydag Ystadau er mwyn sicrhau bod seilwaith addas ar waith i gefnogi'r broses o bontio i gerbydau trydan. Fel rhan o hyn, ysgrifennwyd papur cwmpasu cerbydau trydan i dynnu sylw at ystyriaethau a heriau y mae angen i'r heddlu eu hystyried yn ystod y cyfnod pontio hwn.

7.4 Mewn cydweithrediad ag Ystadau, mae Fflyd wedi bod yn rhan o brosiect Gwefru Cydweithrediad Heddlu Cymru, sef grŵp prosiect i weithredu seilweithiau gwefru cerbydau trydan cyson ar draws pedwar heddlu Cymru.

Mae'r cyflenwr diweddaraf wedi tynnu ei hun oddi ar y farchnad sydd wedi oedi cynnydd. Fodd bynnag yn 2025/26 mae proses gaffael wedi mynd rhagddi i nodi cyflenwr newydd, ac mae Heddlu Dyfed-Powys yn aros i lofnodi'r contract. Dylai'r cyflenwr hwn sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys seilwaith gwefru cerbydau trydan cyson sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n llawn, gan gynnwys desg gymorth 24/7 a fydd yn cynyddu dibynadwyedd ac argaeledd. Ynghyd ag Ystadau, mae Fflyd am gydweithio â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i rannu seilwaith cerbydau trydan a lleihau'r angen i ddyblygu gwefrwyr mewn ardaloedd tebyg.

7.5 Mae'r fflyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i ddeddfwriaeth a gofynion drwy'r DVLA a Chymdeithas Genedlaethol Rheolwyr Fflyd yr Heddlu. Yn 2025/26 cyhoeddodd y llywodraeth dreth car ar gerbydau trydan ar gyfer 2028/29, a allai gael goblygiadau ariannol i'r heddlu. Mae'r Fflyd yn parhau i gydweithio a monitro goblygiadau hyn yn ogystal ag unrhyw newidiadau eraill sy'n dod i'r amlwg.

7.6 Mae grŵp ffocws wedi'i weithredu i fonitro ymddygiad ac arddulliau gyrwyr gan ddefnyddio telemateg yn 2025/26, ond nodwyd problemau gyda chywirdeb data. Nod y grŵp yw gwneud gweithwyr yn atebol a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi'r gwaith o leihau cyfraddau damweiniau, costau tanwydd, costau teiars a chostau cynnal a chadw. Mae'r problemau data wedi cael eu trosglwyddo i'r prosiect, a gobeithiwn y bydd modd ail-weithredu'r grŵp hwn yn 2026/27.

7.7 Mae'r heddlu yn monitro costau tanwydd ac yn rhagweld, gyda'r newid i gerbydau trydan, y gallem arbed 55% ar danwydd trwy ddefnyddio cerbydau trydan pan fydd cost trydan yr heddlu i fod i ostwng i 26 ceiniog y cilowat yn 2028/29. Yn 2025/26 rydym wedi annog y defnydd o ddiesel disgownt, ac wedi gweithio gydag AllStar i roi cyfyngiadau ar gardiau i gynhyrchu arbedion pellach. Bydd y fflyd yn parhau i weithio gyda chyflenwyr ac Ystadau i geisio lleihau costau tanwydd pan fo modd.

7.8 Mae'r heddlu'n parhau i gydweithio trwy system rheoli cerbydau fflyd a rennir gyda Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru. Mae system newydd i fod i gael ei gweithredu yn 2026/27 a ddylai ddarparu arbedion o ran effeithlonrwydd o fewn y fflyd. Yn 2025/26, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i gwblhau gwaith i Heddlu De Cymru, sy'n cynhyrchu rhywfaint o incwm i'r heddlu. Mae'r fflyd wedi llofnodi contract gyda Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2025/26, ac mae bellach wedi cwblhau ychydig o waith, sy'n ffynhonnell incwm arall i'r heddlu. Yn 2026/27, daw contract system telemateg Heddlu Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru i ben. Mae'r fflyd wedi bod yn cysylltu â'r heddluoedd eraill i ddeall y farchnad a sicrhau bod gennym ddata cywir a gwerth am arian.

7.9 Bydd Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn parhau i gydweithio â Cymdeithas Genedlaethol Rheolwyr Fflyd yr Heddlu (NAPFM) er mwyn asesu technolegau newydd yn barhaus tra'n cysylltu â heddluoedd eraill yn genedlaethol.

## 8 Technoleg gwybodaeth

8.1 Mae'r cynllun cyflawni y cyfeirir ato yn y Strategaeth Ddigidol TGCh ar gyfer y cyfnod 2024–2030 yn parhau i yrru dyheadau digidol yr heddlu a'r seilwaith ategol y mae ei angen ar gyfer y chwe blynedd nesaf. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau'r CHTh ac amcanion cynllun cyflawni cysylltiedig y Prif Gwnstabl. Mae hefyd yn ymgorffori nodau Strategaeth Genedlaethol DDAT (Digidol, Data a Thechnoleg) yr heddlu, a'r nodau a amlinellir yn Strategaeth Seiber Llywodraeth y DU.Ers lansio'r strategaeth, mae’r pwyslais wedi bod ar gyflawni'r cynllun a fynegwyd yn y strategaeth, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro bob chwarter yn y Grŵp Strategaeth TGCh.

8.2 I gyd-fynd â Strategaeth Ddigidol TGCh, cynhyrchwyd dwy strategaeth arall eleni sy'n pwysleisio ymrwymiad a ffocws yr heddlu ar ddata, technoleg ac arloesedd a seiberddiogelwch, sef y Strategaeth Data, Technoleg ac Arloesedd 2025–2029 a'r Strategaeth Seiberddiogelwch 2025–2029.

8.3 Mae'r Grŵp Asesu Syniadau Digidol bellach wedi'i sefydlu ac yn gweithredu'n dda, gyda llif rheolaidd o syniadau'n cael eu cyflwyno. Mae'n darparu un sianel ar gyfer cyflwyno syniadau digidol, ac yn darparu dull cyson o asesu a dull clir a chryf o lywodraethu.Mae'r atebion a ddatblygwyd ar hyn o bryd yn seiliedig ar bedair technoleg wahanol: 1) creu cofnod ymchwilio’r digwyddiad neu dempled dogfen yn Niche; 2) awtomeiddio trwy Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA); 3) MS Forms/MS Power Apps/MS Power Automate; neu 4) creu dangosfwrdd MS Power BI. Bydd hyn yn cael ei ymestyn yn fuan i gynnwys pumed opsiwn o ddeallusrwydd artiffisial, wrth i'r heddlu gyflwyno cynnyrch deallusrwydd artiffisial Microsoft, sef Copilot.

8.4 Mae awtomeiddio digidol yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb mawr ar draws yr heddlu. Ystyrir bod awtomeiddio yn ei wahanol ffurfiau yn ddull realistig a phrofedig o sicrhau arbedion a chynyddu capasiti adnoddau. Yn 2025, mae datblygiad y maes Awtomeiddio Prosesau Robotig wedi cynyddu; mae nifer o weithredoedd awtomeiddio wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus ar draws sawl maes busnes gan gynnwys: y broses Uned Asesu Risg Eilaidd yn y Ganolfan Bregusrwydd, gyda chyfradd llwyddiant o 98%; gwiriadau penodol o fewn y broses gwirio cefndir fetio; y broses o greu cyfrif ar College Learn; y broses o atgoffa unigolion i adnewyddu cais trwyddedu arfau saethu, gyda chyfradd llwyddiant o 98%; gwiriadau cefndir trwyddedu arfau saethu â chyfradd llwyddiant o 98%. Mae'r heddlu yn aelod gweithredol o grŵp o heddluoedd cenedlaethol y De sy’n braenaru awtomeiddio prosesau robotig lle mae prosesau ac arferion gorau yn cael eu rhannu. Yn yr un modd, rydym wedi sefydlu’r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer maes ‘MS Power Applications’ ac ‘MS Power Automate’ er mwyn sicrhau bod llywodraethu a rheolaethau priodol ar waith. Mae nifer o geisiadau wedi dod i law gan y busnes lle rydym naill ai wedi llwyddo i fanteisio ar apiau cenedlaethol sy’n bodoli eisoes, a’u

haddasu, neu wedi datblygu ein rhai ein hunain. Mae ap chwilio Aide Memoire wedi'i addasu ar gyfer canllawiau CSI, sydd ar gael i swyddogion eu cyrchu yn y fan a'r lle, a hefyd gardiau gweithredu sy'n ymwneud â digwyddiadau tebyg i Ymgyrch Plato. Deallusrwydd Artiffisial yw'r maes nesaf y bydd yr heddlu yn ei archwilio, ac mae llawer o heddluoedd eisoes yn gweld meysydd lle gellir ei gymhwyso, gan wneud arbedion sylweddol o ran amser ac effeithlonrwydd.

8.5 Rydym eisoes wedi adnewyddu ein cytundeb Microsoft Enterprise, ac mae'r heddlu bellach yn ystad E5 lawn, gan symleiddio’r broses o reoli'r trwyddedau a galluogi system ffonio Teams i bawb, yn ogystal â nodweddion mwy datblygedig eraill fel labelu awtomatig. Mae cost y contract wedi cynyddu oherwydd y twf yn nifer y defnyddwyr, gweinyddion ychwanegol ar gyfer y datrysiad system rheoli cynnwys, a chynnydd cyffredinol mewn prisiau.

8.6 Mae'r heddlu wedi mudo i Windows 11 erbyn y dyddiad cau o Hydref 2025, oherwydd nad yw Windows 10 yn cael ei gefnogi mwyach. Mae nifer fach iawn yn parhau i ddefnyddio Windows 10 gyda chymorth estynedig i Windows, oherwydd bod angen ymgymryd â gwaith pellach ar y dyfeisiau mwy cymhleth hyn cyn y broses fudo. Defnyddiwyd y gyllideb safonol ar gyfer caffael gliniaduron newydd i lenwi’r bwlch a nodwyd a'i defnyddio ar gyfer prynu dyfeisiau sy'n cydweddu â Windows 11.

8.7 Amnewid y rhwydwaith ardal storio (SAN). Mae'r offer SAN presennol bron yn bum mlwydd oed. Bydd y rhwydwaith ardal storio newydd yr un fath yn safle'r pencadlys a safle adfer argyfwng, gan gynyddu ein gwydnwch o ran y broses adfer argyfwng drwy greu afreidrwydd N+1. Mae ganddo hefyd lefelau gwell o gopïau wrth gefn na ellir eu newid sy'n cwmpasu'r rhwydwaith cyfan, ac amddiffyniad rhag maleiswedd ar lefel y caledwedd.

8.8 Mae gwaith wedi'i wneud fel rhan o ail-fuddsoddiad y Comisiynydd mewn darpariaeth teledu cylch cyfyng ar draws yr heddlu. Fel rhan o'r contract newydd ar gyfer cefnogi a chynnal a chadw system teledu cylch cyfyng mannau cyhoeddus yr heddlu, fe gafodd y rhwydwaith di-wifr ei ailosod yn y contract newydd ac mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod 2025/26. Bydd y buddsoddiad parhaus hwn mewn teledu cylch cyfyng yn sicrhau bod y datrysiad yn parhau i fod yn ddiogel ac yn effeithiol yn weithredol.

8.9 Mae Rheolaeth Mynediad Hunaniaeth Genedlaethol (NIAM) bellach yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mynediad i Gronfa Ddata Gorfodi’r Gyfraith Genedlaethol. Mae'r heddlu wedi datblygu proses Rheoli Mynediad Seiliedig ar Rôl a hawliau awtomataidd i reoli hunaniaethau a hefyd mynediad at swyddogaethau Cronfa Ddata Gorfodi’r Gyfraith trwy hawliau, sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau.

8.10 Mae teleffoni corfforaethol yn cael ei gwmpasu'n bennaf gan naill ai MS Teams, Voice neu MDT. Mae angen rhannu ffonau desg mewn rhai ardaloedd ar draws yr heddlu, megis yn y dalfeydd. Am y rheswm hwn, mae angen prynu trwydded dyfais a rennir Microsoft Teams ynghyd â ffonau sy'n gallu rhedeg meddalwedd Microsoft Teams. Mae'r buddsoddiad mewn dyfeisiau wedi'i ariannu o'r gyllideb gyfalaf a'r trwyddedau o'r gyllideb refeniw.

8.11 Yn ystod 2025, gweithredwyd y copi wrth gefn cwmwl-i-gwmwl M365, ac mae bellach ar waith ac yn gwbl weithredol.

8.12 Mae'r strategaeth gyfalaf i'r dyfodol yn ystyried sawl prosiect TGCh strategol lleol, yn ogystal â nifer o brosiectau ail-gaffael sy'n ymwneud â thechnolegau ac atebion TGCh sydd wedi cyrraedd diwedd contract neu ddiwedd oes offer hanfodol. Y prosiectau cyfalaf TGCh allweddol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod 2026/27 yw fel a ganlyn:

- Daeth cam 1 y system rheoli cysylltiadau newydd yn weithredol yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2024. Roedd cam 1 yn cwmpasu teleffoni brys, system rheoli cyfathrebu integredig. Yn ystod cam 2, bydd yr elfen Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn cael ei rhoi ar waith. Mae hyn wedi cael ei ohirio ac mae Heddlu Gorllewin Swydd Efrog yn ei dreialu a'i brofi ar hyn o bryd. Rhagwelir bellach y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn 2026. Bydd y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd yn integreiddio â systemau Niche a STORM.
- Cyn gweithredu elfen Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y system rheoli cynnwys bydd angen uwchraddio system gorchymyn a rheoli STORM yr heddlu. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r heddlu symud o STORM MA i Smart STORM, a bydd angen i hyn ddigwydd yn 2026.

Mae'r buddsoddiad parhaus yn ein system rheoli cofnodion strategol NICHE RMS yn parhau, gan sicrhau'r canlynol:

- Bydd modiwlau ychwanegol fel “ar goll o'r cartref” yn cael eu gweithredu yn 2026. Y bwriad yw alinio â phroses Swydd Gaer o weithredu “ar goll o'r cartref”. Nid oes unrhyw gost ychwanegol oherwydd ei fod wedi'i gynnwys yn y drwydded.
- Porth Dorset – mae tri o heddluoedd y consortiwm yn awyddus i weithredu Porth Dorset, sydd wedi'i integreiddio â Niche, a fydd yn darparu gallu briffio cyfoethog i heddluoedd. Y bwriad yw cyflawni hyn yn ystod 2026.
- Disgwylir y bydd ffeil achos digidol yn cael ei gynnwys yn uwchraddiad Niche yn 2027. Mae'r prosiect hwn wedi'i ohirio oherwydd bod angen gwaith datblygu ychwanegol o ran datgelu. Disgwylir i Heddlu De Cymru, fel yr heddlu arweiniol, gynnal profion datgelu ym mis Chwefror 2026 a'u gweithredu ym mis Hydref 2026. Bydd y broses o gyflwyno heddluoedd cyfran 1 yn genedlaethol

newydd yn digwydd rhwng 1 Mai 2027 a 31 Awst 2027.

8.13 <u>Rhaglen data symudol PRONTO.</u>

Mae'r heddlu'n parhau i fuddsoddi yn natblygiad parhaus PRONTO – y rhaglen data symudol. Rhestrir y prif ddiweddariadau ar gyfer 2025 isod:

- Cyflwyno eBit 2, difrod troseddol, ac eBit 3, siop-ladrad, a sicrhau bod y ddau wedi'u gweithredu'n llwyddiannus ar 13 Mai 2025 i gyd-fynd â'r uwchraddiad i Niche.
- Cafodd cyflwyno eBit 4, aflonyddu, ei weithredu'n llwyddiannus ar 24 Medi 2025.
- Yn ddiweddarach yn 2025 – DARA a phecyn cymorth Stelcio a Sgrinio a ffurflen iechyd meddwl. Cynhaliwyd gwaith cwmpasu'r broses iechyd meddwl yn haf 2024. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i weithredu yn ystod chwarter 1 2026.

Yn 2026 bydd swyddogaeth newydd yn cael ei hychwanegu at PRONTO: bydd y swyddogaeth 'copïo i' yn cael ei chyflwyno, gan ganiatáu i ddata gael eu copïo rhwng ffurflenni, lleihau'r gwaith o ail-deipio, a hefyd cyflwyno rhai ffurflenni ychwanegol.

8.14 Mae angen gwelliannau pellach i'r Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r heddlu yn cyflogi cwmni arbenigol rhwydwaith trydydd parti i gynorthwyo gyda'r broses o ddylunio rhwydwaith yr heddlu ar gyfer y dyfodol, gan ystyried sut y bydd dulliau diogelwch modern yn dylanwadu ar y dyluniad. Bydd yr offer yn y pencadlys yn dod i ddiwedd oes yn 2025/26 a bydd angen prynu rhai newydd. Bydd hefyd angen prynu offer newydd ar gyfer y rhanbarth yn 2027/28 er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd â Phrosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ynghylch dyfodol y prosiect er mwyn rhoi gwybodaeth am y buddsoddiad y mae ei angen yn y tymor byr i gael caledwedd newydd yn lle'r caledwedd nad yw'n cael ei gefnogi mwyach.

- Bydd contract dyfeisiau amlddefnydd newydd ar waith o 1 Ebrill. Bydd y contract newydd yn golygu y bydd cynnydd bach yn nifer y dyfeisiau amlddefnydd yn yr heddlu, a bydd dyfeisiau'n cael eu cyflwyno i orsafoedd llai.
- Cyflwyno NEC DocDefender – offeryn golygu awtomataidd. Bydd yr offeryn hwn yn galluogi proses adnabod a golygu gyflymach, i guddio neu ddileu cynnwys sensitif ar ffurf gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn, o drawsgrifiadau.

8.15 Cyflwyno camerâu corff AXON Body 4 (AB4) i swyddogion ymateb a chamerâu corff AXON Body 3 (AB3) i'r Adran Ymchwilio i Droseddau. Mae gan AB4 ansawdd sain a fideo gwell nag AB3, ac oes batri estynedig a maes gweld gwell.

8.16 Daw'r contract telemateg gyda Light Bulb Analytics i ben yn 2026, a bydd

gofyniad i gaffael datrysiad newydd. Mae'r broses gaffael ar y gweill ar y cyd â Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent.

8.17 Bydd y broses o gyflwyno deallusrwydd artiffisial ar ffurf Microsoft Copilot ar ddechrau 2026 yn cyflwyno Copilot Chat, sy'n darparu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd gwell, gan ddefnyddio'r cynorthwyydd AI am ddim ar gyfer ein gwaith. Mae'r heddlu yn bwriadu prynu 100 o drwyddedau Copilot llawn a fydd yn caniatáu i ni fod hyd yn oed yn fwy effeithlon trwy gyflwyno asiantiaid AI ac AI annibynnol i feysydd busnes penodol, gan fynd i'r afael ag achosion defnydd penodol.

8.18 Llinellau BT – wrth weithredu cylchedau protocol cychwyn sesiwn (SIP) newydd, a chyhoeddiad BT y bydd yn dirwyn gwasanaethau teleffoni analog i ben, bydd yr adran TGCh yn cael gwared ar linellau ffôn analog o'r ystad.

8.19 Bydd nifer fach o derfynellau data symudol yn cael eu prynu i gwmpasu cychwynwyr/toriadau newydd, gyda chynllun i amnewid dyfeisiau Samsung XCover 6 Pro yr ystad yn 2027.

8.20 Mae'r strategaeth gyfalaf i'r dyfodol yn ystyried rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n cael eu datblygu gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Mae nifer o gynlluniau'n cael eu datblygu'n genedlaethol gan gynnwys y canlynol:

8.21 Cyflwyno fersiwn gwbl weithredol o Gronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith. Cronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith yw'r dewis modern a greddfol ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), ac mae angen ei gyflwyno'n llawn yn 2026, gyda charreg filltir allweddol ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cymryd gweddill 2026 i gwblhau'r holl waith rhyngwyneb rhwng systemau sy'n derbyn porthiant o Gronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith.

8.22 Mae gan rhaglen Digital Public Contact – Cartref Ar-lein Sengl fap trywydd gallu manwl ar gyfer y dyfodol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, a fydd yn gofyn am gefnogaeth barhaus gan y sefydliad er mwyn sicrhau bod ein gwefan gyhoeddus yn datblygu yn unol â'r rhaglen genedlaethol, yn cynnwys y datblygiadau diweddaraf, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg. Mae porth My Police yn cael ei ystyried hefyd.

8.23 Gwasanaeth Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig Cenedlaethol – mae llawer o newid yn digwydd ar y lefel genedlaethol, ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos.

8.24 Mae'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol bellach wedi dod i ben ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo o dan dri llinyn:

- Mae'r gwaith parhaus o reoli M365 Blueprint ac adnewyddu dyluniad yn cael ei wneud ar ran plismona gan Wasanaeth Digidol yr heddlu. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o hyrwyddo'r defnydd

o ymarferoldeb llawn Microsoft Teams – gyda'r nod o fabwysiadu ei set nodweddion gyfoethog yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys dulliau cydymffurfio syml ar gyfer gofyn am westai a thîm. Mae tîm y prosiect yn helpu i drosglwyddo dogfennau a ffeiliau o’r safle i SharePoint ar-lein fesul adran, gyda’r bwriad o ychwanegu dulliau a fydd yn rhoi ffordd syml i staff osod labeli cadw a gyfeirir yn genedlaethol. Oherwydd y gofyniad newydd i sicrhau nad yw data SharePoint a data’r heddlu yn cael eu gor-rannu er mwyn paratoi ar gyfer y broses o gyflwyno Copilot, rydym wedi cael cymorth partner Microsoft i wneud yn siŵr bod yr amgylchedd targed wedi'i sefydlu'n gywir.

- Mae Rheoli Hunaniaeth a Mynediad bellach wedi’i wreiddio ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent i gynorthwyo i gydweithio ar draws y rhanbarth. Mae grŵp cydweithio technegol TGCh Cymru gyfan wedi'i sefydlu a bydd yn edrych ar ffyrdd gwell o ganiatáu mynediad yn achos cyd-unedau.
- Mae'r Ganolfan Fonitro Genedlaethol wedi bod ar waith ers peth amser ac mae'n gweithio'n dda.Fel gwelliant i'r gwasanaeth rydym wedi symud i ddefnyddio Microsoft Sentinel, platfform rheoli gwybodaeth a rheoli digwyddiadau yn y cwmwl. Mae'r heddlu'n cael ei hysbysu am faterion a nodwyd a throsglwyddir y materion i'r heddlu i fynd i'r afael â hwy. Mae'r Ganolfan Fonitro Genedlaethol yn ystyried ehangu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i heddluoedd, ac mae'n debygol o gynnwys galluoedd seiberfforensig rhag ofn y bydd digwyddiad seiber.

8.25 Mae Rhaglen Cyfathrebiadau Symudol y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) wedi ailosodiad rhaglen, ac EE ac IBM yw prif gyflenwyr y gwasanaeth newydd. Dyddiad ailddechrau prosiect presennol ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yw 2025 a bwriedir ei roi ar waith rhwng 2028–2030. Mae IBM wedi contractio gyda Telent i ymweld â phob heddlu i drafod yr adnoddau y mae eu hangen i weithredu’r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN). Bwriedir i hyn ddigwydd yn 2026. Mae hyn wedi arwain at yr angen i ystyried (ar lefel genedlaethol) cynaladwyedd Airwave a’r ffordd orau o gadw rhwydwaith Airwave yn addas i’r diben tan 2026 a thu hwnt. Mae hyn yn golygu y byddwn yn parhau i fod angen radios Airwave a Therfynellau Data Symudol hyd y gellir rhagweld. Mae'r heddlu wedi prynu cymorth estynedig am ddwy flynedd ar gyfer y dyfeisiau presennol yn hytrach na phrynu rhai newydd; mae'r opsiwn hwn yn rhatach o lawer. Mae ymestyn y cyfnod cymorth yn caniatáu i'r heddlu ddefnyddio’r asedau presennol am gyfnod hirach, ac i aros am eglurder gan raglen y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys ynghylch amserlenni dosbarthu a pha ddyfeisiau fydd ar gael i gymryd lle'r offer Airwave.

8.26 System Penderfyniadau a Rheoli Achosion Deinamig – mae ymarfer caffael ar y gweill i gaffael (ar gyfer plismona) ateb TGCh rhyngweithredol cenedlaethol, gan ddarparu gallu cydgysylltiedig a chyson i gofnodi camau gweithredu a gwybodaeth weithredol, i lywio penderfyniadau ar y

lefel uchaf, a chefnogi rheoli achosion o un pen i’r llall. Mae cynlluniau cyfredol yn dangos nad yw'r cynnyrch yn debygol o fod yn barod i'w gyflwyno i'r heddluoedd tan ganol 2027.

8.27 Dyfarnwyd contract newydd i system rheoli trwyddedu arfau saethu genedlaethol ddiwedd mis Hydref 2025, a bydd yn cael ei gyflwyno i bob heddlu erbyn diwedd 2027.

8.28 Mae OMIS 360 (Offender Management and Insights System 360) yn disodli IDIOM (Intelligence Driven Integrated Offender Management). Mae'r offeryn olrhain troseddwyr yn darparu ffordd o fonitro nifer yr unigolion sy'n cael eu rheoli'n integredig ac adrodd ar gyfraddau aildroseddu. Bydd y system bresennol yn cael ei disodli erbyn Mawrth 2026.

8.29 Mae ARIT (Asset Recovery IT) yn cymryd lle JARD, cronfa ddata weithredol sy'n storio manylion am achosion adfer asedau o’r dechrau i’r diwedd (a ddefnyddir gan unedau troseddau cyfundrefnol rhanbarthol ac ymchwilwyr ariannol lleol). Mae'r broses gyflwyno yn dechrau ym mis Gorffennaf 2026.

8.30 Mae System Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPPS) yn disodli ViSOR. Nid yw’r dyddiad cyflwyno yn hysbys ar hyn o bryd.

## 9 Gofynion cyfalaf ac adnoddau

9.1 Ers tynnu cyllid cyfalaf y llywodraeth ganolog yn ôl yn 2023/24, mae’r erydiad hwn wedi achosi baich ychwanegol ar gyllidebau refeniw gyda chyllid cyfalaf yn gorfod cael ei dalu drwy leihau cronfeydd cyfalaf wrth gefn, cynnydd mewn cyfraniadau refeniw uniongyrchol o refeniw a benthyca darbodus, sy’n dod â beichiau ychwanegol hirdymor ar y gyllideb refeniw i ariannu darpariaethau llog a lleiafswm refeniw.

9.2 Yn ogystal â’r amrywiaeth o ofynion buddsoddi ar gyfer seilwaith lleol a rhanbarthol hollbwysig, mae hefyd feichiau ariannol yn deillio o nifer o brosiectau TGCh cenedlaethol gorfodol, sydd yn bennaf y tu allan i reolaeth Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r prosiectau hyn yn parhau i achosi pryder o ran oedi a chynnydd mewn costau, gyda deialog yn parhau rhwng Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Gwnaeth adroddiad Cyflwr Plismona HMICFRS ar gyfer 2021 hefyd sylwadau beirniadol penodol.

9.3 Fel rhan o’i drefniadau cynllunio ariannol a gwasanaeth integredig, mae’r Comisiynydd yn amcangyfrif lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd dilynol er mwyn llunio rhaglen gyfalaf.

9.4 Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhaglen gyfalaf tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant anorfod a thuag at feysydd sy’n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol a rhaglen

gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 i 2034/35 gwerth cyfanswm o £130.898 miliwn.

9.5 Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru’r ffaith bod cyllid grant cyfalaf yn dod i ben, mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r rhaglen gyfalaf yn cynnwys taflwybr cynyddol o gyfraniadau refeniw i gyfalaf gyda benthyca darbodus allanol i gefnogi buddsoddiad mawr mewn seilwaith hanfodol.

9.6 Defnyddir lefel broffiliedig y buddsoddiad cyfalaf ac adnoddau allanol i asesu'r angen am fenthyca tymor byr a hirdymor. Mae’r strategaeth hefyd yn bwydo i mewn i’r ystyriaethau y mae’r Comisiynydd yn eu gwneud yn flynyddol wrth osod lefelau a dangosyddion benthyca darbodus, cynaliadwy a fforddiadwy.

9.7 Gall awdurdodau lleol, gan gynnwys yr heddlu, osod eu lefelau benthyca eu hunain yn seiliedig ar eu hangen cyfalaf a’u gallu i dalu am y benthyca. Bydd y lefelau'n cael eu gosod gan ddefnyddio'r dangosyddion a'r ffactorau a nodir yn y Cod Darbodus. Nid yw costau benthyca yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth y DU, felly mae angen i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau y gall ariannu’r costau ad-dalu. Mae Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yr awdurdod yn nodi agwedd ddarbodus tuag at y swm a neilltuwyd ar gyfer ad-dalu dyled. Mae'r rhain wedi'u nodi ar wahân o dan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a gaiff ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r Cod yn nodi'n glir na ddylai'r awdurdod fenthyca i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer enillion ariannol.

9.8 Yn ogystal â’u rhaglen gyfalaf eu hunain, mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn gweithio gyda phartneriaid eraill i sicrhau adnoddau cyfalaf a refeniw ychwanegol i hybu amcanion partneriaeth, trawsnewid a chynaliadwyedd lle bynnag a phryd bynnag y bo modd. Ymdrinnir â'r rhain drwy brosesau cyflenwol.

## 10 Trefniadau llywodraethu

10.1 Fel yr amlinellwyd, mae'r rhaglen gyfalaf wedi'i blaenoriaethu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, sy'n gwerthuso gofynion yn erbyn blaenoriaethau strategol. Mae'r prosesau'n cydnabod maint a chymhlethdod amrywiol prosiectau cyfalaf ac yn ymgorffori dull cymesur o werthuso, monitro a gwerthuso prosiectau cyfalaf.

10.2 Mae’r Comisiynydd yn rheoli ei strategaeth gyfalaf yn weithredol drwy’r Bwrdd Plismona, sy’n goruchwylio’r prosiectau newid mawr ar gyfer cyfalaf a refeniw. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Cyllid a Strategaeth yn cefnogi cyflawni ac yn monitro risgiau rhaglenni penodol. Mae gwaith gweithredu manwl yn cael ei neilltuo i unigolion allweddol a'i oruchwylio gan Grwpiau Ystadau Strategol, TGCh Strategol a Defnyddwyr Cerbydau Strategol neu mewn Byrddau Prosiect penodol, gan gynnwys y Grŵp Adeiladu Cyfalaf, a sefydlir i oruchwylio a llywodraethu cynlluniau cyfalaf mawr.

10.3 Rheolir prosiectau mawr yn unol ag arferion gorau rheoli prosiect o ran cydymffurfio â methodoleg prosiect PRINCE2®.Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu rhwng rheoli buddion ar brosiectau allweddol, cynllunio effeithlonrwydd a gwybodaeth am gostau.

10.4 Mae ffurflen cynnig prosiect wedi'i datblygu i gasglu ystyriaethau prosiect, risgiau, costau, amserlenni a buddion busnes mewn modd cyson ar draws y sefydliad. Mae Grŵp Prosiectau a Chyllid wedi'i sefydlu i adolygu pob cais am gyllid a fydd yn cael ei uwchgyfeirio i'r Grŵp Newid a Thrawsnewid i'w ystyried.

10.5 Mae cynigion prosiectau cyfalaf yn cael eu hystyried a'u blaenoriaethu gan gyfeirio at achos busnes ac yn cael eu hystyried yn erbyn y ffactorau a ganlyn:

- Pwysigrwydd strategol – sut mae'r cais yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach;
- Y canlyniadau a gyflawnir a'r buddion a'r effeithiau penodol;
- Cynaliadwyedd ariannol – a yw costau yn realistig a lefel goblygiadau refeniw yn y dyfodol;
- Cynaliadwyedd amgylcheddol;
- Pa opsiynau sydd wedi cael eu hystyried;
- Pa ffynonellau cyllid eraill a allai fod ar gael;
- I ba raddau y mae'r cynigion yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth.

10.6 Rhoddir ystyriaeth arbennig i gostau refeniw parhaus sy'n deillio o brosiectau cyfalaf o fewn y broses arfarnu. Mae pob cynnig cyfalaf posibl yn nodi costau refeniw parhaus ac yn ystyried sut y gellir eu bodloni. Mae costau refeniw sy'n deillio o gynlluniau cyfalaf gan gynnwys unrhyw ofynion benthyca darbodus, wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

10.7 Yna maent yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar bedwar categori, a restrir isod yn nhrefn blaenoriaeth:

- Anorfod (atebolrwydd statudol, cytundebol neu arteithiol);
- Blaenoriaeth gorfforaethol (yn ymwneud yn uniongyrchol â'r nodau corfforaethol a blaenoriaethau ar gyfer gwella);
- Blaenoriaeth gwasanaeth (cyflawni blaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd);
- Arall (ad-dalu, buddsoddi i arbed, trosoledd cyllid allanol ac ati.).

10.8 Dim ond os nodir adnoddau ychwanegol neu danwariant ar y rhaglen gyfalaf gymeradwy yn ystod y flwyddyn y gellir ystyried a chyflawni prosiectau blaenoriaeth is na ellir eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

10.9 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau cyfalaf fel rhan o'r broses adrodd ynghylch materion ariannol i'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth a'r Bwrdd Plismona. Mae prosiectau ac adroddiadau penodol hefyd yn cael eu

hystyried gan y grwpiau llywodraethu priodol sy'n eistedd o dan y byrddau hyn, h.y. Grŵp Ystadau Strategol, Grŵp Adeiladu ag arian Cyfalaf, Grŵp TGCh Strategol a Grŵp Defnyddwyr Fflyd Strategol, gyda risgiau ac adroddiadau amlygu yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r strwythur llywodraethu fel y bo'n briodol.

10.10 Yn dilyn cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf, nodir rheolwr prosiect a chynrychiolydd defnyddwyr ar gyfer pob prosiect cyfalaf. Mae'r rheolwr prosiect yn gyfrifol am reoli gweithrediad y prosiect a chyflawni ei amcanion. Ar gyfer pob prosiect o fewn y rhaglen gyfalaf, nodir swyddog fel noddwr prosiect.

10.11 Mae cynrychiolydd y defnyddwyr yn gyfrifol am gynrychioli defnyddwyr a chwsmeriaid ac am ddiffinio'r gofynion ansawdd. Mae'r ddwy rôl yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol methodoleg rheoli prosiect PRINCE2®.Mae'r rheolwr prosiect yn cynhyrchu cynllun prosiect i'w gymeradwyo. Adroddir ar gynnydd mewn perthynas â chynllun y prosiect i Fwrdd Rheoli'r Rhaglen a Noddwr y Prosiect.

10.12 Unwaith y bydd prosiectau wedi'u cwblhau, mae'r rheolwr prosiect yn cwblhau adolygiad ôl-weithredu ar gyfer y prosiectau cyfalaf mawr. Mae hyn yn cynnwys nodi ar ba gam y bydd yr adolygiad ôl-brosiect yn cael ei gynnal. Mae'r adroddiad ôl-weithredu yn cael ei adolygu gan y Grŵp Newid a Thrawsnewid a'i uwchgyfeirio i'r Bwrdd Plismona, os oes angen.

10.13 Er mwyn gwerthuso gwir lwyddiant a chanlyniadau prosiectau cyfalaf, cynhelir adolygiad ôl-brosiect hefyd. Mae dyfnder yr adolygiad hwn yn gymesur â maint y prosiect a'r buddion a nodir yn y Dogfennau Cychwyn Prosiect cychwynnol.

10.14 Mae'r adolygiad hwn mewn gwirionedd yn wiriad o berfformiad yn erbyn y cynnig gwreiddiol. Mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd, i ba raddau y mae'r buddion a hawlir yn cael eu gwireddu, y costau gwirioneddol, yn refeniw a chyfalaf, ac effaith cyllid arall a gweithio mewn partneriaeth. Yna gall Heddlu Dyfed-Powys ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a gwneud unrhyw welliannau a nodir wrth weithredu'r prosiect.

10.15 Caiff llwyddiant parhaus prosiectau ei fonitro drwy nifer o fecanweithiau megis adborth swyddogion, ymgynghoriad cyhoeddus ac adborth cwsmeriaid.

### Gwaredu asedau

10.16 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod angen i’r heddlu waredu asedau dros ben neu anaddas i helpu i gyflawni ei nodau corfforaethol a chyflawni ei raglen gyfalaf ac mae'r broses fanwl ar gyfer gwaredu asedau wedi'i chynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Mae nifer o eiddo eisoes wedi'u gwerthu a bydd cynlluniau i farchnata eiddo pellach yn cael eu gwneud ar y cyd â chyflawni'r Strategaeth Ystadau yn unol â

chyfrifoldebau ehangach y Comisiynydd.

## 11 Casgliad

11.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried pob agwedd ar reoli cyfalaf, yn nodi'r dulliau ar gyfer asesu prosiectau cyfalaf ac asedau ac yn amlinellu'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2030/31, gyda rhagolygon ehangach hyd at 2034/35.Dylid darllen y strategaeth ar y cyd â'r Strategaethau Ystadau, TGCh a Fflyd manwl, Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n ymdrin â gofynion Cod Darbodus CIPFA.

## Atodiad G – Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2034/35

| Capital Programme - 2025 to 2035 | Updated 2025/6 | Original 2026/7 | 2027/8 | 2028/9 | 2029/30 | 2030/1 | 2031/2 | 2032/3 | 2033/4 | 2034/5 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Scheme / Project** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Estates Projects** | | | | | | | | | | | |
| Major Estates Projects | | | | | | | | | | | |
| New Station Brecon | 262 | 8,554 | - | - | - | - | - | - | - | - | 8,816 |
| Joint Firearms Facility | 7,659 | 1,390 | - | - | - | - | - | - | - | - | 9,049 |
| Refurbishment - Haverfordwest Station | 908 | 1,819 | - | - | - | - | - | - | - | - | 2,727 |
| Refurbishment - HQ | 478 | 37 | 398 | 1,243 | 845 | - | - | - | - | - | 3,000 |
| Solar Farm - HQ | 171 | 1,685 | - | - | - | - | - | - | - | - | 1,856 |
| Estates Minor works | | | | | | | | | | | |
| Other Sustainability and Environmental Projects | 343 | 340 | 1,660 | 1,100 | 375 | 175 | 175 | 175 | 175 | 175 | 4,693 |
| Other / Minor Works | 1,237 | 2,910 | 2,527 | 3,110 | 1,950 | 4,441 | 2,950 | 2,950 | 2,950 | 2,950 | 27,975 |
| **Total Estates** | **11,058** | **16,735** | **4,585** | **5,453** | **3,170** | **4,616** | **3,125** | **3,125** | **3,125** | **3,125** | **58,116** |
| **Fleet / Boat** | | | | | | | | | | | |
| Replacements | 2,142 | 1,814 | 2,292 | 3,127 | 3,654 | 3,703 | 3,754 | 3,805 | 3,857 | 3,687 | 31,836 |
| Electric Vehicles / Sustainability | 391 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 2,011 |
| | **2,533** | **1,994** | **2,472** | **3,307** | **3,834** | **3,883** | **3,934** | **3,985** | **4,037** | **3,867** | **33,847** |
| **ICT and Equipment** | | | | | | | | | | | |
| WAN / ESN | 393 | 1,103 | 850 | 2,607 | 1,329 | 352 | 352 | 50 | 2,010 | 1,298 | 10,344 |
| CCTV | 404 | 1,281 | 250 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | - | 2,235 |
| Device Replacement | 1,939 | 2,450 | 1,057 | 1,073 | 614 | 1,711 | 1,441 | 1,689 | 739 | 540 | 13,253 |
| Other ICT Innovation and Technology | 374 | 655 | 925 | 943 | 1,020 | 640 | 683 | 412 | 389 | 339 | 6,380 |
| | **3,109** | **5,489** | **3,082** | **4,673** | **3,013** | **2,753** | **2,526** | **2,201** | **3,188** | **2,177** | **32,211** |
| Equipment | | | | | | | | | | | |
| Equipment and Innovation SPAC Bids | 857 | 1,130 | 1,360 | 527 | 475 | 475 | 475 | 475 | 475 | 475 | 6,724 |
| | **857** | **1,130** | **1,360** | **527** | **475** | **475** | **475** | **475** | **475** | **475** | **6,724** |
| **Total Capital Programme** | **17,557** | **25,348** | **11,499** | **13,959** | **10,492** | **11,728** | **10,060** | **9,786** | **10,825** | **9,644** | **130,898** |
| **Own Financing** | | | | | | | | | | | |
| Direct Revenue Financing | (2,718) | (4,166) | (5,016) | (5,866) | (6,807) | (8,176) | (10,010) | (9,736) | (10,775) | (9,594) | (72,864) |
| Capital Receipts | (1,100) | (50) | (1,050) | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) | (50) | (2,550) |
| Capital Reserves and Grants | (3,374) | (3,185) | (1,042) | (1,425) | - | - | - | - | - | - | (9,026) |
| **Additional Capital Financing Requirement** | **(10,365)** | **(17,947)** | **(4,391)** | **(6,619)** | **(3,635)** | **(3,502)** | **-** | **-** | **(0)** | **-** | **(46,458)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Estimated External Financing Requirement Cumulative** | (20,000) | (27,444) | (34,536) | (32,912) | (33,454) | (32,431) | (30,236) | (28,040) | (25,845) | (23,649) | |
| | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 5.00% | |